## Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

**Mabwysiadwyd 24/01/23**

# Adroddiad Monitro Blynyddol (AMI) 2

# 01/04/24 – 31/03/25

**Cyngor Sir y Fflint**

**Hydref 2025**

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 3 |
| Cyflwyniad | 7 |
| Newidiadau Cyd-destunol | 11 |
| Dangosyddion Craidd | 18 |
| Dangosyddion Lleol | 52 |
| Arfarniad o Gynaliadwyedd | 94 |
| Casgliadau / Argymhellion | 118 |
| Atodiadau | 121 |

**Crynodeb Gweithredol**

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir y Fflint ar 23 Ionawr 2023 a hwn sy'n ffurfio'r cynllun datblygu ar gyfer Sir y Fflint ar y cyd â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae'r CDLl yn ffurfio'r sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio ar gyfer y cyfnod o 2015 i 2030.

Fel rhan o'r system sy'n ddibynnol ar gynllun statudol yng Nghymru, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu gan Lywodraeth Cymru yn dweud bod *'Monitro'n ddolen adborth hanfodol o fewn y broses gylchol o gyflawni datblygu cynaliadwy. Dylai gwaith monitro ac adolygu fod yn swyddogaeth barhaus y system a arweinir gan y cynllun ac mae'n agwedd hanfodol ar lunio polisïau ar sail tystiolaeth'.*

Mae'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn adlewyrchu'r ail gyfnod o 12 mis llawn ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu ac mae'n trafod y cyfnod o 01/04/24 i 31/03/25.

Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn seiliedig ar y Fframwaith Monitro o fewn Pennod 10 yn y CDLl a fabwysiadwyd. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol wedi'i drefnu fel hyn:

- Cyflwyniad
- Newidiadau Cyd-destunol
- Dangosyddion Craidd
- Dangosyddion Lleol
- Canlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd
- Casgliadau / Argymhellion
- Atodiadau

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu'n ei gwneud yn ofynnol i'r Crynodeb Gweithredol nodi'r canfyddiadau a chasgliadau allweddol mewn perthynas â chyflawni'r strategaeth, gan osod casgliadau clir ynghylch a oes angen adolygiad o'r cynllun.

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn gosod y cwestiynau canlynol:

**• Pa faterion newydd sydd wedi codi yn ardal y cynllun, neu newidiadau i bolisïau lleol/cenedlaethol?**

Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol wedi dangos nad oes unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol megis newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau cenedlaethol y mae'r Cynllun yn gweithredu oddi mewn iddynt. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod i ardal y Cynllun sy'n effeithio ar gyflawni'r Cynllun, er bod dynodi Glannau Dyfrdwy a Wrecsam fel Parth Buddsoddi posib' yn creu cyfle i fusnesau hen a newydd elwa o amrywiaeth o gynlluniau anogaeth ariannol.

**• Pa mor berthnasol, priodol a chyfredol yw strategaeth y CDLl a'i bolisïau a'i dargedau allweddol?**

Dim ond yn ddiweddar mae'r CDLl wedi cael ei fabwysiadu a dyma'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol ers ei fabwysiadu. Gan nad oes newidiadau arwyddocaol iawn i'r cyd-destun, ystyrir bod Strategaeth y CDLl yn parhau i fod yn berthnasol, yn briodol

ac yn gyfredol a'i bod yn cyd-fynd â chanllawiau Polisi Cynllunio Cymru 12. Mae strategaeth y Cynllun yn gyson â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2024 a'r penderfyniad i enwi Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fel Ardal Dwf Genedlaethol, drwy geisio cyflawni twf. Mae strategaeth ofodol y Cynllun fel y mynegir trwy'r hierarchaeth aneddiadau yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r gyfres o bolisïau strategol a rheoli datblygu a fydd yn gweithio tuag at sicrhau datblygiadau cynaliadwy, creu lleoedd, lles a gwarchod yr amgylchedd.

• **Pa safleoedd sydd wedi cael eu datblygu neu eu hoedi mewn perthynas â disgwyliadau'r cynllun yn y ddau le ac yn y rhaglen camau cyflawni (fel y nodwyd yn y taflwybr)**

Mae dyraniadau'r Cynllun yn cynnwys safle defnydd cymysg strategol ym Mhorth y Gogledd, safle strategol a arweinir gan gyflogaeth yn Warren Hall, 11 o safleoedd cyflogaeth heb fod yn strategol a 6 safle cyflogaeth heb fod yn strategol.

Porth y Gogledd – Mae 5 datblygwr ar y safle ar hyn o bryd yn cynnwys Anwyl, Bellway, Keepmoat, Ashberry a Persimmon. Mae Clwyd Alyn (Castle Green) wedi cwblhau 100 o unedau tai fforddiadwy ar eu safle yn ystod 2024/25. Mae'r safle'n un mawr a chymhleth wedi'i rannu rhwng dau berchennog a bu'n rhaid gwneud buddsoddiad cyhoeddus sylweddol mewn isadeiledd er mwyn galluogi hyrwyddwyr y safle i greu lleiniau sy'n barod i'w datblygu. Er bod oedi wedi bod ar ddwyn lleiniau ymlaen, a bod unedau wedi'u cwblhau'n hwyrach na thaflwybr y Cynllun am ddwy flynedd, mae hyn wedi dechrau newid wrth i unedau wedi'u cwblhau gynyddu i 232 ar gyfer 2024/25, sydd 132 o unedau o flaen y rhagdybiaeth sydd yn y taflwybr sydd wedi'i fabwysiadu. Mae disgwyl i'r gyfradd gyflawni dros weddill blynyddoedd y cynllun barhau i fod yn uchel am y tair blynedd nesaf oherwydd y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud ar y safle ar hyn o bryd. Ym mis Ebrill 2025, roedd 224 o unedau wrthi'n cael eu hadeiladu ar draws mwyafrif y camau. O ran datblygiadau cyflogaeth, mae depo dosbarthu Amazon wedi'i gwblhau ar y safle, mae melin bapur wrthi'n cael ei hadeiladu, unedau diwydiannol/storio'n cael eu hadeiladu, ac archfarchnad newydd yn nesáu at y terfyn, yn rhan o'r ganolfan leol i wasanaethu'r safle. Ar y cyfan, ystyrir bod cynnydd da yn cael ei wneud ym Mhorth y Gogledd ac nid oes achos am bryder.

Warren Hall – Mae hwn yn safle strategol defnydd cymysg a arweinir gan gyflogaeth sy'n cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru. Mae rhagor o waith technegol wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru ynghlwm â'r cyfyngiad awyrenegol sy'n gysylltiedig â Maes Awyr Penarlâg. Yn rhan o hyn, bu trafodaethau agos gydag Airbus a bydd yn dylanwadu ymhellach ar raddfa ffisegol datblygiadau ac uchder adeiladau. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ar baratoi cais cynllunio amlinellol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau yn ymrwymedig i ddarparu'r safle ac mae Uchelgais Gogledd Cymru yn dal â'r bwriad i ariannu'r buddsoddiad angenrheidiol mewn isadeiledd er mwyn darparu'r safle.

Safleoedd tai heb fod yn strategol – O'r 11 o safleoedd dyranedig, mae 3 wedi'u hadeiladu, 4 wrthi'n cael eu hadeiladu, 1 â chaniatâd cynllunio, 1 wedi cael Penderfyniad gan y Pwyllgor Cynllunio i roi caniatâd a 2 â cheisiadau manwl o dan ystyriaeth ar hyn o bryd, sydd i fod i fynd ger bron y Pwyllgor Cynllunio yn ystod

hydref 2025. Mae Pennod 3 yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhoi rhesymau tu ôl i'r oedi wrth gyflawni ar safleoedd dyranedig, yn ogystal â sylwebaeth ar bob safle, ond ar y cyfan mae'r Cyngor yn hyderus y bydd y safleoedd yn cael eu cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun.

Safleoedd cyflogaeth heb fod yn strategol – Mae'r Cynllun yn gwneud 6 dyraniad cyflogaeth o wahanol feintiau. Mae cynnydd da wedi'i wneud yn benodol ym Mharc Penarlâg PE1.2 a cham 1 a cham 2 Parc Busnes Vista wedi'u cwblhau.

• **Beth yw lefel yr amrywiant oddi wrth y gyfradd adeiladu flynyddol a chronnol ddisgwyliedig? A oes tuedd dwy flynedd i dangyflawni (nifer y tai a gwblhawyd bob blwyddyn nid nifer yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a gyflwynwyd)?**

Mae'r dystiolaeth monitro yn Mhennod 3 yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn dangos fod darpariaeth tai ar y blaen i ofynion adeiladu blynyddol y Cynllun o 463 uned, ond mae hyn y tu ôl i'r taflwybr a'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig yn y Cynllun a fabwysiadwyd. Fodd bynnag, ni chredir bod graddau'r amrywiaeth yn sylweddol o ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran dwyn safleoedd dyranedig ymlaen i'w datblygu a'r gweithgarwch datblygu presennol ym Mhorth y Gogledd. Nid yw hyn yn sefyllfa lle na fydd y Cynllun yn darparu o gwbl, ond yn sefyllfa lle bydd y Cynllun yn darparu mewn ffordd wahanol i'r bwriad yn y taflwybr a fabwysiadwyd. Yn hytrach na chyrraedd uchafbwynt y cwblhau yn 2023/24 (703 uned) ac yna lleihau, mae'r taflwybr diwygiedig yn dangos uchafbwynt cwblhau yn 2026/27 (884) a'r unedau sy'n cael eu cwblhau'n parhau'n gymharol uchel y flwyddyn ganlynol cyn lleihau wedyn dros ddwy flynedd olaf y Cynllun. Mae'r taflwybr diwygiedig yn dangos y bydd y Cynllun yn cyflawni 47 o unedau dros ben, y tu hwnt i'r gofynion tai o 6,950 o anheddau. Er bod y ffordd y bydd tai'n cael eu darparu'n wahanol i'r hyn sydd yn y taflwybr a fabwysiadwyd, nid yw hyn yn cael ei ystyried yn bryder sylweddol, nac yn golygu bod angen adolygu'r Cynllun gan y bydd yn bodloni'r gofyn am dai.

• **Pa mor effeithiol fu'r gwaith o gyflawni polisïau ac atal datblygiadau amhriodol?**

Mae'r dystiolaeth fonitro ym Mhennod 4 (dangosyddion lleol) a Phennod 5 (arfarniad o gynaliadwyedd) yn dangos yn glir bod polisïau'r Cynllun yn effeithiol o ran atal datblygiadau amhriodol a niweidiol.

Wrth ddod i gasgliad, ystyrir bod y Cynllun yn dal i fod yn berthnasol, priodol ac effeithiol yn ei rôl i benderfynu ar geisiadau cynllunio ac i gyflawni datblygiadau dros y cyfnod o 2015 i 2030. Er bod rhywfaint o oedi i ddechrau wrth ddarparu tai, ni ystyrir hyn yn arwyddocaol i'r Cynllun o ystyried y rhagolwg cadarnhaol o ran y safleoedd dyranedig sy'n cael eu dwyn ymlaen. Dylid parhau i fonitro'r Cynllun er mwyn cael y dystiolaeth angenrheidiol i allu cynnal adolygiad o'r Cynllun. Ni chredir y byddai adolygiad o'r Cynllun ar hyn o bryd yn cyflawni unrhyw beth i ddwyn safleoedd ymlaen ar unwaith, o gymharu â chaniatáu i'r safleoedd dyranedig barhau i wneud cynnydd.

Mae’r Cyngor yn ymwybodol ei bod yn ofynnol adolygu’r Cynllun bedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu h.y. 24/01/27. Ystyrir, wedi cyflwyno’r ail Adroddiad Monitro Blynyddol ac ochr yn ochr â pharatoi’r trydydd, fod gwaith yn cael ei wneud i baratoi Adroddiad Adolygu drafft a Chytundeb Cyflawni drafft. Rhagwelir y byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar Adroddiad Adolygu drafft ddiwedd 2026, ac yna ymgynghoriad ynghylch y Cytundeb Cyflawni drafft ddechrau 2027. Byddai hynny’n galluogi’r Cyngor i ddechau adolygu’r Cynllun cyn y dyddiad statudol i’w adolygu bob pedair blynedd. Byddai’n galluogi’r Cyngor i sicrhau cynnydd da ar yr Adolygiad o’r Cynllun cyn y dyddiad terfyn o 31/03/30 ar gyfer y CDLl mabwysiedig.

# 1 Cyflwyniad

1.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir y Fflint ei fabwysiadu ar 24 Ionawr 2023. Mae'r CDLl bellach yn ffurfio'r fframwaith defnydd tir ar y cyd â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol, ac yn sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio defnydd tir.

1.2 Fel rhan o broses y cynllun datblygu statudol, mae'n ofynnol i'r Cyngor fonitro'r Cynllun a pharatoi Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn sail ar gyfer monitro effeithiolrwydd amcanion a pholisïau'r Cynllun, manylion cynaliadwyedd y Cynllun ac yn nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol sylweddol a all ddylanwadu ar ei weithrediad.

1.3 Dyma'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol llawn i gael ei baratoi ar gyfer y CDLl sy'n cynnwys y cyfnod 01/04/24 i 31/03/25.

**Fformat yr Adroddiad Monitro Blynyddol**

1.4 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn unol â'r cyngor yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) ac yn cynnwys y canlynol:

1.5 **Crynodeb Gweithredol** – Mae'n nodi'r canfyddiadau a chasgliadau allweddol mewn perthynas â darparu'r strategaeth, gosod canlyniadau clir ar a oes angen adolygiad o'r cynllun. Mae'n cynnwys y materion canlynol:

- Pa faterion newydd sydd wedi codi yn ardal y cynllun, neu newidiadau i bolisi lleol/cenedlaethol?
- Pa mor berthnasol, priodol a chyfredol yw strategaeth y CDLl a'i dargedau a pholisïau allweddol?
- Pa safleoedd sydd wedi cael eu datblygu neu eu hoedi mewn perthynas â disgwyliadau'r cynllun yn y ddau le ac yn y rhaglen raddol (fel y nodir yn y taflwybr)?
- Beth yw'r raddfa o amrywiaeth o'r gyfradd adeiladu cronnus a blynyddol a ragwelir? A oes tuedd dwy flynedd o dangyflawni (cyflawniadau blynyddol nid nifer yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a gyflwynwyd)?
- Beth yw effeithiolrwydd darparu polisïau ac atal datblygiad amhriodol?

1.6 **Pennod 2 Newid Cyd-destunol Sylweddol –** mae'r bennod hon yn cyflwyno crynodeb o newidiadau cyd-destunol sylweddol ehangach y mae'r CDLl yn gweithredu ynddo. Mae hyn yn cynnwys newidiadau polisi, strategaethau a chynlluniau allweddol, newidiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

1.7 **Pennod 3 Dadansoddiad o ddangosyddion craidd / allweddol** – mae'r bennod hon yn rhoi dadansoddiad o effeithiolrwydd fframwaith polisi CDLl i gyflawni Strategaeth y Cynllun. Mae'n cynnwys prif amcanion, a'r lefelau twf penodol gan gynnwys darpariaeth tai, tai fforddiadwy ac isadeiledd.

1,8 **Pennod 4 Dadansoddiad o Ddangosyddion Lleol** – mae'r bennod hon yn sefydlu a yw polisïau yn effeithiol ai peidio a sut eir i'r afael ag unrhyw faterion.

1.9 **Pennod 5 Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd** – Mae'r bennod hon yn dadansoddi'r effaith y mae'r CDLI yn ei gael ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir. Mae'n adrodd ar Asesiad o Effaith Integredig y Cynllun sy'n cynnwys yr arfarniad cynaliadwyedd a'r asesiad amgylcheddol strategol.

1.10 **Pennod 6 Casgliadau ac Argymhellion** – mae hwn yn darparu trosolwg o ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ac yn gwneud argymhellion am faterion sydd angen eu hystyried ymhellach.

**Fframwaith Monitro'r Cynllun**

1.11 Mae'r Fframwaith Monitro yn cynnwys dwy elfen allweddol sy'n monitro:
- Strategaeth, polisïau a chynigion y CDLI; ac
- Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.12 Mae'r fframwaith monitro CDLI wedi'i nodi ym Mhennod 10 y datganiad ysgrifenedig ac mae'n nodi 66 o ddangosyddion monitro. Mae pob un o'r dangosyddion yn cyfeirio'n ôl at yr Amcan Strategol perthnasol yn ogystal â'r polisi strategol perthnasol a/neu bolisi rheoli datblygiad. Felly bydd monitro'r dangosyddion hefyd yn ystyried polisïau ac amcanion y Cynllun. Cafodd y fframwaith monitro ei ddatblygu yn unol â'r canllawiau yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Llywodraeth Cymru.

1.13 Ar gyfer pob dangosydd monitro mae'r fframwaith yn nodi targed a phwynt sbardun ynghyd ag eglurhad a chyfiawnhad. Ym mhob achos bydd angen monitro'r raddfa y mae'r polisi wedi bodloni neu wyro oddi wrth y pwynt sbardun. Os bydd yn gwyro, bydd angen penderfynu ar lefel y gwyriad, y rhesymau dros hyn a pha gamau sydd angen eu cymryd.

1.14 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (Argraffiad 3) yn nodi'r camau monitro y gellir eu cymryd mewn digwyddiadau lle mae'r CDLI yn gwyro oddi wrth y targed a'r sbardun. Mae tablau manwl o'r dangosyddion monitro wedi'u nodi ym Mhennod 3 a 4 ac ar gyfer pob dangosydd monitro mae datganiad 'perfformiad polisi' ynghyd â defnydd o'r cod lliw o'r tabl isod.

| Camau Monitro | Eglurhad o'r Cam |
|---|---|
| Parhau i Fonitro | Mae polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol. |
| Angen Hyfforddiant | Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen hyfforddiant ar swyddogion neu Aelodau. |
| Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) | Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen canllawiau pellach, ac o bosibl paratoi CCA ychwanegol. |
| Angen Ymchwiliad / Ymchwil Pellach | Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen ymchwil a/neu archwiliad pellach. |
| Angen Adolygu'r Polisi | Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu ac nid ydynt yn cyflawni; efallai y bydd angen adolygiad o'r polisi penodol. |

| | |
|---|---|
| Adolygu'r Cynllun | Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu ac nid yw strategaeth y cynllun yn cael ei darparu, gan sbarduno adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad statudol bob 4 mlynedd. |

**Amcanion a Dangosyddion yr Asesiad o Effaith Integredig**

1.15 Roedd Asesiad o Effaith Integredig yn cyd-fynd â pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Arfarniad Cynaliadwyedd
- Asesiad Amgylcheddol Strategol
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o Effaith ar Iechyd ac
- Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

1.16 Roedd Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd hefyd yn cyd-fynd â'r CDLl sy'n asesu effaith ar safleoedd a ddiogelir dan gyfraith Ewrop. Fodd bynnag, dylid nodi nad oes gofyniad yn yr Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd am fonitro ffurfiol yn dilyn mabwysiadu'r CDLl. Y fersiynau mwyaf diweddar o'r Asesiad o Effaith Integredig a'r Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd oedd y rhai oedd yn cyd-fynd â'r CDLl a fabwysiadwyd:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Planning/Examination-Library-Documents/Final-Sustainability-Appraisal-Report-Welsh.pdf

https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Examination-Library-Documents/Final-Habitats-Regulations-Assessment.pdf

1.17 Mae'r Asesiad o Effaith Integredig wedi asesu effeithiau sylweddol posibl y Cynllun gan ddod i'r casgliad ei fod yn dderbyniol. Fodd bynnag, mae'r Asesiad o Effaith Integredig yn cydnabod yn Adran 5 ei fod angen monitro effeithiau amgylcheddol sylweddol. Mae Rheoliadau'r Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i effeithiau sylweddol posibl a all godi o ganlyniad i weithredu'r strategaeth gael eu monitro. Mewn termau syml mae'r Asesiad o Effaith Integredig yn cydnabod bod perygl y bydd effeithiau cynaliadwyedd y CDLl, yn cynnwys effeithiau agweddau penodol neu effeithiau cyfunol y CDLl ar y cyd, yn wahanol i'r rhai a rhagwelir oherwydd amgylchiadau na ellir eu rhagweld. Mae'r Asesiad o Effaith Integredig yn nodi yn Nhabl 5.1, yr 17 o amcanion yr Asesiad o Effaith Integredig, yr effeithiau i'w monitro a 27 o ddangosyddion monitro, a ffynonellau posibl o ddata. Mae'r tabl yn ffurfio sail i fonitro'r Asesiad o Effaith Integredig ac wedi'i nodi ym Mhennod 5 y ddogfen hon. Bydd monitro Asesiad o Effaith Integredig yn cynnwys data ar gyfer pob dangosydd a sylwebaeth o ran a yw'r amcanion cynaliadwyedd yn cael eu bodloni. Mae hefyd yn defnyddio cod lliw syml fel yr awgrymwyd yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, fel a ganlyn:

| Symbol | Effaith a ragwelir |
|---|---|

| | |
|---|---|
| ++ | Effeithiau cadarnhaol iawn o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol<br>Mae'r Cynllun yn cael effaith gadarnhaol iawn ar yr amcan monitro |
| + | Effaith gadarnhaol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol<br>Mae'r Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar yr amcan monitro |
| 0 | Effaith niwtral o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol<br>Nid yw'r Cynllun yn cael effaith, nac yn cael effaith gymysg ar yr amcan monitro |
| - | Effaith negyddol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol<br>Mae'r Cynllun yn cael effaith negyddol ar yr amcan monitro |
| -- | Effaith negyddol iawn o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol<br>Mae'r Cynllun yn cael effaith negyddol iawn ar yr amcan monitro |
| ? | Effaith yn ansicr |

## 2. Newidiadau Cyd-destunol Sylweddol

### Cyflwyniad

2.1 Mae'r bennod hon yn darparu trosolwg o'r newidiadau sylweddol perthnasol sy'n effeithio ar y cyd-destun yr oedd y CDLl yn gweithredu ynddo yn y 12 mis 2024 - 2025. Mae'n cynnwys deddfwriaeth berthnasol, polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

### Deddfwriaeth

2.2 Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a Bil Cynllunio Cymru - Daeth Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a'i chyfres o is-ddeddfwriaeth ategol i rym yn llawn ar 04/11/24. Dyma'r ddeddfwriaeth gyfunol gyntaf yn rhaglen 5 mlynedd Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Bydd y Bil Cynllunio Cymru Drafft a gyhoeddwyd ar 18/06/25 yn cael ei gyflwyno i'r Senedd ym Medi 2025 i'w graffu gan yr Aelodau.

### Canllawiau a Pholisi Cenedlaethol

2.3 TAN15 Diwygiedig Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol – Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 31/03/25. Daeth i rym yn syth ar y dyddiad cyhoeddi, ac eithrio'r ceisiadau cynllunio a ddilyswyd cyn y dyddiad cyhoeddi, a fydd yn parhau i gael eu pennu yn erbyn y fersiwn flaenorol o TAN15. Ni ystyrir bod unrhyw faterion allweddol yn ymwneud â chyflawni twf y CDLl trwy ei ddyraniadau.

### Cyd-destun Rhanbarthol

2.4 Ymgynghoriad CNC ynglŷn â'r Parc Cenedlaethol - Comisiynodd Llywodraeth Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr Awdurdod Dynodi yng Nghymru, i werthuso achos ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yn seiliedig ar AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Cynhaliwyd cyfnod ymgysylltu o ddydd Llun 9 Hydref i ddydd Llun 27 Tachwedd 2023 a chynhaliwyd ymgynghoriad ar y ffiniau drafft rhwng 07 Hydref a 16 Rhagfyr 2024. Gwnaed penderfyniad i symud ymlaen i ddynodi Parc Cenedlaethol, gan CNC yn ei Gyfarfod Bwrdd ar 16 Gorffennaf. Bydd ymgynghoriad pellach gan CNC nawr yn cael ei gynnal.

2.5 Cynlluniau Datblygu Lleol - Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol Gogledd Cymru ar gamau amrywiol yn y paratoadau ar gyfer y CDLl. Bu i Gyngor Wrecsam fabwysiadu eu CDLl ar 20/12/23 ond cafodd hyn ei ddiddymu gan Orchymyn Cyfiawnder yr Uchel Lys ar 19 Mai 2025. Bu i CDLl Newydd Sir Ddinbych gyrraedd cam Strategaeth a Ffefrir (cyn dogfen i'w harchwilio gan y cyhoedd) ac mae gwaith yn datblygu ar Gynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Cynhaliodd Conwy ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir (cyn dogfen i'w harchwilio gan y cyhoedd) ac maent yn gweithio ar Gynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd ar hyn o bryd. Mae CDLl Newydd Ynys Môn a Gwynedd wedi

cyrraedd y cam Galw am Safleoedd. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir CDLI Newydd Powys yn 2024 gyda gwaith yn digwydd ar Gynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

2.6 Cynllun Datblygu Strategol - Mae angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol Gogledd Cymru gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol ar y cyd. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi'i sefydlu gyda chyfrifoldeb am ddarparu lles economaidd, cynllun cludiant rhanbarthol a chynllun datblygu strategol. Yn dilyn secondiad Swyddog i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae gwaith yn digwydd ar ymgynghori ar Gytundeb Cyflawni drafft.

## Cyd-destun Lleol

### Yr Economi

2.7 Mae economi Gogledd Ddwyrain Cymru, ynghyd â'r DU yn gyffredinol, wedi gweld cyfnod anodd yn dilyn Covid ac effeithiau cyllideb fach Medi 2022 sydd wedi arwain at ddirywiad economaidd sylweddol. Mae'r pwysau yn cynnwys yr argyfwng costau byw cyffredinol, rheolyddion pellach ar wariant cyhoeddus a chyfraddau llog uchel sydd wedi taro deiliaid morgais a phrynwyr posibl yn galed iawn.

2.8 Mae Crynodeb Marchnad Lafur Blynyddol Stats Cymru yn dangos ar gyfer y cyfnod hyd at 31/03/25 bod Sir y Fflint yn perfformio'n gymharol dda mewn perthynas â'r DU a Chymru:

| | Y DU | Cymru | Sir y Fflint |
|---|---|---|---|
| Cyfradd Cyflogaeth | 75.4% | 73.4% | 80.3% |
| Cyfradd Gweithgarwch Economaidd | 21.6% | 23.9% | 18.0% |
| Cyfradd Anweithgarwch Economaidd (ac eithrio myfyrwyr) | 17.7% | 19.9% | 14.3% |

2.9 Mae Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus a Phreifat Stats Cymru ar gyfer y cyfnod hyd at 31/03/25 yn dangos fod gan Sir y Fflint gyfran is yn y sector cyhoeddus o'i gymharu â'r DU a Chymru:

| | Y DU | Cymru | Sir y Fflint |
|---|---|---|---|
| Unigolion a gyflogir yn y sector cyhoeddus | 7,762,800 | 447,700 | 20,000 |
| Unigolion a gyflogir yn y sector cyhoeddus | 25,182,700 | 1,019,600 | 58,300 |
| % yn y sector cyhoeddus | 23.6% | 30.5% | 25.5% |

2.10 O ran cyfartaledd enillion wythnosol gros ar gyfer y flwyddyn hyd at 2024, mae Stats Cymru yn dangos 674.50 ar gyfer Cymru a £747.40 ar gyfer Sir y Fflint.

2.11 Parth Menter Glannau Dyfrdwy - Mae Sir y Fflint yn parhau i elwa o Barth Menter Glannau Dyfrdwy sy'n dod ag ystod o fesurau cefnogi i fusnesau sefydledig a newydd. Yr Advance Manufacturing Centre yw un o'r prosiectau

allweddol i'w cyflwyno gan y Parth Menter ac mae hyn yn parhau i fod o fudd i fusnesau lleol.

2.12 Statws parth buddsoddi – Mae parth buddsoddi wedi ei ddynodi ar gyfer Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, gan ddod â £160 miliwn o fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU ac mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi cynlluniau i greu Parth Buddsoddi £80 miliwn yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae'r prosiect yn fenter ar y cyd rhwng Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam ac ystod eang o bartneriaid busnes, addysgol a hamdden. Bydd y Parth Buddsoddi yn cael ei oruchwylio gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig trwy Uchelgais Gogledd Cymru. Ei ganolbwynt fydd Gweithgynhyrchu Uwch a'r gobaith yw datblygu portffolio eang o safleoedd.

2.13 Un o'r prosiectau allweddol yw safle strategol Warren Hall y mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gobeithio ei gyflwyno gyda Llywodraeth Cymru, trwy ariannu isadeiledd a pharatoi tir i greu plotiau sy'n barod i'w datblygu.

**Tai**

2.14 Mae Stats Cymru yn cynhyrchu ystadegau sy'n dangos dechrau tai a chwblhau tai, sy'n dangos effeithiau cyfnod Covid yn glir a hefyd yn fwy diweddar, costau byw ac amodau morgais. Er bod yr ystadegau hyn yn darparu cyd-destun defnyddiol, maent yn seiliedig ar reolaethau adeiladu'r awdurdod lleol a ffurflenni NHBC, ac yn wahanol i'r ffigyrau o fewn prif gorff yr Adroddiad Monitro Blynyddol sy'n seiliedig ar fonitro tir tai.

| | Dechrau Tai | | | Tai a gwblhawyd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | Gogledd Cymru | Sir y Fflint | Cymru | Gogledd Cymru | Sir y Fflint |
| 2015-16 | 6708 | 1345 | 554 | 6900 | 1261 | 511 |
| 2016-17 | 6871 | 1644 | 619 | 6833 | 1300 | 472 |
| 2017-18 | 6037 | 920 | 416 | 6663 | 1311 | 428 |
| 2018-19 | 5974 | 1165 | 423 | 5777 | 1284 | 458 |
| 2019-20 | 6224 | 1263 | 516 | 6037 | 1121 | 399 |
| 2021-21 | 4314 | 1066 | 250 | 4616 | 1233 | 442 |
| 2021-22 | 5659 | 1211 | 327 | 5273 | 1356 | 285 |
| 2022-23 | 4556 | 990 | 252 | 5785 | 1166 | 270 |
| 2023-24 | 5161 | 1130 | 270 | 4756 | 1016 | 250 |

2.15 Cyhoeddodd Savills erthygl yn Ionawr 2024 yma a oedd yn cadarnhau fod cynnydd sylweddol mewn cyfraddau morgais wedi cyfyngu ar fforddiadwyedd a'r galw gan arwain at brisiau tai yn disgyn ar draws Cymru. Roedd yr erthygl yn nodi mai Sir y Fflint oedd yr unig leoliad yng Ngogledd Cymru i ddangos twf prisiau blynyddol. Mae Savills yn rhagweld rhagolygon cadarnhaol ar gyfer ail hanner 2024 ymlaen gyda thwf gwerth 21.4% yng Nghymru dros y 5 mlynedd nesaf hyd at 2028 sy'n cynrychioli'r twf prisiau tai posib cryfaf yn y DU. Nodwyd bod nifer y tai newydd a gwblhawyd wedi disgyn 7% yn y flwyddyn i Fedi 2023 ac yn parhau 6% yn is na chyfartaledd 2017-2019. Mae dechrau a chaniatâd cynllunio fodd bynnag, wedi gostwng yn sylweddol gyda dechrau adeiladu tai wedi lleihau 18% yn y flwyddyn i Fehefin a chaniatâd i lawr 31%

yn y flwyddyn i Fedi. Bu i'r erthygl nodi anawsterau hyfywedd parhaus yn ymwneud â chynnydd mewn costau adeiladu.

2.16 Yn Ebrill 2025 cyhoeddodd Savills erthygl ar y farchnad dai a chyflenwad tai yng Nghymru sy'n dangos positifrwydd gofalus yn y farchnad werthu ar draws y wlad, ond mae datblygiad yn parhau i ostwng gyda nifer y tai newydd yn 2024 ar y lefel isaf am bron i ddegawd. Mae'r erthygl ar gael yma. Roedd trafodion tai ledled Cymru yn 2024 7% yn uwch nag yn 2023, ac yn dangos arwyddion parhaus o welliant. Tra bod cwblhau a chaniatâd cynllunio newydd ar gyfer tai yn parhau i fod yn isel er gwaethaf cynnydd bychan o 8% ar gyfer 2024. Mae Savills yn rhybuddio y bydd nifer y tai newydd a gwblheir ledled Cymru yn annhebygol o gynyddu'n sylweddol yn y dyfodol agos oherwydd y lefel isel o ganiatâd cynllunio.

2.17 Prisiau Tai - Mae data'r Gofrestrfa Tir yn dangos fod tai ychydig yn fwy fforddiadwy yng Nghymru a Sir y Fflint, ond yn dangos bod prisiau tai yn codi ychydig yn Sir y Fflint o gymharu â gostyngiadau parhaus yng Nghymru a'r DU.

| | Y DU | Cymru | Sir y Fflint |
|---|---|---|---|
| Cyfartaledd prisiau tŷ ar gyfer 'holl fathau o eiddo' ar gyfer Mai 2025 | £268,652 | £209,580 | £217,504 |
| Newid mewn Canran ar gyfer 'holl fathau o eiddo' ar gyfer Ebrill 2024 hyd at fis Mai 2025 | 3.9% | 5.1% | 8.5% |

**Poblogaeth / Aelwydydd**

2.18 Cyhoeddodd Stats Cymru amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn ar gyfer Sir y Fflint o 155,334 ar gyfer 2022 a 155,812 ar gyfer 2023 o'i gymharu â 155,000 yng Nghyfrifiad 2021. Mae'r rhagamcanion aelwyd diweddaraf ar gyfer Sir y Fflint yn 2023 yn dangos y canlynol:

- Prif Amrywiad 67,342
- Amrywiad Isaf 66,915
- Amrywiad Uwch 67,615
- Amrywiad Mudo Sero 67,314
- Amrywiad mudo cyfartalog 10 mlynedd 67,492

2.19 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi rhagamcanion poblogaeth ac aelwyd a ddiweddarwyd ar gyfer awdurdodau lleol yn haf 2025.

**Manwerthu**

2.20 Mae Consortiwm Manwerthu Cymru yn dynodi fod y gyfradd eiddo gwag wedi cynyddu o 16.5% i 17% yn ail chwarter 2023 gan ei wneud y gyfradd uchaf ond un yn y DU.

**Prosiectau Isadeiledd - Ynni**

2.21 Yn ystod y 12 mis diwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio ar nifer o brosiectau isadeiledd yn ymwneud ag ynni, fel y nodir isod:

2.22 Hynet - Ar 20/03/24 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Diogelwch Ynni a Sero Net fod y caniatâd datblygu i'w gymeradwyo yma gydag adroddiad manwl yma. Mae'r Cyngor yn rhan o waith pellach o ran cyflawni gofynion.

2.23 Dal a Storio Carbon Padeswood – Bydd y Datblygiad hwn o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ceisio dal tua 7,200,000 tunnell o CO2 bob blwyddyn o odyn sment yn Padeswood a bwydo i'r piblinell HyNet arfaethedig. Cafodd y cais ganiatâd cynllunio ar 04/04/25 gan PEDW. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried cais cynllunio ar gyfer piblinell newydd yn cysylltu'r cyfleuster arfaethedig hwn â'r piblinell HyNet yn Northop Hall.

2.24 Y Parlwr Du, Talacre - Cafwyd caniatâd cynllunio manwl ar 23/05/24 ar gyfer ail-bwrpasu Terfynell Nwy y Parlwr Du i'w ddefnyddio i gludo CO2 i'w storio mewn meysydd nwy tanddwr.

2.25 Melin Bapur Shotton - Mae'r Datblygiad hwn o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cynnwys peiriant gwres a phŵer cyfunedig i ddarparu pŵer i ailddatblygiad ac estyniad Melin Bapur Shotton (a gafodd ganiatâd cynllunio gan CSFf ar 26/10/22). Cafwyd caniatâd cynllunio gan Lywodraeth Cymru ar 18/04/25.

2.26 Hen Orsaf Bŵer Cei Connah - datblygiad ynni carbon isel arfaethedig i'w ystyried gan yr Arolygiaeth Gynllunio - ar hyn o bryd ar y cam ymgynghori Barn Gwmpasu.

**Ffosffadau**

2.27 Mae rhan o'r Sir o fewn dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Fel rhan o gefnogi'r Archwiliad a chefnogi i fabwysiadu'r CDLI, mae Cynghorau Wrecsam a'r Fflint wedi llunio Strategaeth Lleihau Ffosfforws yn Nalgylch Afon Dyfrdwy. Yn ystod y 12 mis yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun mae gwaith sylweddol wedi cael ei gyflawni rhwng y Cyngor, ei ymgynghorwyr, CNC a Dŵr Cymru i symud ymlaen gyda mesurau lliniaru posibl o ran ffosffadau a hefyd o ran datblygu adolygiadau trwydded ar gyfer 3 safle gwaith trin dŵr gwastraff. Roedd diffyg mesurau lliniaru hysbys mewn perthynas â gollyngiadau posibl wedi cadw'r ddarpariaeth o 4 dyraniad tai gyda chyfanswm o 550 uned yn ôl.

2.28 Yn Hydref 2023, yn dilyn gwaith rhwng CNC a Dŵr Cymru, cyhoeddwyd trwyddedau diwygiedig gan CNC. Cyflwynwyd yr Wyddgrug (CM00031001) ar 09/08/23, Bwcle (CM00081001) ar 10/08/23 a'r Hôb (CM0075801) ar 28/09/23. Mae Dŵr Cymru wedi sefydlu fod perfformiad y safle gwaith trin dŵr gwastraff o fewn cyfyngiadau rhyddhau ffosffad ac mae hyn yn rhoi capasiti neu le ar gyfer twf o fewn y CDLI i'w ddarparu heb niweidio'r ACA. Bydd angen ystyried safleoedd ar hap ar sail bob achos neu sail 'busnes fel arfer', o ran a oedd digon o le yn parhau i fodoli.

ffosffad i'r system afonydd heb achosi niwed i ACA sy'n methu. Mae CNC a Dŵr Cymru yn gwneud mwy o ymchwil ar hyn o bryd ynghylch pam fod y Ddyfrdwy isaf yn methu ac a oes posib cael datblygiad pellach heb niweidio'r ACA, ond bydd hyn yn cymryd nifer o fisoedd. Mae PEDW wedi amlinellu eu hagwedd ofalus trwy ddiystyru apeliadau mewn perthynas ag annedd newydd yn Mynydd Isa a safle sipsiwn a theithwyr bychan yn Little Mountain, Bwcle. Nes bod y sefyllfa yn cael ei chadarnhau wrth symud ymlaen bydd hyn o bosib yn oedi mwy o safleoedd ar hap o fewn y dalgylch.

2.30 Ar y cyd â'r gwaith hwn, mae'r Cyngor hefyd wedi mynychu cyfarfodydd cynnar o Fwrdd Rheoli Maethynnau Dalgylch Afon Dyfrdwy. Mae Cyngor Wrecsam wedi arwain wrth sefydlu a gweinyddu'r Bwrdd. Cefnogir y Bwrdd gan Grŵp Ymgynghori Technegol gan ystyried sefydlu grŵp budd-ddeiliaid ehangach. Mae'r adolygiadau trwydded wedi rhyddhau y pwysau uniongyrchol ar y Bwrdd, o ran hwyluso twf CDLl, ond bydd yn rhaid i'r Bwrdd barhau i weithio tuag at ddull amlddisgyblaeth i ddelio â ffosffadau yn yr hirdymor, ac i wella ansawdd yr afon yn fwy cyffredinol. Mae Aelodau'r Bwrdd wedi cytuno ar Gynllun Rheoli Maeth ACA Dalgylch Afon Dyfrdwy (ffosfforws).

**Asesiad o'r Farchnad Dai Leol**

2. 31 Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gael Dealltwriaeth gynhwysfawr o'r farchnad dai leol a thystiolaeth gadarn i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch darpariaeth dai y dyfodol o ran tai marchnad a thai fforddiadwy, felly mae PPW12 a TAN2 angen cynhyrchu Asesiad o'r Farchnad Dai Leol fel rhan o'r dystiolaeth i gefnogi'r CDLl. Yn 2015 bu i Gyngor Sir y Fflint gomisiynu ymgynghorwyr annibynnol ARC4 i gwblhau'r LHMA i'r Sir a ddiweddarwyd yn 2018 a 2020 i hwyluso wrth baratoi ac archwilio'r CDLl. Bu i'r asesiad strategol lefel uchel o angen am dai fforddiadwy ledled y sir ganfod y canlynol:

- Diffyg blynyddol o 238 o dai fforddiadwy dros gyfnod o bum mlynedd y LHMA;
- Mae angen i dros 57% o dai fforddiadwy fod yn eiddo 1 neu 2 ystafell wely;
- Y rhaniad deiliadaeth sydd ei angen yw 30% rhent cymdeithasol, 30% rhent canolradd a 40% perchnogaeth cartref cost isel.

2.32 Mae CDLl Sir y Fflint yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflawni 7,870 o gartrefi dros gyfnod y cynllun (2015-2030) i fodloni'r angen ar gyfer 6,950 o anheddau. O'r unedau hyn bydd 2,265 yn dai fforddiadwy. Gosodwyd y targed hwn ar gyfer tai fforddiadwy gan ddefnyddio'r dystiolaeth a nodwyd yn y LHMA a'r astudiaeth hyfywedd wrth baratoi'r CDLl a'r broses archwilio. Roedd yr Asesiad o'r Farchnad Dai yn dangos fod Sir y Fflint angen 1,190 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol (238 y flwyddyn) dros gyfnod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2018-2023) er mwyn bodloni'r angen presennol a'r ôl-groniad mewn perthynas â thai fforddiadwy ar y pryd. Y targed o fewn y CDLl yw darparu 2,265 o dai fforddiadwy dros gyfnod y cynllun (2015-2030), mae'r targed hwn yn bodloni'r angen a nodwyd o fewn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol dros ei

gyfnod o bum mlynedd ac hefyd yn darparu ar gyfer angen ychwanegol yn y tymor hir dros gyfnod llawn y CDLI. Nid yw datblygu tai fforddiadwy yn Sir y Fflint yn gyfyngedig i'r targed hwn, ac mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu datblygiad tai fforddiadwy ychwanegol sy'n uwch na'r targed hwn.

2.33 Ar 18 Mawrth 2025 cymeradwywyd LHMA newydd ar gyfer Sir y Fflint, felly mae'n bwysig cyfeirio at y canfyddiadau o fewn y LHMA diweddaraf (2025) wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio a pharatoi AMB dilynol. Yn 2022 bu i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau newydd ar baratoi LHMA, gan gynnwys y cyfnod maent yn rhagweld angen ar gyfer tai. Mae'r LHMA newydd ar gyfer 2023 i 2038. Mae'r angen o rai tai fforddiadwy a nodwyd yn yr LHMA wedi ei rannu'n dair rhan, pum mlynedd gyntaf y LHMA, deg mlynedd ac yna'r 15 mlynedd llawn. Mae canolbwynt y LHMA ar y bum mlynedd gyntaf gan ei bod yn anodd rhagweld yr angen a chyflenwad tai fforddiadwy yn gywir y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Canfyddiadau'r LHMA 2025 yw bod angen 379 yn ychwanegol o dai fforddiadwy bob blwyddyn dros y bum mlynedd gyntaf. Mae hyn wedi ei rannu yn 118 cymdeithasol (30%), 161 (40%) Rhent Canolradd a 102 (30%) LCHO. Felly bydd AMR3 (Ebrill 2025 i Fawrth 2026) yn edrych ar y rhaniad deiliadaeth o dai fforddiadwy yn seiliedig ar yr LHMA diweddaraf. Ni fydd targed tai fforddiadwy y cynllun yn newid gan nad oes unrhyw sail polisi i wneud hyn.

## 3 Dangosyddion Craidd / Allweddol

### Cyflwyniad

3.1 Mae nifer o ddangosyddion craidd yn yr adran hon o'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ymwneud â darpariaeth tai. Cyflawnwyd gwaith adolygu safle fel rhan o'r ymarfer monitro tir ar gyfer tai blynyddol o Ebrill 2025. Paratowyd dwy amserlen yn ymwneud â safleoedd mawr (10 neu fwy o unedau) – un yn dangos datganiad sefyllfa a sylwadau ar bob safle mawr (Atodiad A) a'r llall yn dangos rhagolygon cwblhau bob safle (Atodiad B). Cafod yr amserlenni eu rhannu â'r Grŵp Budd-ddeiliaid ar gyfer adborth, ond roedd y gyfradd ymateb yn wael (Atodiad C), gyda dim ond ychydig bach o ymatebion ac un ymateb o sylwedd a oedd gan adeiladwr tai nad yw'n weithredol yn y sir ar hyn o bryd a heb unrhyw ran yn safleoedd dyranedig y CDLl. Ni ystyriodd y Cyngor fod unrhyw sail ar gyfer cynnal cyfarfod o'r Grŵp Budd-ddeiliaid. Cysylltwyd â nifer o adeiladwyr tai ar wahân a chyn yr ymgynghoriad i gasglu gwybodaeth am eu hamserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau bob safle. Mae adeiladwyr tai sydd ynghlwm safleoedd ymrwymedig neu safleoedd dyranedig, wedi cael y cyfle i ddarparu adborth ar ffigyrau'r Cyngor ac felly, tybir eu bod yn gyfforddus â nhw.

3.2 Mae'r camau canlynol, o'r Llyfryn Datblygu Cynlluniau, wedi'u defnyddio trwy gydol y bennod hon.

| | |
|---|---|
| | Parhau i fonitro (os yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n effeithiol) |
| | Angen hyfforddiant ar gyfer y Swyddogion / Aelodau (os nad yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen hyfforddiant pellach) |
| | Angen canllawiau cynllunio atodol pellach (os nad yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen canllawiau pellach) |
| | Angen ymchwiliad / ymchwil pellach |
| | Angen adolygiad polisi (os nad yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu a'u bod yn methu â chyflawni'r hyn a fwriadwyd) |
| | Angen adolygiad cynllun (os nad yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nad yw strategaeth y cynllun yn cael ei chyflawni, gallai hyn sbarduno adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad statudol bob 4 mlynedd). |

## Dangosyddion sy'n ofynnol gan Ddeddfwriaeth

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI2 Nifer y marchnadoedd ychwanegol net a thai fforddiadwy** | | | | | | | | |
| SO11 | STR1<br>STR11<br>[HN1]<br>[HN3] | STR1<br>STR11<br>[HN1]<br>[HN3] | Cyfanswm cyfradd adeiladu flynyddol o 463 y flwyddyn / targed tai fforddiadwy o 151 uned y flwyddyn | Cyflenwad yn is na chyfradd / targed adeiladu blynyddol y Cynllun am o leiaf dwy flynedd yn olynol | PCC11<br>CDLl Rh. 37<br>I benderfynu a yw datblygiadau tai a gwblhawyd yn unol â'r Cynllun. | CSFf / Datblygwyr / Darparwyr Seilwaith | Ymarfer Monitro Tir ar gyfer Tai Blynyddol | Parhau i fonitro |

Perfformiad Polisi:
Mae cyfanswm y rhai sydd wedi'u cwblhau ar gyfer y cyfnod ers y cyfnod 2019/20 (sy'n ffurfio sail ar gyfer y Cynllun mabwysiedig) wedi'u nodi yn y tabl isod.

| Blwyddyn | Cwblhawyd | Gofyniad Adeiladu Blynyddol | Perfformiad / Perfformiad Cronnus |
|---|---|---|---|
| 2015-2020 | 2609 | 463x5=2315 | + 294 |
| 20/21 | 582 | 463 | + 119 (+413) |
| 21/22 | 400 | 463 | - 63 (+350) |
| 22/23 | 425 | 463 | - 38 (+312) |
| 23/24 | 322 | 463 | - 141 (+171) |
| 24/25 | 378 | 463 | - 85 (+86) |

Dros y pum mlynedd ddiwethaf mae'r cyfanswm a gwblhawyd wedi arafu o'i gymharu â'r gyfradd adeiladu flynyddol o 463 uned. Fodd bynnag, o ran y nifer cronnus, mae'r Cynllun 86 o unedau uwchben cyfradd adeiladu flynyddol cronnus y Cynllun. O'i gymharu â' gofyniad cyfartalog blynyddol o 463 uned y flwyddyn, mae'r Cynllun wedi darparu cyfartaledd o 472 uned y flwyddyn, sydd ychydig ar y blaen i'r hyn mae'r Cynllun yn ceisio ei ddarparu. Cafodd y lefelau cyflawni ym mlynyddoedd cynnar y Cynllun eu hybu gan y datblygiadau tai hapfasnachol a ddaeth ymlaen ar gefn mesur cyflenwad tir ar gyfer tai pum mlynedd TAN1. Wrth i ddarpariaeth y safleoedd hynny leihau, mae oedi wedi bod mewn safleoedd dyranedig yn dod ymlaen ac mae hynny wedi arwain at arafu pethau.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae safle Porth y Gogledd wedi golygu creu plotiau sy'n barod i'w datblygu a darpariaeth isadeiledd sylweddol, ond mae datblygiad Countryside Homes a ddatblygwyd dros gyfnod o 3 blynedd 2020/21 - 2022/23 wedi creu hyder yn y safle fel lleoliad preswyl. Mae gan holl rannau preswyl ym Mhorth y Gogledd ganiatâd cynllunio. Ar ddyddiad sylfaenol yr AMB hwn, mae Clwyd Alyn wedi cwblhau 100 o gartrefi fforddiadwy ar eu safle yn GAR002G. Roedd Anwyl, Bellway Homes, Keepmoat, Ashberry a Persimmon oll yn codi anheddau. Mae safle strategol Porth y Gogledd yn destun dangosydd monitro ar wahân (MI16) sy'n dangos cyfanswm o 232 o gartrefi wedi'u cwblhau yn 2024/25, sy'n rhagori ar y taflwybr a fabwysiadwyd yn y CDLl ar gyfer y safle hwn o 100 uned ar gyfer 2025.<br><br>Mae'r Cynllun yn gwneud 11 o safleoedd tai heb fod yn strategol ac mae'r rhain yn destun dangosydd monitro ar wahân MI5. O'r 11 safle, mae tri wedi'u cwblhau (HN1.2, HN1.5 a HN1.11), mae pedwar yn cael ei adeiladu (HN1.1, HN1.6 and HN1.10) ac mae un wedi cofnodi unedau wedi'u cwblhau ar gyfer y cyfnod hwn (HN1.3); mae gan un ganiatâd cynllunio llawn (HN1.9), un newydd gael penderfyniad gan y Pwyllgor Cynllunio (HN1.8) ac mae gan ddau geisiadau cynllunio dan ystyriaeth (HN1.4 a HN1.7). Felly mae yna safleoedd dyranedig yn barod i ddechrau darparu cartrefi. Darperir mwy o sylwadau yn MI5.<br><br>Sylwer – caiff tai fforddiadwy a gwblheir eu monitro dan MI9. | | | | | | | | |

## Dangosyddion Allweddol sy'n berthnasol i'r holl Gynlluniau

| Amcan y CDLI | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI1 Lefel blynyddol tai wedi'u cwblhau** | | | | | | | | |
| SO11 | STR1<br>STR11<br>[HN1] | STR1<br>STR11 | AABR fel nodwyd yn y taflwybr tai a fabwysiadwyd | Cyflenwad o dan AABR am o leiaf dwy flynedd yn olynol. | PCC11<br>Llawlyfr CDLI Rhifyn 3 (Tabl 29) | CSFf / Datblygwyr / Darparwyr Seilwaith | Ymarfer Monitro Tir ar gyfer Tai Blynyddol | Parhau i fonitro |

Perfformiad Polisi:
Roedd Archwiliad o'r CDLl yn canolbwyntio ar y sefyllfa dai yn Ebrill 2020 ac mae hyn yn ffurfio'r sail ar gyfer taflwybr a thaenlen tai. Mae'r taflwybr a fabwysiadwyd (Atodiad D) a'r graff (Atodiad E) yn dangos uchafbwynt ar gyfer unedau wedi'u cwblhau ar gyfer y flwyddyn 2024-2025 gyda'r niferoedd a gwblheir yn arafu'n raddol yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun.

| Blwyddyn | AABR (Cynllun Mabwysiedig) | Gwir gyflawniadau | Dros ben / Diffyg |
|---|---|---|---|
| 2021 | 470 | 582 | +112 |
| 2022 | 485 | 400 | -85 |
| 2023 | 512 | 425 | -87 |
| 2024 | 580 | 322 | -258 |
| 2025 | 508 | 378 | -130 |
| Cyfanswm Cronnus | 2555 | 2107 | -130 (-17.5%) |

Mae'r taflwybr tai (Atodiad F) a'r graff (Atodiad G) diwygiedig yn dangos uchafbwynt cwblhau yn y flwyddyn 2026/27. Mae'r uchafbwynt hwn yn y ddarpariaeth yn ganlyniad i oedi yn bennaf oherwydd:

- Darpariaeth banc tir presennol o safleoedd 'hapfasnachol' ar gefn TAN1 wedi arafu yn y blynyddoedd diwethaf
- Tirfeddianwyr / datblygwyd rhai dyraniadau yn aros cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio tan i Adroddiad yr Arolygydd gael ei dderbyn a mabwysiadu'r Cynllun
- Y broses o ganfod datblygwr a ffefrir ar rai o'r dyraniadau yn hirach na'r disgwyl
- Graddfa'r ddarpariaeth isadeiledd ym Mhorth y Gogledd a chreu plotiau sy'n barod i'w datblygu

- Y dirywiad economaidd, yn dilyn effeithiau COVID, o ran costau ac argaeledd deunyddiau a llafur, cyfraddau llog, cyfraddau morgais a chostau byw cyffredinol
- Oedi ar bedwar dyraniad (HN1.1, HN1.6, HN1.9 a HN1.10) gyda chyfanswm o 550 uned, o ganlyniad i faterion ffosffadau

O ran y mater ffosffad, er bod gwaith cychwynnol wedi'i gyflawni i ganfod mesurau lliniaru drwy wlyptiroedd ger y tri safle gwaith trin dŵr gwastraff, cafodd hyn ei ddisodli yn hydref 2023 trwy gyflwyno trwyddedau diwygiedig ar gyfer y tri safle gwaith trin dŵr gwastraff, yn dilyn cydweithio gyda Dŵr Cymru. Ar y sail bod y tri safle gwaith trin dŵr gwastraff yn gweithredu o fewn y cyfyngiadau a nodir yn y trwyddedau diwygiedig, o ganlyniad i berfformiad y dechnoleg tynnu ffosffad yn y safleoedd, creodd hyn le, er mwyn i'r twf yn deillio o'r pedwar dyraniad gael ei letya heb niweidio ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid o ganlyniad i ollyngiadau. Yn dilyn hynny fe gafodd y pedwar safle ganiatâd cynllunio; mae tai yn cael eu codi ar dri safle ac mae gwaith cychwynnol wedi dechrau ar y safle arall.

Felly mae uchafbwynt rhagolygon ar gyfer unedau wedi'u cwblhau wedi symud yn ôl tair blynedd am y rhesymau a nodir uchod, ac yn fwy amlwg lle mae safleoedd dyranedig yn cael eu cyflwyno ar fwy neu lai yr un pryd. Mae'r taflwybr diwygiedig (Atodlen F) yn dangos bod y rhagolygon ar hyn o bryd yn nodi gorgyflenwad bach o 47 uned (neu 0.7%) ar ddiwedd cyfnod y Cynllun mewn perthynas â chyrraedd ffigwr tai gofynnol y Cynllun o 6,950 uned. Felly mae hyn yn cyd-fynd yn fras gyda strategaeth, amcanion a nodau'r cynllun ac yn cael ei ystyried yn dderbyniol.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI3 Dosbarthiad Gofodol o Dai** | | | | | | | | |
| SO12 | STR2 | STR2 | Dosbarthiad Gofodol i haenau anheddiad fel nodwyd yn yr eglurhad i STR2 | Amrywiad o +/- 10% o'r dosbarthiad a ddisgwylir am o leiaf dwy flynedd yn olynol | PCC11<br>Mae Strategaeth y Cynllun yn gosod dosraniad o dwf i bob haen yn yr hierarchaeth anheddiad o ran cwblhau, ymrwymiadau a dyraniadau. | CSFf / Datblygwyr / Darparwyr Seilwaith | Ymarfer Monitro Tir ar gyfer Tai Blynyddol | Parhau i fonitro |

Perfformiad Polisi:
Mae Polisi STR2 Lleoliad Datblygiad yn cael ei gefnogi gan ddadansoddiad o'r lefel twf ar draws y 5 haen o aneddiadau o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau newydd. Y dadansoddiad oedd 47% Haen 1 Prif Ganolfannau Gwasanaeth, 35% Haen 2 Canolfannau Gwasanaeth Lleol, 15% Haen 3 Aneddiadau Cynaliadwy, 2% Haen 4 Pentrefi Diffiniedig a 1% Haen 5 Pentrefi heb eu Diffinio. Mae'r tabl isod yn dangos yr unedau wedi'u cwblhau ar gyfer y cyfnod 2015-2020 ac yna ar gyfer pob blwyddyn ddilynol.

| Blwyddyn | Haen 1 | | Haen 2 | | Haen 3 | | Haen 4 | | Haen 5 | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nod y Polisi | 47% | | 35% | | 15% | | 2% | | 1% | | |
| Cwblhawyd 2015-2020 | 1489 | 57% | 579 | 22% | 433 | 17% | 67 | 3% | 41 | 2% | 2609 |
| Cwblhawyd 2021 | 268 | 46% | 221 | 38% | 87 | 15% | 4 | 1% | 2 | 0% | 582 |
| Cronnus 2015-2021 | 1757 | 55% | 800 | 25% | 520 | 16% | 71 | 2% | 43 | 1% | 3191 |
| Cwblhawyd 2022 | 135 | 34% | 170 | 43% | 86 | 22% | 7 | 2% | 2 | 1% | 400 |
| Cronnus 2015-2022 | 1892 | 53% | 970 | 27% | 606 | 17% | 78 | 2% | 45 | 1% | 3591 |
| Cwblhawyd 2023 | 199 | 47% | 65 | 15% | 150 | 35% | 6 | 1% | 5 | 1% | 425 |
| Cronnus 2015-2023 | 2091 | 52% | 1035 | 26% | 756 | 19% | 84 | 2% | 50 | 1% | 4016 |
| Cwblhawyd 2024 | 131 | 41% | 106 | 33% | 63 | 20% | 16 | 5% | 6 | 2% | 322 |
| Cronnus 2015-2024 | 2222 | 51% | 1141 | 26% | 819 | 19% | 100 | 2% | 56 | 1% | 4338 |
| Cwblhawyd 2025 | 72 | 19% | 271 | 72% | 30 | 8% | 2 | 1% | 3 | 1% | 378 |
| Cronnus 2015-2025 | 2294 | 49% | 1412 | 30% | 849 | 18% | 102 | 2% | 59 | 1% | 4716 |

Yng nghyd-destun sbardun o +/- 10% gellir crynhoi'r data fel a ganlyn:

| Hierarchaeth Aneddiadau | Targed | Sbardun +/- 10% | O fewn yr amrywiad? | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2025 | | Cronnus | |
| Haen 1 | 47% | 42.3% - 51.7% | 19% | Nac ydi | 49% | Ydi |
| Haen 2 | 35% | 31.5% - 38.5% | 72% | Nac ydi | 30% | Nac ydi |
| Haen 3 | 15% | 13.5% - 16.5% | 8% | Nac ydi | 18% | Nac ydi |
| Haen 4 | 2% | 1.8% - 2.2% | 1% | Nac ydi | 2% | Ydi |
| Haen 5 | 1% | 0.9% - 1.1% | 1% | Ydi | 1% | Ydi |

Mae nod y polisi yn adlewyrchu sut fyddai dosbarthiad gofodol ar ôl cwblhau yn edrych ar ddiwedd cyfnod y Cynllun, oherwydd erbyn hynny, dylai’r holl ffynonellau cyflenwi fel y nodir yn y tablau ynghlwm polisi STR2 fod wedi’u cyflawni. Mae’r tabl uchod yn dangos nod y polisi fel y nodir ym mholisi STR2 ac yn dangos dosbarthiad yr unedau wedi’u cwblhau yn ystod y cyfnod 2015 i 2020 fel cyfanswm. Ar gyfer pob blwyddyn ddilynol, cyflwynir yr unedau wedi’u cwblhau fel ffigwr ‘yn ystod y flwyddyn’ ac fel ffigwr cronnus ers 2015 gan ddangos nifer yr unedau a chanran. Nid yw’n annisgwyl gweld amrywiadau mewn darpariaeth ofodol o’r unedau wedi’u cwblhau o un flwyddyn i’r llall, yn arbennig gan nad yw’r dyraniadau heb fod yn strategol wedi darparu unedau wedi’u cwblhau eto. Dylai monitro parhaus o’r dosbarthiad cronnus blynyddol, ganfod os yw dosbarthiad yn symud yn agosach at y nod polisi, wrth i gyfnod y Cynllun fynd ymlaen. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw beth i ddynodi nad yw’r dosbarthiad gofodol yn alinio gyda nod y polisi. Mae’r gyfradd gyflawni uchel ar ddyraniad strategol Porth y Gogledd wedi sgiwio’r ffigyrau ar gyfer datblygu o fewn aneddiadau Haen 2, ond nid yw ond 1.5% yn is na’r ffigwr amrywiant cronnus isaf ac felly ni ystyrir hyn yn broblem ar hyn o bryd. Unwaith mae’r safleoedd dyranedig, sydd bennaf o fewn Haen 1, yn dechrau darparu bydd y dosbarthiad hwn yn ymddangos yn fwy cytbwys gan gyd-fynd efo’r targed.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i’w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a’r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI4 Cyfanswm cronnus y tai sydd wedi’u cwblhau, wedi’u monitro yn ôl y gyfradd gwblhau gronnus ddisgwyliedig** | | | | | | | | |
| SO11 | STR1 | STR1<br>HN1<br>HN3 | Nifer cronnus y tai a gwblhawyd fel y nodwyd yn y taflwybr tai a fabwysiadwyd | Nifer cronnus y tai a gwblhawyd yn is na’r gyfradd gronnus wedi’u cwblhau a nodwyd yn y taflwybr | I sicrhau bod y tai yn cael eu darparu<br><br>PCC11<br><br>Llawlyfr CDLl Rhifyn 3 (Tabl 29) | CSFf / Datblygwyr / Darparwyr Seilwaith | Ymarfer Monitro Tir ar gyfer Tai Blynyddol | Parhau i fonitro |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mabwysiedig am o leiaf dwy yn olynol. | | | | |

Perfformiad Polisi:

Mae'r tabl isod yn cymharu ffigyrau cronnus AABR o'r Cynllun mabwysiedig yn erbyn y gwir gyfradd gronnus o unedau wedi'u cwblhau. Yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn dyddiad sylfaenol 2020 yn y Cynllun mabwysiedig, roedd gwir nifer yr unedau a gwblhawyd 112 uned yn fwy na'r ffigwr AABR. Mae cynnwys ffigyrau 2022 wedi arwain at orgyflenwad cronnus o 27 uned neu +2.7%. Mae cynnwys ffigyrau 2023 wedi arwain at ddiffyg cronnus o 60 uned neu -4.3%. Mae cynnwys ffigyrau 2024 wedi arwain at ddiffyg cronnus o 318 uned neu -18.4%. Mae cwblhau 378 uned yn 2025 wedi arwain at ddiffyg cronnus o 448 uned neu 21.3%.

| Blwyddyn | Gwir gyflawniadau yn ystod y flwyddyn | Gwir gyflawniadau cronnus | Cyflawniadau AABR yn ystod y flwyddyn | Cyflawniadau cronnus AABR | Dros Ben / Diffyg Cronnus | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2021 | 582 | 582 | 470 | Amh. | +112 | +23.8% |
| 2022 | 400 | 982 | 485 | 955 | +27 | +2.7% |
| 2023 | 425 | 1407 | 512 | 1467 | -60 | -4.3% |
| 2024 | 322 | 1729 | 580 | 2047 | -318 | -18.4% |
| 2025 | 378 | 2107 | 508 | 2555 | -448 | -21.3% |

Mae'n amlwg fod tuedd o ddiffyg dros y cyfnod ers dyddiad sylfaenol y ffigyrau tai yn y CDLl a fabwysiadwyd h.y. 2020. Fodd bynnag, dyma'r ail AMB sydd wedi'i gyhoeddi, a dylid pwysleisio bod y diffyg cronnus ar gyfer 2023 yn ddibwys, a bod gorgyflenwad bach yn 2021 a 2022. Nodir bod 2024 a 2025 wedi gweld mwy o ddiffyg cronnus sylweddol ond darperir sylwadau mewn man arall yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â nifer o ffactorau gan gynnwys:

- Oedi ar y pedwar safle dyranedig o ganlyniad i'r broblem ffosffad sydd bellach wedi'i ddatrys
- Oedi o ran cyflwyno dau ddyraniad mawr i'r cam cais cynllunio
- Gwaith paratoi safle ac isadeiledd sylweddol ym Mhorth y Gogledd
- Dirywiad economaidd a chynnydd mewn cyfraddau llog a chostau deunyddiau a llafur

Fodd bynnag, mae nifer o negeseuon cadarnhaol am y safleoedd dyranedig sy'n dechrau darparu unedau. Mae nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- Mwyafrif y safleoedd dyranedig â chaniatâd cynllunio neu benderfyniad Pwyllgor i gymeradwyo yn destun a106
- Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer y ddau safle dyranedig sy'n weddill yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Cynllunio fis Hydref 2025
- Edwards Homes ar safle Highmere Drive, Cei Connah gyda 24 uned wedi'u cwblhau ar gyfer 2024/25
- Lovell ar safle Cae Isa, Pentre Cythrel gyda 28 uned yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd ar gyfer 2024/25
- Mae Anwyl wedi dechrau gwaith ar safle Ffordd Dinbych, yr Wyddgrug
- Mae Castle Green Homes wedi dechrau gwaith ar Well Street, Bwcle
- Mae Castle Green Homes wedi dechrau gwaith cychwynnol ar Ffordd Wrecsam, Abermorddu
- Nifer o ddatblygwyr ar safle Porth y Gogledd a rhagorir ar y ffigwr cyflawni disgwyliedig blynyddol ar gyfer 2024/25.
- Cynnydd o ran darparu nifer o safleoedd ymrwymedig mawr

Rydym ni'n amlwg 2-3 blynedd ar ei hôl hi o ran yr 'uchafbwynt' disgwyliedig yn y cyflawniadau o gymharu â'r rhagolwg presennol ar gyfer safleoedd wedi'u cwblhau. Felly bydd y ddarpariaeth dai wedi'i chrynhoi i bum mlynedd olaf y Cynllun o gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn y taflwybr mabwysiedig.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI5 Dyraniadau Tai – nifer yr anheddau a ddarparwyd** | | | | | | | | |
| SO11<br>SO12 | STR11 | HN1 | Ffigwr datblygiadau wedi'u cwblhau yn flynyddol yn unol â'r Taflwybr Tai a fabwysiadwyd | Nifer a gwblhawyd bob blwyddyn yn gostwng yn is na'r lefelau yn y taflwybr a fabwysiadwyd am o leiaf dwy flynedd yn olynol | Mae dyraniadau tai manwl y Cynllun yn rhan bwysig o ddarpariaeth dai'r Cynllun. | CSFf / Datblygwyr / Darparwyr Seilwaith? | Ymarfer Monitro Tir ar gyfer Tai Blynyddol | Parhau i fonitro |
| Perfformiad Polisi: | | | | | | | | |

Mae'r Cynllun yn nodi un dyraniad tai strategol ac 11 dyraniad tai heb fod yn strategol. Mae dadansoddiad mwy manwl o'r safleoedd dyranedig yn MI15 a MI16 gyda sylwadau ar bob safle. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o berfformiad ar holl safleoedd dyranedig.

| **Blwyddyn** | **Cyflawniadau Disgwyliedig yr AABR Safleoedd a Ddyrannwyd** | **Gwir gyflawniadau Safleoedd a Ddyrannwyd** | **Dros ben / Diffyg** |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 206 | 222 | +16 |
| 2021/22 | 195 | 205 | +10 |
| 2022/23 | 278 | 36 | -242 |
| 2023/24 | 445 | 95 | -350 |
| 2024/25 | 407 | 256 | -151 |

Wrth gymharu'r cyflawniadau a ragwelir ar gyfer dyraniadau yn y taflwybr mabwysiedig yn erbyn y gwir gyflawniadau, mae'n amlwg fod cyferbyniad nodedig rhwng y blynyddoedd 2020/21 a 2021/22 pan oedd y cyflawniadau ychydig ar y blaen a'r blynyddoedd 2022/23 a 2023/24 pan oedd cyflawniadau y tu ôl i'r hyn a ragwelwyd. Mae sylwadau hefyd wedi'u darparu dan ddangosyddion monitro eraill yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol o ran y rhesymau pam bod hyn wedi digwydd a sut mae'r dyraniadau yn symud yn eu blaenau i ddechrau cyflawni. Er bod 2024/25 yn dal yn dangos diffyg yn yr AABR, hon yw'r gyfradd gyflawni uchaf hyd yma ar safleoedd dyranedig. Rhagwelir y bydd cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth ar draws y safleoedd dyranedig flwyddyn nesaf gan y bydd gwaith wedi dechrau ar y safleoedd canlynol:

- Well Street, Bwcle (HN1.1)
- Highmere Drive, Cei Connah (HN1.3)
- Ffordd Dinbych / Ffordd y Waun, yr Wyddgrug (HN1.6)
- Cae Isa, Pentre Cythrel (HN1.10)

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI6 Porth y Gogledd – nifer yr anheddau a ddarparwyd** | | | | | | | | |
| SO11<br>SO12 | STR3 | STR3<br>HN1 | Nifer a gwblhawyd bob blwyddyn yn unol â'r Taflwybr Tai a fabwysiadwyd | Nifer a gwblhawyd bob blwyddyn yn gostwng yn is na'r lefelau yn y taflwybr a fabwysiadwyd am o leiaf dwy flynedd yn olynol | Mae Safleoedd Strategol Porth y Gogledd yn ffurfio rhan bwysig o ddarpariaeth tai'r Cynllun a strategaeth y Cynllun i ddarparu safleoedd strategol defnydd cymysg | CSFf / Datblygwyr / Darparwyr Seilwaith? | Ymarfer Monitro Tir ar gyfer Tai Blynyddol | Parhau i fonitro |

Perfformiad Polisi:

Mae Porth y Gogledd yn safle defnydd cymysg strategol mawr gyda chyflogaeth, tai, cyfleusterau cymunedol a manwerthu gyda rhwydwaith isadeiledd gwyrdd. Mae'r safle wedi ei rannu i ddau gyda safle 'Airfields' y gogledd a safle 'Corus' y de, gyda'r ddau yn darparu datblygiad tai a chyflogaeth. Mae'r tabl yn dangos crynodeb o'r gwir gyflawniadau yn erbyn y cyflawniadau a ragwelir ar gyfer y safle cyfan ac ar gyfer pob cam neu blot:

| Safle / Darpariaeth | Unedau | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 30+ | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Taflwybr Mabwysiedig | 1325 | 100 | 120 | 150 | 150 | 100 | 100 | 120 | 120 | 120 | 105 | 140 | |
| **Porth y Gogledd** | **Gwir gyflawniadau** | | | | | | **Cyflawniadau a ragwelir** | | | | | | |
| GAR002A Countryside | 283 | 112 | 135 | 36 | | | | | | | | | Safle wedi'i gwblhau |
| GAR002B Anwyl | 112 | | | | 38 | 23 | 30 | 21 | | | | | Safle yn cael ei adeiladu |
| GAR002C Bellway | 185 | | | | 40 | 35 | 40 | 40 | 30 | | | | Safle yn cael ei adeiladu |
| GAR002D Anwyl | 71 | | | | | | 20 | 30 | 21 | | | | Safle yn cael ei adeiladu |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GAR002E Anwyl | 43 | | | | | | | | 10 | 20 | 16 | | | |
| GAR002E Bellway | 46 | | | | | | | | 20 | 23 | | | | |
| GAR002F Keepmoat | 129 | | | | 17 | 45 | | 40 | 27 | | | | | Safle yn cael ei adeiladu |
| GAR002G Clwyd Alyn | 100 | | | | | 100 | | | | | | | | Safle wedi'i gwblhau |
| GAR002H Ashberry | 200 | | | | | 11 | | 26 | 36 | 36 | 36 | 36 | 30 | Safle yn cael ei adeiladu |
| GAR002H Persimmon | 200 | | | | | 18 | | 26 | 36 | 36 | 36 | 36 | 30 | Safle yn cael ei adeiladu |
| GAR002I Bellway | 54 | | | | | | | | 20 | 20 | 14 | | | |
| **Cyfanswm** | **1423*** | **112** | **135** | **36** | **95** | **232** | | **182** | **240** | **186** | **102** | **72** | **60** | |
| **Dros ben / Diffyg** | | **12** | **15** | **-114** | **-55** | **132** | | **82** | **120** | **66** | **-18** | **-33** | **-80** | |

Mae cyfanswm o bum datblygwr yn weithredol ar y safle, sef Anwyl, Bellway, Keepmoat, Ashberry a Persimmon. Mae Clwyd Alyn (Castle Green Homes) wedi cwblhau 100 o unedau tai fforddiadwy ar eu safle ar gyfer 2024/25. Mae datblygiad ar safle Porth y Gogledd wedi cyflymu ar gyfer 2024/25 gyda 232 o anheddau wedi'u cwblhau. Mae 224 o unedau eraill yn cael eu hadeiladu ar draws y rhan fwyaf o'r camau a nodir uchod, felly rhagwelir y bydd cyfraddau cyflawni uwch ar gyfer 2025/26, 2026/27 a 2027/28 na'r taflwybr CDLl mabwysiedig a adroddwyd yn wreiddiol. Yn dilyn yr anterth hwn yn y ddarpariaeth disgwylir wedyn i'r cyfraddau cyflawni arafu tuag at ddiwedd oes y Cynllun, gyda nifer llai o unedau yn cael eu darparu ar ôl2030 ac i'r dyfodol o gymharu â'r taflwybr gwreiddiol. Mae'r ffigyrau cwblhau ar gyfer 2024/25 a nifer yr unedau sy'n cael eu hadeiladu yn dangos y bydd cyflenwad cyson o unedau yn ystod blynyddoedd olaf y Cynllun, ac y bydd mwy o unedau yn cael eu darparu cyn diwedd 2030.

| Amcan y CDLl | Polisi Stratego l | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI7 Lwfans Safleoedd Bach – nifer yr anheddau a ddarparwyd** | | | | | | | | |
| SO11<br>SO12 | STR11 | STR11 | 60 o anheddau'r flwyddyn ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod sy'n weddill o'r Cynllun | Datblygiadau wedi eu cwblhau ar safleoedd bach un ai yn fwy neu'n llai na 60 annedd i bob blwyddyn am o leiaf dwy flynedd yn olynol | Sicrhau fod cyfraniad lwfans safleoedd bach i ddarpariaeth tai cyffredinol y cynllun yn cael ei gyflawni | CSFf<br>Datblygwyr | Ymarfer Monitro Tir ar gyfer Tai Blynyddol | Parhau i fonitro |

Perfformiad Polisi:

Ers y sefyllfa yn 2019/20 (a oedd yn ffurfio sail y Cynllun mabwysiedig), mae cyflawniadau safleoedd bach wedi aros yn gyson uwchben y lwfans o 60 uned y flwyddyn a nodir yn y Cynllun. Roedd cyflawniadau safleoedd bach ar gyfer 20/21 yn 92 uned, ar gyfer 21/22 roedd 69 uned, ac ar gyfer 22/23 roedd 111 uned. Nodir gostyngiad o 44 yn nifer y safleoedd bychain a gwblhawyd yn 2023/24 ond, wrth edrych ar oes gyfan y Cynllun, yn y tabl isod, mae yna 219 o unedau dros ben. Cyfartaledd blynyddol darpariaeth safleoedd bach yw 82 uned y flwyddyn, sy'n llawer uwch na lwfans y Cynllun.

| | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lwfans Blynyddol Safle Bach y flwyddyn | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 |
| Cyflawniadau Gwirioneddol Safle Bach y flwyddyn | 87 | 102 | 104 | 73 | 87 | 92 | 69 | 111 | 44 | 50 |
| Dros ben / Diffyg y flwyddyn | +27 | +42 | +44 | +13 | +27 | +32 | +9 | +51 | -16 | -10 |
| Dros Ben / Diffyg Cronnus | | +69 | +113 | +126 | +153 | +185 | +194 | +245 | +229 | +219 |

Mae'n amlwg o'r nifer dros ben cronnus yn y tabl uchod, bod y lwfans a ragwelir ar gyfer safleoedd bach yn llawer uwch na'r gyfradd a ragwelwyd. Mae'r Dangosydd Monitro felly wedi'i fodloni.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI8 Lwfans Safleoedd ar Hap – nifer yr anheddau a ddarparwyd** | | | | | | | | |
| SO11<br>SO12 | STR11 | STR11 | Nifer blynyddol a chronnus y tai a gwblhawyd fel y nodwyd yn y taflwybr tai a fabwysiadwyd | Nifer y tai ar hap a gwblhawyd bob blwyddyn ac yn gronnol, yn gostwng yn is na'r lefelau yn y taflwybr a fabwysiadwyd am o leiaf dwy flynedd yn olynol | Sicrhau fod cyfraniad lwfans safleoedd ar hap i ddarpariaeth tai cyffredinol y cynllun yn cael ei gyflawni | CSFf<br>Datblygwyr | Ymarfer Monitro Tir ar gyfer Tai Blynyddol | Parhau i fonitro |

Perfformiad Polisi:

Mae'r Cynllun yn nodi lwfans o 10 uned neu fwy ar gyfer cyflawniadau safleoedd ar hap 'mawr' o 60 uned y flwyddyn. Roedd darpariaeth safleoedd ar hap yn sylweddol yn ystod blynyddoedd cyntaf y Cynllun fel y nodir yn y tabl isod. Mae hyn yn dangos darpariaeth sydd llawer uwch na 60 uned y flwyddyn. Trafodwyd hyn yn yr Archwiliad CDLl a'i nodi yn y ddogfen Archwilio FCC014.

| | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lwfans blynyddol safle mawr y flwyddyn | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 |
| Cyflawniadau Gwirioneddol Safle Mawr y flwyddyn | 0 | 16 | 211 | 134 | 128 | 0 | 11 | 18 | 90 | 0 |
| Dros ben / diffyg y flwyddyn | -60 | -44 | +151 | +74 | +68 | -60 | -49 | -46 | +30 | -60 |
| Dros ben / diffyg cronnus y flwyddyn | -60 | -104 | +47 | +121 | +189 | +129 | +80 | +38 | +68 | -8 |

Mae'r dangosydd monitro hwn yn ceisio nodi cyflawniadau ar yr holl safleoedd ar hap sydd wedi cael caniatâd cynllunio ers 31/03/20 ac unrhyw gyflawniadau dilynol. Mae'n nodi safleoedd ar hap na chafodd eu cynnwys yn y rhestr o safleoedd ymrwymedig yn Atodiad 1 y CDLl mabwysiedig. Cafodd ychydig o wybodaeth ei gynnwys yn y Datganiadau Monitro Tir ar gyfer Tai anffurfiol ar gyfer 2020-21, 2021-22 a 2022-23. Mae hyn wedi'i ail-asesu a'i gyflwyno isod gyda chaniatâd cynllunio newydd wedi'i gynnwys ar gyfer astudiaeth 2024/25.

| Cyfeirnod y safle | Enw'r safle | Unedau | Wedi'u cyflawni 2021 | Wedi'u cyflawni 2022 | Wedi'u cyflawni 2023 | Wedi'u cyflawni 2024 | Wedi'u cyflawni 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safleoedd ar hap newydd a nodwyd yn Astudiaeth 2025** | | | | | | | |
| BUC230 | Princess Avenue, Bwcle | 12 | 0 | 0 | 0 | 12 | - |
| BUC223 | 80-86 Ffordd yr Wyddgrug, Bwcle | 12 | 0 | 0 | 0 | 10 | - |
| BUC231 | The Hayfield, Bwcle | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| HAW036 | Mynachdy Poor Claire, Penarlâg | 15 | 0 | 11 | 4 | - | - |
| MOL122 | Park House, Broncoed, yr Wyddgrug | 20 | 0 | 0 | 0 | 12 | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MOS013 | Ffordd Pandarus, Mostyn | 20 | 0 | 0 | 0 | 20 | - |
| PYF047 | De Rhos Road, Penyffordd | 36 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| AST082 | Clwb Cymdeithasol y Grosvenor, Jubilee Street, Shotton | 10 | 0 | 0 | 10 | - | - |
| **Safleoedd ar hap newydd a nodwyd yn Astudiaeth 2022** | | | | | | | |
| HOL105 | Hen Safle Ysbyty Lleusty, Treffynnon | 29 | - | 0 | 4 | 25 | - |
| LEE033 | Ffatri 2, Allt Pontybodkin, Coed-llai | 26 | - | 0 | 0 | 0 | 0 |
| MOL126 | Adeilad Dewi Sant, Sgwâr Daniel Owen, yr Wyddgrug | 14 | - | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Safleoedd ar hap newydd a nodwyd yn Astudiaeth 2023** | | | | | | | |
| CON134 | 315 Stryd Fawr, Cei Connah | 11 | - | - | 0 | 11 | - |
| BUC236 | Hen Orsaf Heddlu Bwcle, Ffordd Yr Wyddgrug, Bwcle | 10 | - | - | 0 | 0 | 0 |
| **Safleoedd ar hap newydd a nodwyd yn Astudiaeth 2024** | | | | | | | |
| HCAC095 | Canolfan Arddio Spectrum, Cefn Y Bedd | 30 | - | - | - | 0 | 0 |
| MOS006 | Ffordd Gorllewin Pennant, Mostyn | 64 | - | - | - | 0 | 0 |
| **Safleoedd ar hap newydd a nodwyd yn Astudiaeth 2025** | | | | | | | |
| GRO020 | Sefydliad Gronant, Ffordd Llanasa, Gronant | 14 | - | - | - | - | 0 |
| BUC251 | Precinct Way, Bwcle | 75 | - | - | - | - | 0 |
| PFD022 | Ffordd Rhewl Fawr, Penyffordd, Treffynnon | 21 | - | - | - | - | 0 |
| **Cyfanswm** | | **323** | **0** | **11** | **18** | **90** | **0** |

Mae'r dadansoddiad pellach hwn yn dangos bod safleoedd ar hap yn dal yn cael eu cyflwyno ac er bod nifer yr unedau sy'n cael eu cyflawni wedi gostwng ar ôl y cynnydd mawr a gafwyd yn 2023/24, gan fod gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar nifer o'r safleoedd hyn a safleoedd newydd yn cael eu cyflwyno bob blwyddyn rhagwelir y bydd cyfradd gyflawni safleoedd ar hap mawr yn gwella yn unol â'r lwfans blynyddol. Cyfartaledd lefel blynyddol cyflawniadau safleoedd ar hap hyd yn hyn yw 61 uned, sydd ychydig uwchben lwfans y Cynllun. Ac eithrio rhai amrywiadau mewn darpariaeth, ystyrir bod darpariaeth gyffredinol safleoedd ar hap mawr yn unol â'r lwfans a'r dangosydd monitro yn y Cynllun.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI9 Lefel y datblygiadau tai fforddiadwy a gwblhawyd yn erbyn targed tai fforddiadwy trosfwaol y Cynllun** | | | | | | | | |
| SO11 | STR11 | HN3 | Targed y tai fforddiadwy yn y Papur Cefndir Tai Fforddiadwy | Y ddarpariaeth yn gwyro oddi wrth y nifer yn y Papur Cefndir Tai Fforddiadwy am o leiaf dwy flynedd yn olynol | Sicrhau bod y Cynllun yn darparu digon o dai fforddiadwy | Gwasanaeth Cynllunio CSFf Strategaeth Dai CSFf | Ymarfer Monitro Tir ar gyfer Tai Blynyddol a Monitro'r Strategaeth Dai | Parhau i fonitro |

Perfformiad Polisi:

Mae'r Cynllun wedi gosod targed ar gyfer darparu 2,265 o anheddau fforddiadwy dros gyfnod o 15 mlynedd y Cynllun. Mae hyn yn gyfwerth â ffigwr blynyddol o 151 uned. Fodd bynnag, mewn gwirioned, mae'n annhebygol y byddai tai fforddiadwy yn cael ei ddarparu ar gyfradd unffurf gan nad yw tai yn gyffredinol yn cael eu darparu ar gyfradd unffurf, fel y dangosir yn y taflwybr.

| | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2,265 o dai fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun** | | | | | | | | | | |
| Targed Trosfwaol Tai Fforddiadwy (2,265) | 151 | 151 | 151 | 151 | 151 | 151 | 151 | 151 | 151 | 151 |
| Cyflawniadau Tai Fforddiadwy Gwirioneddol | 43 | 84 | 249 | 163 | 96 | 228 | 76 | 113 | 52 | 160 |
| Perfformiad | -108 | -67 | +98 | +12 | -55 | +77 | -75 | -38 | -99 | +9 |
| Perfformiad Cronnus | -108 | -175 | -77 | -65 | -120 | -43 | -118 | -156 | -255 | -246 |
| Tai Fforddiadwy sy'n weddill i'w darparu | 2,222 | 2,138 | 1,889 | 1,726 | 1,630 | 1,402 | 1,326 | 1,213 | 1,161 | 1,001 |

Y gyfradd ddarparu flynyddol gyfartalog ar gyfer tai fforddiadwy yn ystod cyfnod y cynllun hyd yn hyn yw 126 annedd sydd ychydig o dan y ffigwr blynyddol cyfartalog o 151 sy'n ofynnol er mwyn cyflawni targed tai fforddiadwy o 2,265 a nodir ym mholisi STR1. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys y blynyddoedd cyn mabwysiadu'r CDLI (2015-2022) pan nad oedd y polisi tai fforddiadwy HN3 yn weithredol, ynghyd ag effaith pandemig COVID ar y diwydiant adeiladu tai.

Darparwyd nifer sylweddol o dai fforddiadwy ar ddechrau cyfnod y Cynllun, a chafodd nifer o'r unedau hyn eu cyfrif fel rhan o'r safleoedd ymrwymedig, o ganlyniad i safleoedd hapfasnachol yn dod ymlaen dan yr ymarfer TAN1 blaenorol. Roedd cyfanswm o 1,264 o unedau fforddiadwy wedi'u cwblhau erbyn 31/03/2025 sy'n cynrychioli diffyg o 246 o unedau fforddiadwy. Ar y cyfan, yn Ebrill 2025 mae 1,001 o unedau fforddiadwy yn parhau angen eu darparu. Fodd bynnag, mae swmp o'r camau / plotiau ym Mhorth y Gogledd yn gyffredinol heb eu cyflawni eto neu ble mae'r safleoedd yn y camau cyntaf o adeiladu ac mae darpariaeth yr unedau fforddiadwy yn tueddu i fod yn is. Hefyd, mae nifer o'r dyraniadau tai heb fod yn strategol, eto i gael eu cyflawni a bydd y safleoedd hyn yn darparu nifer sylweddol o unedau fforddiadwy. Mewn cyfuniad â safleoedd ar hap a chynlluniau eithriadau tai fforddiadwy, rhagwelir y bydd tai fforddiadwy dros gyfnod yr holl Gynllun yn agos i'r targed o 2,265. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf mae nifer o geisiadau cynllunio wedi dod i law ar gyfer safleoedd tai fforddiadwy eithriedig, nid oes penderfyniad wedi'i wneud ar bob un eto ond os yw'r unedau yn cael eu cymeradwyo yna byddant yn rhagori ar darged tai fforddiadwy'r CDLI.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI10 Deiliadaeth y datblygiadau tai fforddiadwy a gwblhawyd** | | | | | | | | |
| SO11 | STR11 | HN3 | Rhaniad daliadaeth (rhent cymdeithasol a chanolradd) yn unol â'r angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a phapur cefndir Tai Fforddiadwy. | Y ddarpariaeth yn gwyro oddi wrth y ddeiliadaeth yn y Papur Cefndir Tai Fforddiadwy am o leiaf dwy flynedd yn olynol | Sicrhau bod y Cynllun yn darparu daliadaeth briodol o dai fforddiadwy. | Cynllunio CSFf Strategaeth Dai CSFf | Y Gofrestr Gynllunio Ffurflenni Tai Fforddiadwy | Parhau i fonitro |
| Perfformiad Polisi: | | | | | | | | |

Mae'n bwysig nodi bod Adran Cynllunio Sir y Fflint yn cynnal arolwg Monitro Tir ar gyfer Tai bob mis Ebrill er mwyn olrhain sut mae safleoedd tai yn cael eu datblygu. Mae'r arolwg Monitro Tir ar gyfer Tai yn nodi s yw caniatâd cynllunio ar gyfer tai neu randai wedi'u hadeiladu, yn cael eu hadeiladu, neu heb ddechrau. Mae tai fforddiadwy wedi'u cyfrif ar wahân ar gyfer 2023 a 2024. Mae arolwg Monitro Tir ar gyfer Tai yn cyfrif nifer yr unedau tai fforddiadwy sydd wedi'u sicrhau fel rhan o ganiatâd cynllunio naill ai drwy amod neu gytundeb cyfreithiol Adran 106. Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys unedau preswyl ar gyfer rhent cymdeithasol, rhent canolradd, perchentyaeth cost isel canolradd a daliadaeth niwtral (mewn achosion yn sgil galw'r farchnad, nid yw datblygwyr wedi penderfynu beth yn union fydd ffurf y fforddiadwyedd).

Ar wahân i'r arolwg Monitro Tir ar gyfer Tai, mae Tîm Strategaeth Tai y Cyngor hefyd yn olrhain nifer y tai fforddiadwy sy'n cael eu darparu. Dim ond tai sydd wedi'u darparu drwy ddefnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol neu gyllid grant arall y gall y Tîm Strategaeth Tai eu cynnwys. Anfonir y ffigyrau hyn at Lywodraeth Cymru sydd yna'n eu cyhoeddi yn ffigyrau Sir y Fflint Stats Cymru. Gall y Grant Tai Cymdeithasol ond gael ei ddefnyddio ar gyfer darparu tai cymdeithasol. Nid yw'r Strategaeth Dai yn adrodd ar y perchentyaeth cost isel canolradd a ddarperir trwy ddatblygwyr preifat. Bydd y Strategaeth Dai hefyd yn cyfri'r ddarpariaeth o unedau fforddiadwy a geir drwy adnewyddu tai, nad yw'r Arolwg Monitro Tir ar gyfer Tai yn eu cofnodi. Mae gwahaniaethau eraill hefyd yn y ffordd mae ffigyrau arolwg Monitro Tir ar gyfer Tai a'r Strategaeth Dai yn cael eu cyfrif. Mae pob arolwg yn cyfrif a yw tŷ wedi'i gwblhau mewn ffordd wahanol, yn yr arolwg Monitro Tir ar gyfer Tai os yw tŷ wedi'i adeiladu ond neb yn byw ynddo yna mae'n cael ei ystyried fel tŷ wedi'i gwblhau ond yn y Strategaeth Dai mae'n rhaid i'r tŷ fod wedi'i feddiannu. Felly weithiau gall tŷ gael ei gynnwys yn ffigyrau'r arolwg Monitro Tir ar gyfer Tai un flwyddyn ond ei hepgor o ffigyrau'r Strategaeth Dai. Felly, ni fydd ffigyrau Strategaeth Dai Sir y Fflint / Stats Cymru Sir y Fflint yn alinio gyda ffigyrau arolwg Monitro Tir ar gyfer Tai Sir y Fflint, oherwydd cânt eu cyfrifo mewn ffyrdd gwahanol ac nid ydynt yn gymariaethau cyfatebol.

Mae'r CDLl yn nodi targed ar gyfer rhaniad daliadaeth yn seiliedig ar yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ddiweddaraf, roedd y targed gwreiddiol yn 30% rhent cymdeithasol, 30% rhent canolradd a 40% perchentyaeth cost isel. Ym mis Mawrth 20205 cymeradwyodd yr Awdurdod Lleol Asesiad o'r Farchnad Dai Leol newydd a oedd yn dangos yr angen am raniad daliadaeth o 30% rhent cymdeithasol, 40% rhent canolradd a 30% perchentyaeth cost isel. Gellir crynhoi'r data yn y tablau isod fel a ganlyn:

| | Rhent Cymdeithasol | Rhent canolradd | Perchentyaeth Cost Isel | Daliadaeth Niwtral |
|---|---|---|---|---|
| Targed Cynllun | 30% | 40% | 30% | Amh. |
| Cwblhawyd 2023 | 57% | 5% | 38% | - |
| Cwblhawyd 2024 | 92% | 4% | 4% | - |
| Cwblhawyd 2025 | 40% | 54% | 1% | 6% |

Mae'n amlwg fod darpariaeth yn ystod dwy flynedd gyntaf y monitro yn wahanol i'r rhaniad deiliadaeth yn y CDLl. Nid yw hyn yn annisgwyl gan fod cyflawniadau yn 2023/24 wedi dod o gymysgedd o ddyraniadau neu ymrwymiadau / safleoedd ar hap a gafodd ganiatâd cynllunio cyn i'r gofyniad rhaniad deiliadaeth ddod i rym. Mae hefyd yn amlwg fod nifer o'r safleoedd dyranedig heb ddechrau darpariaeth ar y safle eto. Mae cynlluniau rhent cymdeithasol bach hefyd yn cael eu cyflwyno oherwydd argaeledd y Grant Tai Cymdeithasol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu tai rhent cymdeithasol, a oedd yn y gorffennol yn gwyro darpariaeth tai fforddiadwy tuag at dai rhent cymdeithasol.

Mae'r rhaniad daliadaeth ar gyfer 2024/25 yn symud yn nes at y rhaniad a argymhellir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Unwaith y bydd rhagor o unedau wedi'u cwblhau ar y safleoedd dyranedig hyn, rhagwelir y bydd % y rhaniad yn agosach at yr hyn mae'r Cynllun yn ei geisio. Ni ystyrir bod y sefyllfa bresennol o'i chymharu â tharged y Cynllun yn peri pryder.

| **Amcan y CDLl** | **Polisi Strategol** | **Polisïau i'w Monitro** | **Targed** | **Trothwy** | **Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy** | **Gweithredu** | **Ffynhonnell y Data** | **Cam Gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI13 Darparu'r trothwyon tai fforddiadwy a'r targedau canran ar gyfer pob ardal is-farchnad** | | | | | | | | |
| SO11 | STR1 STR11 | HN3 | Darpariaeth fel HN3 a'r Papur Cefndir Tai Fforddiadwy | Gwyro uwchben neu yn is na'r targed am o leiaf dwy flynedd yn olynol | Sicrhau bod y Cynllun yn darparu tai fforddiadwy | Gwasanaeth Cynllunio CSFf / Strategaeth Dai CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad Polisi:

Mae'r CDLl yn ceisio bodloni gofynion tai fforddiadwy gwahanol yn seiliedig ar chwe ardal is-farchnad tai a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae'r gofynion % yn amrywio o 1% i 40% ar holl ddatblygiadau tai o 10 uned neu fwy, sy'n wahanol i'r gyfradd unffurf yn y CDU ar safleoedd o 25 uned neu fwy. Mae'r tabl isod yn dangos y caniatâd cynllunio a gymeradwywyd, neu benderfyniad y Cyngor i gymeradwyo yn destun cytundeb a106, ar gyfer y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun.

Mae'r tabl yn dangos fod y targedau'n cael eu bodloni a bod y polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus. Yr unig eithriad yw safle Porth y Gogledd lle mae pob cam / plot wedi'u hasesu ar eu rhinweddau unigol gan ystyried buddsoddiad isadeiledd trwy

asesiadau hygyrchedd. Mae’r dull o ganiatáu darpariaeth tai fforddiadwy ar % is yn seiliedig ar ystyriaethau hyfywedd, yn unol â’r dull polisi yn NH3. Nid oes gwyriadau pellach o ganran y gofyniad yn ystod 2024/25.

| **Ardal Farchnad Dai y Fflint a’r Arfordir** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw’r Safle** | **Dyddiad Caniatâd** | **Anheddau ar y farchnad** | **Nifer yr Unedau Fforddiadwy** | **% Tai Fforddiadwy** | **% Tai Fforddiadwy Gofynnol** |
| Tir wrth ymyl Ffordd Pennant, Maes Pennant, Mostyn | 13/02/24 | 57 | 9 | 15% | 15% |
| Trawsnewid hen adeilad Sefydliad Gronant | 08/07/24 | 14 | 2 | 15% | 15% |
| Ffordd Rhewl Fawr, Penyffordd, Treffynnon* | 09/02/2025 | 0 | 21 | 100% | 100% |

*Cynllun 100% Tai Fforddiadwy

| **Ardal Farchnad Dai Canolog** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw’r Safle** | **Dyddiad Caniatâd** | **Anheddau ar y farchnad** | **Nifer yr Unedau Fforddiadwy** | **% Tai Fforddiadwy** | **% Tai Fforddiadwy Gofynnol** |
| Dim | - | - | - | - | 40% |

| **Ardal Farchnad Dai Cei Connah, Queensferry a Brychdyn** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw’r Safle** | **Dyddiad Caniatâd** | **Anheddau ar y farchnad** | **Nifer yr Unedau Fforddiadwy** | **% Tai Fforddiadwy** | **% Tai Fforddiadwy Gofynnol** |
| Highmere Drive, Cei Connah | 21/06/23 | 141 | 49 | 35% | 35% |

| **Ardal Farchnad Dai Garden City** |
|---|

| Enw'r Safle | Dyddiad Caniatâd | Anheddau ar y farchnad | Nifer yr Unedau Fforddiadwy | % Tai Fforddiadwy | % Tai Fforddiadwy Gofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| 62898 GAR002B Anwyl | 22/02/22 | 102 | 10 | 9% | 20% |
| 62898 GAR002C Bellway | 22/02/22 | 166 | 19 | 10% | 20% |
| 62898 GAR002D Anwyl | 22/02/22 | 63 | 8 | 11% | 20% |
| 63591 GAR002H (Cam 4) Bellway / Persimmon | 10/03/2023 | 400 | 0 | 0% | 20% |
| RES/000658/22 GAR002i (Cam 3) Bellway | 25/08/2023 | 49 | 5 | 9% | 20% |

| Ardal Farchnad Dai yr Wyddgrug a Bwcle | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | **Dyddiad Caniatâd** | **Anheddau ar y farchnad** | **Nifer yr Unedau Fforddiadwy** | **% Tai Fforddiadwy** | **% Tai Fforddiadwy Gofynnol** |
| Well Street, Bwcle | 13/03/24 | 140 | 56 | 40% | 40% |
| I'r gogledd o Ffordd y Waun (Ffordd Dinbych), yr Wyddgrug | 13/03/24 | 235 | 94 | 40% | 40% |
| Pentre Cythrel | 08/07/24 | 90 | 36 | 40% | 40% |

| Ardal Farchnad Dai Ffin y De | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Safle** | **Dyddiad Caniatâd** | **Anheddau ar y farchnad** | **Nifer yr Unedau Fforddiadwy** | **% Tai Fforddiadwy** | **% Tai Fforddiadwy Gofynnol** |
| Ffordd Wrecsam, Abermorddu | 13/03/24 | 70 | 21 | 30% | 30% |

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI14 Hyfywedd – tueddiadau mewn prisiau tai, gwerth tir, costau adeiladu** | | | | | | | | |
| SO11<br>SO1<br>SO4 | STR1<br>STR11 | HN3<br>HN1 | Hyfywedd y cynllun a chyflawniad y rhwymedigaethau cynllunio yn unol â'r Astudiaeth Hyfywedd. | Gwyro (cadarnhaol neu negyddol) o 5% rhwng prisiau tai, gwerthoedd tir a chostau adeiladu o gymharu â'r Astudiaeth o Hyfywedd am o leiaf dwy flynedd yn olynol | Sicrhau bod datblygiad tai yn parhau yn hyfyw o ran cyflawni rhwymedigaethau cynllunio yng nghyd-destun ffiniau ariannol sy'n newid | Cynllunio CSFf / Prisiwr Dosbarth | | Parhau i fonitro Ymchwiliad pellach |

Perfformiad Polisi:

Mae pennawd ystadegau Cofrestra Dir Ei Fawrhydi ar gyfer mis Mai 2025 yn dangos mai'r pris cyfartalog am eiddo yng Nghymru oedd £209,580 – cynnydd o 5.10% o gymharu â'r llynedd. Yn Sir y Fflint, ym mis Mai 2025 roedd y pris cyfartalog yn £217,504, sy'n gynnydd o 8.5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o dystiolaeth anecdotaidd bod costau adeiladu wedi cynyddu yn ystod cyfnod COVID ac ers hynny yn sgil y dirywiad economaidd. Nid yw'r Cyngor wedi gallu dod o hyd i ddata mewn perthynas â chostau tir. Fodd bynnag, mae'n amlwg o MI13 fod gofynion tai fforddiadwy yn cael eu bodloni mewn datblygiadau diweddar. Hon yw'r flwyddyn gyntaf y mae prisiau tai wedi rhagori ar y trothwy hyfywedd o 5%, mae'r dangosydd monitro yn gofyn am o leiaf dwy flynedd yn olynol i gyrraedd y trothwy felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio nad yw hyn yn achos o brisiau tai yn codi ohonynt eu hunain, ond ochr yn ochr â chostau adeiladu cynyddol.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI15 Cyfradd datblygiad ar ddyraniadau tai lleol allweddol (datblygiadau wedi eu cwblhau, nifer a gymerwyd a chynlluniau isadeiledd)** | | | | | | | | |
| SO11 | STR1<br>STR11 | HN1 | Darpariaeth yn unol â'r taflwybr tai | Gwyriad (cadarnhaol neu negyddol) o'i gymharu â'r taflwybr | Sicrhau bod dyraniadau tai lleol yn HN1 yn darparu | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | tai am o leiaf dwy flynedd yn olynol | ar y gyfradd a nodir yn y taflwybr tai | | | |

Perfformiad Polisi:

Mae’r tabl isod yn dangos y rhagolygon ar gyfer cyflawniadau o’r taflwybr mabwysiedig ar gyfer pob dyraniad tai heb fod yn strategol a fesurir yn erbyn y rhagolygon diwygiedig ar gyfer cyflawniadau. Mae rhwng blwyddyn a thair blynedd o oedi wedi bod, gyda’r rhan fwyaf o’r safleoedd wedi gweld oedi o ddwy flynedd. Cafodd pedwar dyraniad eu hoedi gan ffosffadau ac roedd yr angen i oedi yn hysbys yn ystod Archwilio’r Cynllun. Mae safleoedd eraill wedi cymryd yn hirach na’r disgwyl i gyrraedd y cam cais cynllunio yn sgil cymhlethdodau dan gontract rhwng tirfeddianwyr a datblygwyr ac mae hyn tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

| Safle | Unedau | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 | 29/30 | 30+ | Llithriant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **HN1.1 Well Street, Bwcle** | | | | | | | | | | | | |
| Rhagolygon cyflawniadau (taflwybr mabwysiedig) | 140 | - | - | 46 | 47 | 47 | 47 | - | - | - | - | 2 flynedd |
| Rhagolygon cyflawniadau diwygiedig | (159 rŵan) | - | - | - | - | 50 | 50 | 59 | - | - | - | |
| **HN1.2 Broad Oak Holding, Cei Connah** | | | | | | | | | | | | |
| Gwir gyflawniadau | 32 | 27 | 5 | - | - | - | - | - | - | - | - | Wedi’i gwblhau |
| **HN1.3 Highmere Drive, Cei Connah** | | | | | | | | | | | | |
| Rhagolygon cyflawniadau (taflwybr mabwysiedig) | 150 | - | - | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | | - | - | 1 flwyddyn |
| Gwir gyflawniadau | | - | - | - | 24 | - | - | - | - | - | - | |
| Rhagolygon cyflawniadau diwygiedig | (141 rŵan) | - | - | - | - | 57 | 60 | | - | - | - | |
| **HN1.4 Ffordd Llaneurgain, Y Fflint** | | | | | | | | | | | | |
| Rhagolygon cyflawniadau (taflwybr mabwysiedig) | 170 | - | - | 20 | 40 | 40 | 40 | 30 | | - | - | 3 blynedd |
| Rhagolygon cyflawniadau diwygiedig | | - | - | - | - | - | 40 | 40 | 40 | 50 | - | |
| **HN1.5 Maes Gwern, yr Wyddgrug** | | | | | | | | | | | | |
| Gwir gyflawniadau | 160 | 59 | 26 | - | - | - | - | - | - | - | - | Wedi’i gwblhau |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (cyflawniadau wedi digwydd yn y blynyddoedd blaenorol) | | | | | | | | | | | | |
| **HN1.6 Ffordd Dinbych / Ffordd y Waun, yr Wyddgrug** | | | | | | | | | | | | |
| Rhagolygon cyflawniadau (taflwybr mabwysiedig) | 238 | - | 38 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | | - | - | 3 blynedd |
| Rhagolygon cyflawniadau diwygiedig | (235 rŵan) | - | - | - | - | 35 | 45 | 45 | 45 | 45 | 20 | |
| **HN1.7 Ffordd Treffynnon, Green Lane, Ewlo** | | | | | | | | | | | | |
| Rhagolygon cyflawniadau (taflwybr mabwysiedig) | 298 | - | - | 28 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | | - | 3 blynedd |
| Rhagolygon cyflawniadau diwygiedig | | - | - | - | - | - | 100 | 100 | 60 | 38 | - | |
| **HN1.8 Ash Lane, Penarlâg** | | | | | | | | | | | | |
| Rhagolygon cyflawniadau (taflwybr mabwysiedig) | 288 | - | - | 18 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | | - | 3 blynedd |
| Rhagolygon cyflawniadau diwygiedig | | - | - | - | | | 100 | 100 | 60 | 40 | - | |
| **HN1.9 Ffordd Wrecsam, HCAC** | | | | | | | | | | | | |
| Rhagolygon cyflawniadau (taflwybr mabwysiedig) | 80 | - | - | 20 | 20 | 30 | | - | - | - | - | 3 blynedd |
| Rhagolygon cyflawniadau diwygiedig | (70 rŵan) | - | - | - | - | - | 40 | 30 | - | - | - | |
| **HN1.10 Cae Isa, Pentre Cythrel** | | | | | | | | | | | | |
| Rhagolygon cyflawniadau (taflwybr mabwysiedig) | 92 | - | 15 | 30 | 30 | 17 | | - | - | - | - | 3 blynedd |
| Rhagolygon cyflawniadau diwygiedig | (90 rŵan) | - | - | - | - | 30 | 30 | 30 | - | - | - | |
| **HN1.11 Ffordd Caer, Penymynydd** | | | | | | | | | | | | |
| Rhagolygon cyflawniadau (taflwybr mabwysiedig) | 181 | 39 | 40 | 40 | 35 | - | - | - | - | - | - | Wedi'i gwblhau |
| Gwir gyflawniadau (cyflawniadau wedi digwydd yn y blynyddoedd blaenorol) | | 24 | 39 | 69 | 22 | 5 | - | - | - | - | - | |
| Rhagolygon cyflawniadau diwygiedig | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | |

Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa bresennol o ran pob dyraniad tai heb fod yn strategol. Mae tri o'r dyraniadau wedi'u cwblhau a phedwar yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, gyda chyfanswm o 75 uned wedi'u dechrau ar draws y pedwar safle ym mis Ebrill 2025. Mae gan un ganiatâd cynllunio ac argymhellir bod un arall yn cael caniatâd cynllunio. Bydd y ddau safle arall yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio yn hydref 2025. Mae hyn yn rhoi darlun cadarnhaol i ni o'r portffolio o safleoedd sy'n barod i ddarparu ffigyrau tai sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| HN1.1 | **Well Street, Bwcle** | 5.3ha | 140 | Castle Green / Clwyd Alyn – cais llawn 826/23 ar gyfer 159 o anheddau wedi'i gymeradwyo ar 20/03/25. Gwaith wedi dechrau ar y safle. | Parhau i fonitro |
| HN1.2 | **Broad Oak Holding, Cei Connah** | 1.3ha | 32 | Cwblhawyd gan Edwards Homes | Amh. |
| HN1.3 | **Highmere Drive, Cei Connah** | 5.0ha | 150 | Edwards Homes – caniatâd manwl wedi'i gymeradwyo Gwaith adeiladu ar y safle, gyda 24 uned wedi'i gwblhau ar gyfer 2024/25 a 47 yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. | Parhau i fonitro |
| HN1.4 | **Ffordd Llaneurgain, y Fflint** | 9.1ha | 170 | 2 ddatblygwr. Cais manwl Watkin Jones 414/22 dan ystyriaeth ar gyfer 200 uned ar ran fawr o'r safle – yn aros am gynlluniau diwygiedig. Cais manwl 435/24 ar gyfer 22 annedd dan ystyriaeth Edwards Homes | Parhau i fonitro |
| HN1.5 | **Maes Gwern, yr Wyddgrug** | 5.7ha | 160 | Cwblhawyd gan Wates | Amh. |
| HN1.6 | **Tir rhwng Ffordd Dinbych a Ffordd y Waun, yr Wyddgrug** | 10.6ha | 238 | Anwyl – caniatâd manwl ar gyfer 235 annedd wedi'i roi ar 13/02/025. Gwaith adeiladu wedi dechrau. | Parhau i fonitro |
| HN1.7 | **Ffordd Treffynnon / Green Lane, Ewlo** | 9.9ha | 298 | Castle Green – cais manwl 429/24 ar gyfer 315 uned o dan ystyriaeth | Parhau i fonitro |
| HN1.8 | **Ash Lane, Penarlâg** | 10.9ha | 288 | Castle Green – cais manwl 195/24 ar gyfer 315 uned – y Cyngor wedi penderfynu rhoi caniatâd ar 11/06/25. | Parhau i fonitro |
| HN1.9 | **Ffordd Wrecsam, HCAC** | 3.5ha | 80 | Castle Green – cais manwl ar gyfer 70 annedd wedi'i gymeradwyo ar 05/12/24. Gwaith cychwynnol wedi dechrau. | Parhau i fonitro |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| HN1.10 | **Cae Isa, Pentre Cythrel** | 3.5ha | 80 | Lovells – cais manwl ar gyfer 90 annedd wedi'i gymeradwyo ar 08/07/24. Safle yn cael ei adeiladu | Parhau i fonitro |
| HN1.11 | **Ffordd Caer, Penyffordd** | 7.7ha | 181 | Cwblhawyd 2024/25. | Parhau i fonitro |

**Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

| CDLl Amcan | Polisi Stratego l | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Camau Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI16 Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr / lleiniau wedi eu codi ar safleoedd a ddyrannwyd** | | | | | | | | |
| SO11<br>SO12 | STR12 | HN8 | Angen a nodwyd i'w ddiwallu'n llwyr erbyn 2030 | Dim caniatâd cynllunio ar y safle dyranedig | Sicrhau bod y Cynllun yn diwallu'r anghenion a nodwyd drwy weithredu ar y safle Plan is meeting identified needs through site implementation | Gwasanaeth Cynllunio CSFf / Strategaeth Dai CSFf Service / FCC Housing Strategy | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |
| Monitro Perfformiad Polisi:<br><br>Mae Polisi STR12 yn nodi amcanion cyffredinol o ran safleoedd sipsiwn a theithwyr er mwyn bodloni'r anghenion a aseswyd trwy ddyraniadau ac i asesu safleoedd ar hap wrth iddynt godi. Cyflawnir hyn trwy bolisi HN8 sy'n nodi 3 dyraniad safle preswyl ac 1 dyraniad safle tramwy. Mae'r ddau bolisi yn gweithio'n dda ac wedi bod yn destun sesiynau hyfforddi Aelodau mewnol. Yn dilyn dyddiad sylfaenol yr AMB ar 15/07/25 cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth Dai (2025-2030) newydd ar gyfer ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys darparu llety i'r rhai nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n briodol trwy'r farchnad dai gonfensiynol h.y. safleoedd sipsiwn a theithwyr. | | | | | | | | |

| CDLl Amcan | Polisi Stratego l | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Camau Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI17.1: Magazine Lane, Ewlo** | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO11<br>SO12 | STR12 | HN8 | 1. Caniatâd cynllunio i'w gymeradwyo ar y safle a ddyrannwyd erbyn 01.04.23.<br>2. Darparu 9 o leiniau erbyn 01.04.25 | 1. Dim caniatâd cynllunio ar y safle a ddyrannwyd erbyn 01.04.23<br>2. Dim lleiniau wedi'u darparu erbyn 01.04.25 | Sicrhau bod y Cynllun yn diwallu'r anghenion a nodwyd drwy weithredu ar y safle | Gwasanaeth Cynllunio CSFf<br>Strategaeth Dai CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |
| Perfformiad y Polisi:<br><br>Cafodd caniatâd cynllunio llawn ei gymeradwyo dan gyfeirnod 061722 ar 08/12/22 i ail-gynllunio'r safle presennol i wneud lle i 9 llain ychwanegol. Mae targed 1 wedi'i gyrraedd ond mae angen parhau i fonitro pethau er mwyn sefydlu gweithrediad y lleiniau i sicrhau bod targed 2 yn cael ei gyrraedd. | | | | | | | | |

| **MI17.2: Gwern Lane, Cae Estyn, yr Hôb** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO11<br>SO12 | STR12 | HN8 | 1. Caniatâd cynllunio i'w gymeradwyo ar y safle a ddyrannwyd erbyn 01.04.23.<br>2. Darparu 4 o leiniau erbyn 01.04.25 | 1. Dim caniatâd cynllunio ar y safle a ddyrannwyd erbyn 01.04.23<br>2. Dim lleiniau wedi'u darparu erbyn 01.04.25 | Sicrhau bod y Cynllun yn diwallu'r anghenion a nodwyd drwy weithredu ar y safle | Gwasanaeth Cynllunio CSFf<br>Strategaeth Dai CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |
| Monitro Perfformiad Polisi:<br><br>Cafodd caniatâd cynllunio llawn ei gymeradwyo dan gyfeirnod 061271 ar 15/12/21 i estyn y safle presennol i wneud lle i 4 llain ychwanegol. Mae targed 1 wedi'i gyrraedd ond mae angen parhau i fonitro pethau er mwyn sefydlu gweithrediad y lleiniau i sicrhau bod targed 2 yn cael ei gyrraedd. Mae'n ymddangos bod y safle wedi'i estyn ond nid yw'r lleiniau wedi'u datblygu eto. | | | | | | | | |

| **MI 17.3: Riverside, Queensferry** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO11<br>SO12 | STR12 | HN8 | 1. Caniatâd cynllunio i'w gymeradwyo ar y safle a ddyrannwyd erbyn 01.04.23.<br>2. Darparu 10 llain erbyn 01.04.26 | 1. Dim caniatâd cynllunio ar y safle a ddyrannwyd erbyn 01.04.23<br>2. Dim lleiniau wedi'u darparu erbyn 01.04.26 | Sicrhau bod y Cynllun yn diwallu'r anghenion a nodwyd drwy weithredu ar y safle | Gwasanaeth Cynllunio CSFf Strategaeth Dai CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro / archwiliad pellach |

Monitro Perfformiad Polisi:

Mae Uned Strategaeth Tai y Cyngor wedi comisiynu ymgynghorwyr cynllunio i baratoi a chyflwyno cais cynllunio ar gyfer ymestyn parc preswyl Riverside sy'n eiddo ac a gynhelir gan y Cyngor, er mwyn gwneud lle i 10 llain ychwanegol. Bydd y cais hefyd yn cynnwys ail-ddylunio'r safle presennol.

Mae'r prosiect yn cysylltu'n uniongyrchol â chynigion Llywodraeth Cymru i wella'r bont bresennol dros yr Afon Dyfrdwy ar gyfer croesfan afon newydd ar gyfer traffig i'r gorllewin a newid y bont bresennol yn rhannol ar gyfer traffig i'r dwyrain. Mae oedi ar brosiect A494(T) wedi effeithio ar gynnydd cais ar gyfer safle sipsiwn a theithwyr. Fodd bynnag, nid oes unrhyw bryder sylfaenol ynghylch y prosiect. Yn wir, mae TAN15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn dangos nad yw'r safle bellach mewn perygl llifogydd ac fe all hynny helpu i ddatblygu'r safle yn gynt na'r disgwyl.

| **MI 17.4: Parc y Castell, y Fflint** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO11<br>SO12 | STR12 | HN8 | 1. Caniatâd cynllunio i'w gymeradwyo ar y safle a ddyrannwyd erbyn 01.04.23.<br>2. Darparu 6 o leiniau erbyn 01.04.26 | 1. Dim caniatâd cynllunio ar y safle a ddyrannwyd erbyn 01.04.23<br>2. Dim lleiniau wedi'u darparu erbyn 01.04.26 | Sicrhau bod y Cynllun yn diwallu'r anghenion a nodwyd drwy weithredu ar y safle | Gwasanaeth Cynllunio CSFf / Strategaeth Dai CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Monitro Perfformiad Polisi:

Mae'r dyraniad i ddatblygu hen Safle Amwynder Dinesig a gynhaliwyd gan y Cyngor ar gyfer safle tramwy bach gyda 6 llain. Mae Uned Strategaeth Tai'r Cyngor yn ceisio datblygu cais cynllunio ar gyfer datblygiad ar y safle. Bydd y mater yn destun adroddiad i'r Cabinet yn hydref 2025.

| **MI18 Safleoedd Sipswn a Theithwyr / lleiniau ar safleoedd ar hap** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO11<br>SO12 | STR12 | HN9 | Dim targed | Unrhyw ganiatâd ar gyfer safle sipswn a theithwyr heb ei ddyrannu | Monitro a yw'r safleoedd a ddyrannwyd yn ddigonol i ddarparu ar gyfer yr angen dros gyfnod y Cynllun ac i lywio Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol | Cynllunio CSFf<br>Strategaeth Dai CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Monitro Perfformiad Polisi:

Mae polisi HN9 yn bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf lle caiff safleoedd ar hap arfaethedig ar gyfer safleoedd sipswn a theithwyr eu hasesu yn ei erbyn. Cymeradwywyd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (2022) yma gan Lywodraeth Cymru ar 30/05/24 yma. Mae'r asesiad diwygiedig yn dangos angen 5 mlynedd am 23 o leiniau a 27 llain yn ystod oes y Cynllun. Roedd adendwm yn cyd-fynd â'r asesiad yma a oedd yn ceisio nodi sefyllfa gyfredol o ran caniatâd cynllunio ar gyfer lleiniau preswyl i sipswn a theithwyr. Roedd yr adendwm yn nodi bod yr angen 5 mlynedd yn lleihau i 2 lain a bod yr angen yn ystod oes y Cynllun yn lleihau i 6 llain. Yn y cyfnod ar ôl drafftio'r adendwm mae lleiniau eraill wedi'u cymeradwyo, sydd wedi lleihau'r angen am leiniau. Erbyn mis Ebrill 2025 mae'r angen 5 mlynedd wedi lleihau i 2 lain a'r angen yn ystod oes y Cynllun wedi lleihau i 6 llain. Mae hon yn sefyllfa gadarnhaol ar gyfer y Cyngor ac yn adlewyrchu penderfynu ar geisiadau cynllunio yn seiliedig ar eu rhinweddau unigol yn erbyn polisi HN9 a'r canllawiau yng Nghylchlythyr 005/2018.

## Datblygu Cyflogaeth

| CDLl Amcan | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Camau Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI11 Tir Cyflogaeth a gymerir ar Ddyraniadau** | | | | | | | | |
| SO8<br>SO9 | STR1<br>STR8 | PE1 | Niferoedd sy'n manteisio ar y dyraniadau tir cyflogaeth | Neb yn manteisio ar y dyraniadau tir cyflogaeth am o leiaf dwy flynedd yn olynol | Sicrhau bod dyraniadau cyflogaeth y Cynllun yn cael eu datblygu | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad Polisi:

Mae'r Cynllun yn gwneud 2 dyraniad safle cyflogaeth strategol a 6 dyraniad safle cyflogaeth heb fod yn strategol fel y crynhoir ym Mholisi PE1. Mae'r sefyllfa o ran pob safle wedi'i nodi isod:

| Cyfeirnod Safle | Enw'r Safle | Ardal | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| STR3A | Porth y Gogledd | 72.4ha | Mae'r safle strategol wedi ei rannu i ddau gyda rhan ogleddol (Praxis) y safle a rhan ddeheuol (Pochin) y safle ac yn cynnwys 72.4ha o dir cyflogaeth.<br><br>Mae rhan ogleddol y safle yn cynnwys pedwar plot o dir ar gyfer datblygu cyflogaeth fel a ganlyn:<br>• Plot A - cymeradwywyd warws Amazon (9,200 metr sgwâr) ar 08/01/20 dan 060222 a'i adeiladu<br>• Plot B - cymeradwywyd uned storio a dosbarth (48685 metr sgwâr) ar 09/03/23 dan RES/000385/22<br>• Plot C - cymeradwywyd gwaith prosesu papur 124,344 metr sgwâr (063721) ar 30/03/22 ac yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd.<br>• Plot D – unedau storio a dosbarthu 16,733 metr sgwâr (810/23) wedi'u cymeradwyo ar 15/03/24 ac yn cael eu hadeiladu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae rhan ddeheuol y safle yn cynnwys tir cyflogaeth Cam 1 a 2. Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar 27/09/24 (506/23) ar gyfer pedair uned o feintiau gwahanol gyda chyfanswm arwynebedd o 1,001,000 metr sgwâr. Gwaith cychwynnol wedi dechrau.<br><br>Mae'n amlwg bod cynnydd da yn cael ei wneud i sicrhau caniatâd cynllunio ac mae gwaith datblygu yn cael ei wneud ar y tir ym Mhorth y Gogledd. |
| STR3B | Warren Hall | 19.1ha | Mae gwaith technegol pellach yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan ymgynghorwyr awyrenegol arbenigol Llywodraeth Cymru o ran y cyfyngiad llwybr hedfan mewn perthynas ag Airbus Penarlâg. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys trafodaethau agos gydag Airbus a bydd yn hysbysu graddfa ffisegol y datblygiad adeiledig (19.1ha o ardal i'w ddatblygu a nodir yn y CDLl) ac uchder y datblygiad (cyfyngiad o 12 metr o uchder yn y CDLl).<br>Mae cyllid y Cynllun Twf gan Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau mewn lle i ddarparu isadeiledd a gwasanaethau ar gyfer y safle. Mae statws Parth Buddsoddi ar gyfer Glannau Dyfrdwy a Wrecsam wedi'i gadarnhau ac yn dod â buddion ariannol posibl a all gronni i fusnesau. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gais cynllunio amlinellol ar gyfer y safle. |
| PE1.1 | Parc Awyrofod Caer, Brychdyn | 5.72ha | Mae'r dyraniad hwn yn cynnwys 5.72ha o dir. Ar y rhan ogleddol mae busnes cydosod modern gyda lle ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu (059221 cymeradwywyd ar 21/03/19) wedi'i adeiladu gan Trelleborg Marine Systems Ltd. Mae hyn yn gadael safle gweddillol o tua 4ha ar gael ar gyfer datblygu. |
| PE1.2 | Manor Lane / Estyniad Parc Penarlâg | 18.2ha | Gellir torri'r dyraniad 18.2ha i lawr i 3 rhan benodol ac yn cynnwys yr hyn a enwir yn Barc Busnes Vista.<br>• Rhan Orllewinol - Cam 1 codi 4 uned ar gyfer B1, B2 a B8 (5,542 metr sgwâr) cymeradwywyd 23/12/21 (058082) - adeiladwyd. Cam 2 codi 3 uned ar gyfer B1, B2 a B8 (5,583 metr sgwâr) a gymeradwywyd ar 19/07/23 (345/23) – wedi'u hadeiladu<br>• Rhan Ganol - dim symudiad<br>• Rhan Ddwyreiniol - dim symudiad |
| PE1.3 | Drury New Road | 1.4ha | Mae'r safle dyranedig (1.4ha) a'r uned gerllaw ar gael ar gyfer datblygu / meddiannaeth. Gwrthodwyd cais cynllunio ar gyfer tai gan Whitley Estates (061507) ar 13/07/22 ar y sail ceisio atal colli safleoedd cyflogaeth dyranedig a thir cyflogaeth presennol a chafodd ei ddiystyru ar apêl ar 10/06/24 yn dilyn gwrandawiad anffurfiol. |
| PE1.4 | Parc Busnes yr Wyddgrug | 3.9ha | Mae'r dyraniad yn cynnwys dau ddarn penodol o dir. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Mae rhan ddwyreiniol y dyraniad hwn wedi'i adeiladu arni gan Smurfitt Kappa ar ffurf estyniad i'r uned bresennol. Cymeradwywyd caniatâd cynllunio ar 02/10/19 (dan 062445) ar gyfer estyniad 14,349 metr sgwâr.<br>• Mae'r rhan orllewinol wedi derbyn caniatâd cynllunio (772/22 - 27/04/23) ar ddarn o'r tir (0.53ha) ar gyfer 'Cyfleuster Gwasanaethau Gofal Dydd Cyfleoedd Gwaith Newydd'. Cymeradwywyd y manylion ar 03/07/24 (167/24) a 05/03/24 (169/24) ac mae'r gwaith wedi'i gwblhau<br>• Mae darn dros ben o dir oddeutu 3ha yn parhau i fod ar gael ar ran orllewinol y safle. |
| PE1.5 | Dwyrain Ffordd Caer, Queensferry | 3.15ha | Cymeradwywyd caniatâd cynllunio ar 24/06/20 (dan 061117) ar gyfer Cyfleuster Hunan-storio sydd wedi'i adeiladu. Mae gweddill y safle wedi'i ddefnyddio fel lagŵn storio dŵr wyneb ar ôl llifogydd. Felly, nid oes mwy o dir ar gael ar gyfer datblygu o fewn y dyraniad. |
| PE1.6 | River Lane, Saltney | 1.1ha | Ar ddyddiad sylfaenol yr AMB, mae cais (991/24) ar gyfer Canolfan MOT dan ystyriaeth. |

Ar y cyfan, mae cynnydd da wedi'i wneud o ran sicrhau caniatâd cynllunio ar rai safleoedd ac mae gwaith datblygu yn cael ei wneud ar safleoedd eraill.

| CDLl Amcan | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Trothwy | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Trothwy | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Camau Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI12 Twf Swyddi** | | | | | | | | |
| SO8<br>SO9 | STR1<br>STR7 | STR1 | 8-10,000 o swyddi | Dim trothwy | Monitro a yw'r twf o ran swyddi dros gyfnod y Cynllun yn cyrraedd y targed i ymgyrraedd ato | Adfywio CSFf | SYG | Parhau i fonitro |

Perfformiad Polisi:

Nid yw'r Cyngor yn cadw ffigyrau twf swyddi fel rheol ond gall nodi creu swyddi fel rhan o nifer o safleoedd / datblygiadau allweddol fel a ganlyn:

- Parc Busnes Vista - Cam 1 - mae dwy o'r tair uned wedi creu cyfanswm o 90 o swyddi
- Parc Busnes Vista - Cam 2 - rhagwelir 100 o swyddi
- Porth y Gogledd Plot A - Amazon - 50 o swyddi parhaol a 300 o yrwyr
- Porth y Gogledd Plot B - rhagwelir 500 o swyddi
- Porth y Gogledd Plot C - melin bapur 463 o swyddi
- Porth y Gogledd Cam 1 a 2 - rhagwelir 1086 o swyddi

Er nad yw'n safle dyranedig, bydd ailddatblygu ac estyn Melin Bapur Shotton ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn creu 470 o swyddi ychwanegol. Bydd swyddi hefyd yn cael eu creu ar draws y sir fel rhan o estyniadau a datblygiadau newydd bychain, yn arbennig o fewn y Prif Ardaloedd Cyflogaeth fel Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

## 4. Dangosyddion Lleol

### Cyflwyniad

4.1 Defnyddiwyd y camau gweithredu canlynol, a ddaw o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, drwy'r bennod hon i gyd wrth edrych ar ddangosyddion monitro lleol.

| | |
|---|---|
| (gwyrdd) | Parhau i fonitro (os yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n effeithiol) |
| (glas) | Angen hyfforddiant ar gyfer y Swyddogion / Aelodau (os nad yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen hyfforddiant pellach) |
| (porffor) | Angen canllawiau cynllunio atodol pellach (os nad yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen canllawiau pellach) |
| (melyn) | Angen ymchwiliad / ymchwil pellach |
| (oren) | Angen adolygiad polisi (os nad yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu a'u bod yn methu â chyflawni'r hyn a fwriadwyd) |
| (coch) | Angen adolygiad cynllun (os nad yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nad yw strategaeth y cynllun yn cael ei chyflawni, gallai hyn sbarduno adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad statudol bob 4 mlynedd). |

## Lletemau Glas

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI19 Colli lletemau glas** | | | | | | | | |
| SO16 | STR13 | EN2 | Peidio â cholli lletemau glas oni ystyrir bod hynny'n cyd-fynd â'r polisi cenedlaethol | Unrhyw ganiatâd sydd wedi ei roi yn groes i'r polisi a'r polisi cenedlaethol | Sicrhau nad oes unrhyw ddatblygiad a fyddai'n arwain at golli rhwystr glas neu'n achosi niwed i'w natur agored | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddatblygiad yn cael ei ganiatáu o fewn lletem las sydd heb ei gyfiawnhau ym mholisi EN11 a'r canllawiau yn PCC12. Mae'r polisi wedi cael ei gymhwyso'n gadarn ac yn gyson, a bydd hynny'n parhau. Mae'r tabl isod yn dangos sylwadau am yr amrywiaeth o ddatblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio o fewn pob lletem las.

Cafodd Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol sy'n cynnwys fferm solar fawr ar ffin Sir y Fflint / Swydd Gaer ym Mrychdyn / Bretton ei gymeradwyo gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar 19/12/23. Roedd yr Arolygydd a'r Gweinidog ill dau'n ystyried bod y datblygiad yn amhriodol mewn lletem las, ond, fel rhan o'r prawf amgylchiadau eithriadol iawn, daethant i'r casgliad fod buddion y cynllun o ran ei gyfraniad i dargedau creu ynni adnewyddadwy a charbon isel yng Nghymru yn drech na'r niwed i natur agored y lletem las.

| Cyf | Enw'r Lletem Las | Caniatâd Cynllunio dros y 12 mis diwethaf |
|---|---|---|
| EN1.1 | Gronant - Talacre - Gwesbyr | Rhoddwyd caniatâd cynllunio i godi storfa slyri a phydew derbyn cysylltiedig, a gwrthodwyd cynnig i ddymchwel annedd presennol a chodi annedd newydd, yn unol â pholisi EN11. |
| EN1.2 | Gorsedd - Carmel | Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer ffensys newydd, yn unol â pholisi EN11. |
| EN1.3 | Y Fflint - Bagillt | Dim |
| EN1.4 | Y Fflint – Cei Connah | Dim |
| EN1.5 | Y Fflint - Mynydd-y-Fflint | Dim |

| | | |
|---|---|---|
| EN1.6 | Mynydd-y-Fflint - Llaneurgain | Dim |
| EN1.7 | Y Waun - Pant-y-mwyn | Dim |
| EN1.8 | Treffynnon - Maes-glas | Dim |
| EN1.9 | Yr Wyddgrug – Gwernymynydd | Dim |
| EN1.10 | Yr Wyddgrug - Mynydd Isa - Sychdyn - Pentre Cythrel | Caniatâd cynllunio ar raddfa fach mewn perthynas â chodi storfa borthiant yn unol â pholisi EN11. |
| EN1.11 | Cei Connah - Northop Hall - Ewloe - Shotton | Amrywiaeth o ganiatâd cynllunio ar raddfa fach mewn perthynas â datblygu garej newydd a mynedfa gerbydau ddiwygiedig, newid defnydd o fod yn amaethyddol i fod yn gyfleuster ymarfer cŵn, trawsnewid adeilad fferm yn 1 bwthyn/fflat gwyliau, yn unol â pholisi EN11. |
| EN11.12 | Shotton - Mancot - Penarlâg - Ewloe | Dim |
| EN11.13 | Penarlâg – Mancot – Maes Awyr Penarlâg – Saltney (i'r de o'r Afon Dyfrdwy) | Dim |
| EN11.14 | Brychdyn – Maes Awyr Penarlâg – Saltney – Ffin Swydd Gaer | Rhoddwyd caniatâd cynllunio i godi 2 fae hyfforddi golff, gosod 2 gwrt padel a'r isadeiledd cysylltiedig, a chymeradwywyd hyn yn un o gyfarfodydd y pwyllgor, yn erbyn argymhelliad y swyddogion. Teimlai aelodau'r pwyllgor bod amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau'r datblygiad yn y lleoliad hwn, gan ystyried y byddai datblygiad arfaethedig cwrt padel yn achosi lefelau sŵn a fyddai'n cael effaith niweidiol ar amodau byw o fewn cyd-destun trefol. Byddai'r datblygiad yn cynnig buddion hamdden a lles i'r gymuned ac yn cefnogi busnes sefydledig. |
| EN11.15 | Sealand – Ffin Swydd Gaer (i'r gogledd o'r Afon Dyfrdwy) | Rhoddwyd caniatâd cynllunio i ddymchwel ystafell haul a chodi estyniad ôl unllawr, codi garej ddwbl a stiwdio ar wahân. |
| EN1.16 | Bwcle - Little Mountain – Dobshill – Drury – Penarlâg - Ewloe | Rhoddwyd caniatâd cynllunio mewn perthynas â datblygiadau fel addasu annedd presennol, codi estyniad ochr unllawr a gosod ffenestr ddormer. Gwrthodwyd cais i godi stablau a chyfleusterau cysylltiedig yn sgil niwed i'r natur agored, yn amodol ar apêl ar ddyddiad sylfaenol yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). |

## Manwerthu a Chanol Trefi / Canolfannau Ardal

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI20 Colli unedau manwerthu mewn Prif Ardaloedd Siopa** | | | | | | | | |
| SO1<br>SO2<br>SO7<br>SO10 | STR9 | PE8 | Peidio â cholli unedau manwerthu sy'n groes i bolisi | Rhoi caniatâd yn groes i bolisi | Sicrhau bod Prif Ardaloedd Siopa yn cadw cymysgedd o unedau manwerthu a defnyddiau eraill sy'n cyfrannu at fywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau | Cynllunio CSFf/ Adfywio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio Archwiliadau Iechyd | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae'r Cynllun yn nodi 5 Prif Ardal Siopa sydd oll wedi'u lleoli o fewn canol trefi diffiniedig. Mae Polisi PE8 yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar feini prawf i asesu cynigion ar gyfer newid defnydd neu golli unedau manwerthu A1 mewn Prif Ardaloedd Siopa. Mae'r sefyllfa yn dilyn y 12 mis diwethaf wedi'i nodi ar gyfer pob Prif Ardal Siopa isod:

Y Fflint - Cais 463/25 dan ystyriaeth i newid defnydd 30 Heol yr Eglwys o ddefnydd A1 i bractis deintyddol D1.

Treffynnon - Cais 117/24 wedi'i gymeradwyo i newid defnydd 2 Heol Fawr drwy drawsnewid unedau manwerthu yn 3 annedd ar wahân. Ystyriwyd bod y cynllun yn dderbyniol gan fod yr eiddo yn Adeilad Rhestredig Gradd II ac wedi bod yn wag ers nifer o flynyddoedd, gyda'r uned fanwerthu wedi cael ei hysbysebu fel bod ar werth am gyfnod o dros 12 mis. Oherwydd y methiant i werthu'r eiddo hwn i'w ddefnyddio fel uned fanwerthu, teimlwyd bod cadw rhinwedd yr adeilad rhestredig gwag yn cyfiawnhau caniatáu newid defnydd.

Yr Wyddgrug - Cais 302/24 wedi'i gymeradwyo i newid defnydd uned 4 Canolfan Siopa Daniel Owen o A1 i A1 / A2 ac A3. Cais 913/23 wedi'i gymeradwyo i newid defnydd 32 Stryd Fawr o A1 i A3 i greu bar mewn eiddo gwag, a'r ddau'n unol â'r polisi.

Bwcle - Peidio â cholli unedau manwerthu A1 yn groes i bolisi
Shotton - Cais 079/24 wedi'i gymeradwyo i newid defnydd 62 Chester Road West o A1 i fod yn dŷ golchi hunanwasanaeth.

Felly mae'n amlwg bod y polisi'n gweithio'n effeithiol i geisio cadw unedau manwerthu presennol mewn Prif Ardaloedd Siopa yn unol â pholisi PE8. Er y nodir bod ambell i uned fanwerthu A1 wedi'u colli dros y 12 mis diwethaf, ar wahân i un cais a oedd yn newid y defnydd i fod yn eiddo preswyl, mae'r rhain i gyd wedi sicrhau defnydd newydd a ystyrir yn briodol i'r lleoliad canol tref ac a fyddai'n ychwanegu bywiogrwydd yn unol â PPW12 a PE8.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI21 Datblygiad manwerthu mawr newydd o fewn canolfannau diffiniedig** | | | | | | | | |
| SO1<br>SO2<br>SO7<br>SO10 | STR9 | PE7 | Pob datblygiad manwerthu mawr i fod o fewn canolfannau diffiniedig | Rhoi caniatâd y tu allan i ganolfannau diffiniedig | Sicrhau bod pob datblygiad manwerthu mawr yn digwydd o fewn canolfannau diffiniedig | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Ym mholisi PE7, mae'r Cynllun yn nodi 5 Canol Tref a 3 Canolfan Ardal (ill dau gyda ffiniau diffiniedig) a 21 Canolfan Leol heb ffin diffiniedig.

Yn ystod ray cyfnod ar ôl Covid, mae'r diwydiant manwerthu yn parhau i weithredu mewn amgylchedd heriol. Ni ddyrannodd y CDLl safleoedd ar gyfer datblygiad manwerthu nwyddau cyfleus na nwyddau cymharol yn fwriadol. Yn hytrach, mabwysiadodd ddull hyblyg lle gellid cyflwyno cynigion am ddatblygiadau manwerthu naill ai o ganlyniad i rymoedd y farchnad neu weithgareddau adfywio. Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun, nid oes unrhyw ddatblygiad manwerthu mawr wedi cael caniatâd cynllunio.

Er nad yw'n ddatblygiad manwerthu mawr (yng nghyd-destun TAN4), rhoddwyd caniatâd cynllunio ar 08/10/22 (dan 064445) i godi 12 o unedau (manwerthu, bwyd a diod) ar 3.45ha o dir ar Blot 2A ym Mhorth y Gogledd. Mae'r safle yn ganolfan siopa ardal

| |
|---|
| a ddynodir ym mholisi STR3A, sy'n rhan ganolog o Safle Strategol Porth y Gogledd. Mae Garden City hefyd wedi'i nodi'n Ganolfan Leol o fewn polisi PE7. Roedd y cynllun yn cynnwys 2117 metr sgwâr o arwynebedd llawr mewnol crynswth. Cymeradwywyd cais cynllunio dilynol 1017/23 am gartref gofal 66 gwely ar ran o'r safle (0.7a) ar 13/03/24, ac mae yna ddarpariaeth o hyd i sefydlu canolfan leol. Cymeradwywyd cais cynllunio 521/24 ar 25/10/24 ar gyfer archfarchnad Aldi fel rhan o ddatblygiad Porth y Gogledd, yn unol â pholisi STR3A. Cymeradwywyd datblygiad o 4 uned fwyd a manwerthu (209/24) ar safle'r hen Westy Gateway to Wales, Welsh Road, Garden City ar 01/10/24. |

| **Amcan y CDLl** | **Polisi Strategol** | **Polisïau i'w Monitro** | **Targed** | **Sbardun** | **Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun** | **Gweithredu** | **Ffynhonnell y Data** | **Cam Gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI22 Datblygiad manwerthu mawr newydd tu allan i ganolfannau diffiniedig** | | | | | | | | |
| SO10 | STR9 | PE11 | Dim caniatâd i ddatblygiadau manwerthu mawr yn groes i bolisi cenedlaethol | Rhoi caniatâd yn groes i bolisi cenedlaethol | Sicrhau bod pob datblygiad manwerthu mawr yn digwydd o fewn canolfannau diffiniedig | CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |
| Perfformiad y Polisi:<br><br>Nid oes unrhyw ddatblygiad manwerthu mawr wedi cael ei gymeradwyo y tu allan i ganolfannau diffiniedig a nodir yn yr hierarchaeth manwerthu. Mae polisïau manwerthu'r Cynllun yn seiliedig ar egwyddorion 'canol trefi'n gyntaf' PCC12 ac wedi cael eu gweithredu'n llym. | | | | | | | | |

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI23 Ymgymryd ag ymrwymiadau masnachol** | | | | | | | | |
| SO1<br>SO2<br>SO7<br>SO10 | STR9 | STR9 | Gweithredu caniatâd cynllunio manwerthu presennol | Caniatâd cynllunio yn dod i ben | Gallai peidio ag ymgymryd ag ymrwymiadau manwerthu presennol ganiatáu lle i ddatblygiadau manwerthu eraill | CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae'r Astudiaeth Fanwerthu (2019) a oedd yn sail i'r CDLl yn nodi'r ymrwymiadau manwerthu canlynol:

- Parc Manwerthu Saltney - 3,520 metr sgwâr o werthiant net (nwyddau cymharol). Sefydlwyd yn yr Archwiliad fod y caniatâd cynllunio hwn ar gyfer 5 uned fanwerthu (ger uned fanwerthu Go Outdoors) wedi dod i ben, ac adlewyrchir hyn yn y ffigwr a roddir ar gyfer yr angen am arwynebedd llawr ar gyfer nwyddau cymharol, sef 4028 metr sgwâr net, a nodir ym mharagraff 3.24 y testun atodol i bolisi STR9. Mae'r safle'n cael ei ddefnyddio fel man storio gan Lock Stock.
- Parc Manwerthu Sir y Fflint - 1,254 metr sgwâr (nwyddau cyfleus) - rhoddwyd caniatâd cynllunio ar 06/10/17 (dan 0572630) i godi unedau manwerthu newydd, ac mae'r rhain wedi cael eu hadeiladu.
- Ffordd Dinbych, Yr Wyddgrug - 483 metr sgwâr (nwyddau cymharol) - Roedd hwn yn ganiatâd cynllunio am uned fanwerthu fach ger y brif siop Lidl, wedi'i lleoli ar ochr Ffordd Dinbych safle siop Lidl yn yr Wyddgrug. O ystyried y cafodd siop Lidl ei hymestyn wedyn, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd lle i'r ail uned o fewn y safle.

Nid yw'r Cynllun yn nodi dyraniadau manwerthu o ganlyniad i'r angen eithaf bychan a nodwyd am arwynebedd llawr manwerthu nwyddau cymharol, a'r diffyg angen am arwynebedd llawr nwyddau cyfleus, ac mae hefyd yn adlewyrchu'r nifer fawr o ganol trefi a chanolfannau ardal yn y Sir. Byddai dyrannu safle mewn un ganolfan yn cyfyngu'n ormodol ar gyflwyno datblygiad manwerthu mewn canolfan arall. Mae nifer o fentrau dan arweiniad y Cyngor yn mynd rhagddynt, gan gynnwys paratoi Cynlluniau Creu Lleoedd mewn nifer o ganol trefi. Gellir cyflwyno datblygiad manwerthu addas mewn ymateb i'r mentrau hyn neu rymoedd y farchnad.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI24 Unedau manwerthu gwag** | | | | | | | | |
| SO1<br>SO2<br>SO7<br>SO10 | STR9 | PE9 | Lefelau unedau gwag yn gwella neu'n ddim gwaeth na'r lefelau yn Astudiaeth Adwerthu 2019 | Cynnydd yn lefelau'r unedau gwag | Sicrhau nad yw bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi a chanolfannau ardal yn cael ei niweidio gan unedau gwag | Cynllunio CSFf/ Adfywio CSFf | Arolygon Canol Tref a Chanolfannau Ardal | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Roedd Astudiaeth Fanwerthu 2019, a oedd yn sail i bolisïau a strategaeth fanwerthu'r CDLl, yn cynnwys mapiau a data GOAD ar gyfer mwyafrif y canol trefi a'r canolfannau ardal diffiniedig. Ar gyfer y canolfannau hyn, mae mapiau a data GOAD 2023 wedi cael eu casglu drwy'r ymgynghorwyr a gyflawnodd yr Astudiaeth Fanwerthu. Ar gyfer canol tref Bwcle a chanolfannau ardal Queensferry a Saltney, nid oes unrhyw fapiau na data GOAD, felly cynhaliwyd arolwg pwrpasol.

O ystyried cost casglu data GOAD a'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal arolwg canol trefi a chanolfannau ardal pwrpasol, ni ystyrir ei bod yn rhesymol nac yn angenrheidiol casglu ac adolygu'r data hwn bob blwyddyn. Byddai'n fwy realistig ei fonitro bob 2-3 blynedd. Byddai hyn hefyd yn ei gwneud yn bosib datblygu a monitro rhaglen bresennol y Cyngor o baratoi Cynlluniau Lleoedd a mentrau eraill. Am y rheswm hwn, nid oes unrhyw ddata monitro newydd ar gyfraddau unedau gwag wedi'i gynnwys yn AMB2.

Mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth o gyfraddau unedau gwag mewn canol trefi a chanolfannau ardal rhwng 2019 a 2023 ac yn achos Bwcle, Queensferry a Saltney, rhwng 2023 a 2024. Mae'n cymharu yn erbyn lefelau unedau gwag cyfartalog y DU, sef 12.37% yn 2019 a 15.5% yn 2023. Mae hyn yn awgrymu cynnydd graddol mewn cyfraddau unedau gwag ar draws y DU ers 2019, a allai fod wedi digwydd yn sgil effeithiau Covid. Mae'r data o'r arolwg manwerthu diweddaraf yn dangos bod y gyfradd unedau gwag yn Sir y Fflint yn gyson; gwelwyd gostyngiad yn nifer yr unedau gwag yn y Fflint ac nid welwyd newid yn yr Wyddgrug. Gwelodd canol trefi a chanolfannau ardal eraill rywfaint o gynnydd yn lefelau'r unedau gwag, ond arhosodd y rhan fwyaf o dan ganran cyfartalog y DU.

| **Canol Tref** | **Lefelau unedau gwag yn ôl Astudiaeth Fanwerthu 2019** | **% cyfanswm yr unedau** | **% y DU** | **Lefelau unedau gwag 2023 / Mehefin 2024** | **% cyfanswm yr unedau** | **% y DU** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwcle | amherthnasol | amherthnasol | 12.37 | 6 uned | 6.7 | 15.5 |
| Y Fflint | 13 uned | 12.15 | 12.37 | 11 uned | 12.4 | 15.5 |
| Treffynnon | 13 uned | 13.68 | 12.37 | 18 uned | 17.8 | 15.5 |
| Yr Wyddgrug | 23 uned | 10.85 | 12.37 | 23 uned | 10.5 | 15.5 |
| Shotton | 14 uned | 14.14 | 12.37 | 17 uned | 17.2 | 15.5 |

***Bwcle***
Nid oes data GOAD ar gael ar gyfer Bwcle yn 2019. Yn 2024, mae cyfanswm o 89 o unedau manwerthu/gwasanaeth o fewn ffin Canol Tref Bwcle a chyfanswm o 6 uned wag, sef cyfradd unedau gwag o 6.7%. Mae hyn yn is na chyfradd unedau gwag cyfartalog y DU.

***Y Fflint***
Dangosodd arolwg manwerthu'r Fflint yn 2019 gyfanswm o 107 uned, gydag 13 ohonynt yn wag. Dangosodd arolwg 2023 bod cyfanswm o 89 uned, gydag 11 ohonynt yn wag. Gwelwyd gostyngiad o 2 uned wag, sef cyfradd unedau gwag o 12.4%, sy'n is na chyfartaledd y DU.

***Treffynnon***
Yn ôl arolwg manwerthu Treffynnon yn 2019, roedd cyfanswm o 95 uned, gydag 13 uned wag, a dangosodd arolwg 2023 gyfanswm o 101 uned, gyda 18 uned wag. Mae hyn yn awgrymu cynnydd yn yr unedau manwerthu ond gwelwyd cynnydd hefyd mewn unedau gwag; mae yna gynnydd o 6 uned fanwerthu a chynnydd o 5 uned wag. Mae hyn yn rhoi cyfradd unedau gwag o 17.8%, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU.

***Yr Wyddgrug***
Yn arolwg manwerthu'r Wyddgrug yn 2019, gwelwyd cyfanswm o 212 o unedau manwerthu, gyda 23 ohonynt yn wag. Dangosodd arolwg manwerthu 2023 gyfanswm o 219 uned, gyda 23 ohonynt yn wag. Golyga hyn bod cynnydd o 7 uned fanwerthu a dim newid yn yr unedau gwag, sy'n rhoi cyfradd unedau gwag o 10.5%, sy'n is na chyfartaledd y DU.

***Shotton***
Yn ôl arolwg manwerthu Shotton yn 2019, roedd yna gyfanswm o 99 uned a 14 o unedau gwag. Dangosodd arolwg 2023 nad oedd unrhyw newid yn nifer yr unedau manwerthu ond bod yna gynnydd o 3 uned wag, sef cyfradd unedau gwag o 17.2%, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU.

| Canolfan Ardal | Lefelau unedau gwag yn ôl Astudiaeth Fanwerthu 2019 | % cyfanswm yr unedau | % y DU | Lefelau unedau gwag 2023 / Mehefin 2024 | % cyfanswm yr unedau | % y DU |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cei Connah | 6 uned | 17.65 | 12.37 | 9 uned | 25.7 | 15.5 |
| Queensferry * | amherthnasol | amherthnasol | 12.37 | 8 uned | 12.3 | 15.5 |
| Saltney | amherthnasol | amherthnasol | 12.37 | 1 uned | 5.9 | 15.5 |

*Data wrthi'n cael ei gasglu

***Cei Connah***
Dangosodd arolwg manwerthu Cei Connah yn 2019 yn dangos bod cyfanswm o 34 uned, gyda 6 o unedau gwag. Mae canlyniadau'r arolwg manwerthu diweddaraf yn dangos cyfanswm o 35 uned, gyda 9 ohonynt yn wag, sef canran o 25.7%, sy'n uwch na chyfartaledd y DU.

***Queensferry***
Mae yna gyfanswm o 65 uned o fewn ffin y Ganolfan Ardal, gydag 8 ohonynt yn wag. Mae'r gyfradd unedau gwag o 12.3% yn is na chyfartaledd y DU.

***Saltney***
Mae yna gyfanswm o 17 uned o fewn ffin Canolfan Ardal Saltney. Mae yna 1 uned wag sy'n rhoi cyfradd unedau gwag o 5.9%, sy'n is na chyfradd unedau gwag cyfartalog y DU.

| Canolfan Siopa Brychdyn | Lefelau unedau gwag yn ôl Astudiaeth Fanwerthu 2019 | % cyfanswm yr unedau | % y DU | Lefelau unedau gwag ym Mehefin 2024 yn ôl Astudiaeth Fanwerthu 2023 | % cyfanswm yr unedau | % y DU |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 4 | 9.30 | 12.37 | 3 | 6.4 | 15.5 |

***Brychdyn***
Er nad yw Brychdyn yn ganolfan ddiffiniedig o fewn Hierarchaeth Manwerthu'r CDLl, mae'n fuddiol ar gyfer monitro cyfraddau unedau gwag. Mae Parc Siopa Brychdyn yn gyrchfan fanwerthu allweddol o fewn y Sir ac felly mae'n bwysig monitro ei iechyd. Mae'r data'n dangos bod lefelau'r unedau gwag wedi gostwng ers arolwg manwerthu 2019; mae'r 4 uned wag yn rhoi canran o 6.4%, sy'n is na chyfartaledd y DU.

### Cyfleusterau Cymunedol

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI25 Colli cyfleusterau cymunedol** | | | | | | | | |
| Mannau Ymgynnull a Hamdden | STR6 | PC12 | Peidio â cholli cyfleusterau cymunedol oni bai fod hynny'n unol â pholisi | Rhoi caniatâd nad yw'n unol â pholisi | Sicrhau bod cyfleusterau cymunedol lleol yn cael eu cadw pan fo hynny'n bosib | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae Polisi PC12 yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar feini prawf i fynd i'r afael â cholli cyfleusterau cymunedol.

Cymeradwywyd 2 gais cynllunio i newid defnydd, ill dau'n newid o fod yn dai tafarn defnydd A3 i ddefnydd preswyl, ac aseswyd bod y ddau'n cydymffurfio â'r polisi;

COU/001028/23 Tavern Inn, Alltami, Yr Wyddgrug, CH7 6LG

COU/001108/24 Eglwys Sant Ffransis, Chester Road, Sandycroft, Glannau Dyfrdwy, CH5 2QW

Cafwyd cais i newid defnydd tŷ tafarn yn siop nwyddau cyfleus gyda thrwydded gwerthu alcohol, a wrthodwyd. COU/000240/24 Hand Inn, Church Lane, Y Waun. Ystyriwyd fod yr egwyddor yn dderbyniol, ond gwrthodwyd y cais ar sail dyluniad, darpariaeth barcio a diogelwch y briffordd.

## Datblygiad Mwynau

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI26 Graddfa'r agregau crai o'r tir a ganiateir fel % o gyfanswm y capasiti gofynnol** | | | | | | | | |
| SO9<br>SO13<br>SO19 | STR16 | | Dim targed | Dim sbardun | Sicrhau bod y Cynllun yn darparu'r agregau angenrheidiol | CSFf Gweithredwyr | Y Gofrestr Gynllunio / Adroddiad Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru<br>Ail adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol a'r atodiad cysylltiedig ar gyfer gogledd Cymru | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae Polisi STR16 sy'n berthnasol i'r dangosydd monitro yn gofyn am gyfraniad i'r cyflenwad rhanbarthol o fwynau drwy ddyrannu 3.543 miliwn o dunelli o dywod a graean ac o leiaf 35.928 miliwn o dunelli o greigiau mâl. Caiff hyn ei gyflawni trwy ehangu chwareli presennol, fel y nodir ym Mholisi EN25, safleoedd newydd, ac mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Llwyddodd yr estyniad i Chwarel Hendre, a chydgrynhoi ceisiadau, i gynyddu'r cronfeydd wrth gefn o 19.866Mt. Mae hyn yn uwch nac amcangyfrif y cynllun a oedd yn disgwyl tua 11Mt o galchfaen. Felly, adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae tua 55% o gyfanswm y capasiti ar gyfer creigiau mâl sydd ei angen dros gyfnod y cynllun wedi cael ei ddarparu.

| |
|---|
| Nid oes unrhyw ganiatâd newydd (a fyddai'n darparu mwynau ychwanegol i'r banc tir) wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer chwareli tywod a graean.<br><br>Yn unol â'r 'Datganiad o Gydweithrediad Is-ranbarthol' (Ebrill 2021), a baratowyd ac a gefnogwyd ar y cyd gan Gyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, byddai unrhyw angen yn cael ei gyflenwi ar lefel is-ranbarthol.<br><br>Mae'r Adroddiad Blynyddol diweddaraf (sy'n adrodd ar werthiannau a chronfeydd wrth gefn o fwynau agregau yn y rhanbarth), a gyhoeddwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn cyflwyno data o 2023. Yn unol â'r adroddiad, mae yna fanc tir 18 mlynedd o greigiau mâl is-ranbarthol. Ar gyfer tywod a graean ar draws gogledd Cymru, mae yna fanc tir 15 mlynedd. |

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI27 Cyfanswm y cronfeydd tywod a graean/craig galed wrth gefn** | | | | | | | | |
| SO9<br>SO13<br>SO19 | STR16 | STR16 | Cynnal banc tir 10 mlynedd ar gyfer craig galed a 7 mlynedd ar gyfer tywod a graean | Mae'r banc tir yn mynd yn is na 7/10 mlynedd | Sicrhau y gellir cynnal cronfeydd mwynol digonol wrth gefn | CSFf / CBSW Gweithredwyr | Y Gofrestr Gynllunio / Adroddiad Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru<br>Ail adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol a'r atodiad cysylltiedig ar gyfer gogledd Cymru | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae’r dangosydd monitro yn ymwneud â chronfeydd o dywod a graean a chraig galed. Mae targed o gynnal banc tir 10 mlynedd ar gyfer craig galed a 7 mlynedd ar gyfer tywod a graean wedi’i bennu, a’r sbardun yw pan fydd y banc tir yn mynd yn is na 7/10 mlynedd.

Yn unol â’r ‘Datganiad o Gydweithrediad Is-ranbarthol’ (Ebrill 2021), a baratowyd ac a gefnogwyd ar y cyd gan Gyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, byddai unrhyw angen yn cael ei gyflenwi ar lefel is-ranbarthol.

Mae’r Adroddiad Blynyddol diweddaraf (sy’n adrodd ar werthiannau a chronfeydd wrth gefn o fwynau agregau yn y rhanbarth), a gyhoeddwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn cyflwyno data o 2023. Yn unol â’r adroddiad, mae yna fanc tir 18 mlynedd o greigiau mâl is-ranbarthol. Ar gyfer tywod a graean ar draws gogledd Cymru, mae yna fanc tir 15 mlynedd.

Yn seiliedig ar y ffigyrau hyn, mae’r targedau’n cael eu cyrraedd ar gyfer y polisi.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i’w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a’r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI28 Echdynnu mwynau o safleoedd dyranedig** | | | | | | | | |
| SO9<br>SO13<br>SO19 | STR16 | EN25 | Dim targed | Dim sbardun | Sicrhau bod y safleoedd dyranedig yn cael eu cyflwyno | CSFf<br>CBSW<br>Gweithredwyr | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:
Mae’r dangosydd monitro yn ymwneud ag echdynnu o safleoedd dyranedig, sef estyniadau i: Chwarel Hendre, Chwarel Pant y Pwll Dŵr, Chwarel Ddôl Uchaf a Chwarel Fron Haul.

Mae caniatâd cynllunio cyf: 062110, a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2021, yn caniatáu estyniad i Chwarel Hendre gan ddarparu tua 19.866Mt o galchfaen.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI29 Colli ardal o dir i ddatblygiad heb fod yn gysylltiedig â mwynau o fewn Ardaloedd Diogelu Mwynau** | | | | | | | | |
| SO9<br>SO13<br>SO19 | STR16 | EN23 | Peidio â cholli mwynau oni bai fod hynny'n unol â'r polisi | Unrhyw dir yn cael ei golli i ddatblygiad amhriodol, nad yw'n unol â'r polisi | Monitro effeithiolrwydd y polisi o ran diogelu cronfeydd mwynau wrth gefn. | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae'r dangosydd monitro'n ymwneud â'r ardal o dir a gollir i ddatblygiad heb fod yn gysylltiedig â mwynau o fewn Ardaloedd Diogelu Mwynau. Pennwyd targed o beidio â cholli mwynau oni bai fod hynny'n unol â'r polisi, a'r sbardun yw pan fydd unrhyw dir yn cael ei golli i ddatblygiad amhriodol nad yw'n unol â'r polisi.

Mae'r gofrestr gynllunio'n nodi bod 156 o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo o fewn y dynodiad Diogelu Mwynau ar y map cynigion ers 1 Ionawr 2024. Ar y cyfan, ceisiadau yw'r rhain am fân ddatblygiadau neu ddatblygiadau ar raddfa fach, gan gynnwys estyniadau ac addasiadau domestig, mynediad i gerbydau a pharcio, a datblygiadau sy'n ymwneud â thwristiaeth a mentrau gwledig, ac ni ystyrir bod yr un o'r rhain yn codi problemau o ran diogelu mwynau na pholisi EN23.

Mae Polisi EN23 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cais am ddatblygiad mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau, ac eithrio ceisiadau deiliaid tai, gael ei gefnogi gan Asesiad Diogelu Mwynau.

O'r ceisiadau am ddatblygiad sy'n dod o dan y meini prawf uchod, dim ond 10 cais a gefnogwyd gan asesiad. Awgryma hyn bod angen arweiniad pellach o ran pryd y mae angen a phryd nad oes angen asesiad diogelu mwynau.

Er mwyn sicrhau bod polisi EN23 yn effeithiol, argymhellir bod gofynion ar gyfer cyflwyno Asesiadau Diogelu Mwynau / Asesiadau Echdynnu Ymlaen Llaw yn cael eu nodi o fewn unrhyw Restr Gofynion Dilysu Lleol.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI30 Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd ar gyfer datblygiad sensitif mewn parthau clustogi** | | | | | | | | |
| SO9<br>SO13<br>SO19 | STR16 | EN24 | Dim caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sensitif o fewn parth clustogi oni bai ei fod yn unol â pholisi cenedlaethol | Caniatáu un neu fwy o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sensitif heb fod yn unol â pholisi cenedlaethol | Monitro effeithiolrwydd y polisi | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae'r dangosydd monitro'n ymwneud â nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd ar gyfer datblygiad sensitif mewn parthau clustogi. Pennwyd targed o beidio â rhoi unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sensitif o fewn parth clustogi, oni bai ei fod yn unol â pholisi cenedlaethol, a'r sbardun yw pan fydd un neu fwy o geisiadau'n cael eu caniatáu ar gyfer datblygiad heb fod yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae dadansoddiad o geisiadau cynllunio yn dangos na roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sensitif o fewn y Parthau Clustogi Mwynau ar y mapiau cynigion.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI31 Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd i reoli agregau eilaidd ac agregau wedi'u hailgylchu** | | | | | | | | |
| SO9<br>SO13<br>SO19 | STR16 | EN27 | Dim targed | Dim sbardun | Darparu tystiolaeth o'r angen am gyfleusterau o'r fath | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Ni chafwyd unrhyw ganiatâd newydd ar gyfer rheoli agregau eilaidd nac agregau wedi'u hailgylchu.

## Datblygu Gwastraff

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI32 Datblygiad o fewn parth clustogi tirlenwi** | | | | | | | | |
| S05 | STR15 | EN20 | Dim caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sensitif / amhriodol o fewn parth clustogi tirlenwi | Caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sensitif | Sicrhau nad yw gweithrediad y safle tirlenwi sydd wedi'i ganiatáu yn Alltami yn cael ei beryglu | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |
| Perfformiad y Polisi:<br><br>Mae'r dangosydd monitro'n ymwneud â cheisiadau cynllunio a ganiatawyd o fewn y parth clustogi. Pennwyd targed i beidio â rhoi unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sensitif / amhriodol o fewn y parth clustogi, a'r sbardun yw pan fydd un neu fwy o geisiadau'n cael eu caniatáu ar gyfer datblygiad sensitif.<br><br>Mae'r Cynllun yn nodi un Parth Clustogi Tirlenwi yn Chwarel Parry, Alltami. Cyflwynwyd / penderfynwyd ar gyfanswm o 5 cais o fewn y parth clustogi ers 01.01.2024. O adolygu'r ceisiadau, gwelwyd na fyddai unrhyw un yn caniatáu datblygiad sensitif / amhriodol o fewn y parth clustogi tirlenwi. | | | | | | | | |

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI33 Nifer y safleoedd a nodwyd ar gyfer rheoli gwastraff** | | | | | | | | |
| SO5 | STR15 | EN21 | Dim targed | Dim sbardun | Monitro a yw'r safleoedd a nodwyd yn datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |
| Perfformiad y Polisi: | | | | | | | | |

Mae Polisi EN21 yn dyrannu 19 o safleoedd yr ystyrir eu bod yn dderbyniol mewn egwyddor ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff, ond nad ydynt yn ddyraniadau. Yn ystod y 12 mis ers mabwysiadu'r cynllun, nid oes unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff wedi dod i law, ond mae gan fwyafrif y safleoedd hyn gyfleusterau rheoli gwastraff yn barod ac mae gan rai ganolfannau ailgylchu gwastraff cartref a weithredir gan y Cyngor. Drwy nodi lleoliadau o'r fath, mae'r polisi'n ceisio cyfeirio datblygiadau newydd sy'n ymwneud â gwastraff tuag at y lleoliadau hyn, yn ogystal â diogelu busnesau presennol.

Ers mabwysiadu'r cynllun, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cael unrhyw geisiadau ar gyfer defnydd rheoli gwastraff newydd.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI34 Nifer y safleoedd eraill heb eu nodi ar gyfer rheoli gwastraff** | | | | | | | | |
| SO5 | STR15 | EN22 | Dim targed | Dim sbardun | Monitro a yw cynigion rheoli gwastraff yn codi y tu allan i'r safleoedd a nodwyd | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae'r dangosydd monitro'n ymwneud â nifer y safleoedd ar gyfer rheoli gwastraff sydd heb eu nodi o fewn polisi EN21. Nid oes unrhyw safleoedd rheoli gwastraff wedi cael eu cyflwyno. Ers yr adolygiad diwethaf, mae estyniad i safle presennol wedi cael ei gymeradwyo. Nid oes unrhyw ddarpariaeth bolisi benodol sy'n ymwneud ag estyniadau i safleoedd presennol.

## Isadeiledd Gwyrdd

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI35 Isadeiledd Gwyrdd** | | | | | | | | |
| SO17 | STR13 | EN2 | Dim targed | Dim sbardun | Sicrhau bod datblygiadau newydd yn diogelu, yn gwella neu'n creu isadeiledd gwyrdd | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio Diweddariad yr Asesiad Isadeiledd Gwyrdd | Bellach yn ofyniad statudol |
| Perfformiad y Polisi:<br><br>Mae polisïau'r Cynllun yn ceisio sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth, isadeiledd gwyrdd a choed, coetir a gwrychoedd. Fodd bynnag, ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at bob Pennaeth Cynllunio ar 11 Hydref 2023 i'w hysbysu y byddai diwygiadau i PCC mewn perthynas â'r buddion net ar gyfer bioamrywiaeth, isadeiledd gwyrdd a diogelu coed a choetir, yn cael eu rhoi ar waith ar unwaith. Roedd atodiad yn cyd-fynd â'r llythyr a oedd yn nodi newidiadau manwl i PCC11 i'w cynnwys yn PCC12. Mae'r angen am fuddion net, neu 'welliannau' fel y'u diffinnir mewn polisïau, bellach yn ofyniad statudol ac yn cael ei adlewyrchu yn PCC12. Mae hyn bellach yn ofyniad ar gyfer pob cynnig datblygu newydd, yn gymesur â'r datblygiad arfaethedig, ac yn trechu monitro polisi. Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi nodyn cyngor ar Fuddion Net Bioamrywiaeth / isadeiledd gwyrdd / coed, coetir a gwrychoedd, a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd. I bob pwrpas, mae digwyddiadau wedi trechu'r dangosydd monitro hwn. | | | | | | | | |

## Isadeiledd Cerdded a Beicio

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI36 Faint o isadeiledd cerdded a beicio sydd wedi'i roi ar waith fel rhan o ganiatâd cynllunio** | | | | | | | | |
| SO4 SO7 SO17 | STR5 | PC6 | Cynnydd yn nifer y cynlluniau a roddir ar waith | Dim cynlluniau'n cael eu cyflawni dros ddwy | Monitro a yw caniatâd cynllunio'n | Awdurdod Priffyrdd Lleol | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | flynedd yn olynol | cyflawni'r gwelliannau y mae'r polisïau'n eu ceisio | a Gwasanaeth Cynllunio CSFf | Adolygiad Teithio Llesol | |

Perfformiad y Polisi:

Mae polisi PC6 yn ceisio sicrhau y gall bod pobl gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, a dylai datblygiadau newydd ddarparu llwybrau a chyfleusterau ar gyfer cerdded a beicio lle bynnag y bo hynny'n bosib. Yn amlwg, bydd hyn yn dibynnu ar leoliad, math a graddfa'r datblygiad, a dylai fod yn gymesur yn ei ymateb. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn hyrwyddo ei fenter Teithio Llesol, wedi'i seilio ar ei Fap Rhwydwaith Teithio Llesol. Nid yw hwn yn cynnwys pob anheddiad ac ardal yn y Sir, ond mae'n cynnwys yr aneddiadau a'r ardaloedd cyflogaeth allweddol. Mae cyfle amlwg i lwybrau a chyfleusterau cerdded a beicio a sicrheir drwy ddatblygiad newydd gysylltu â'r Llwybrau Teithio Llesol, p'un a ydynt yn rhai presennol neu arfaethedig. Yn ystod y cyfnod ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, mae nifer o ddyraniadau tai'r Cynllun wedi sicrhau caniatâd cynllunio (neu benderfyniad y Cyngor i'w mabwysiadu) ac mae pob cynllun yn ceisio hyrwyddo cludiant cynaliadwy fel a ganlyn:

STR3A Porth y Gogledd - Mae'r safle hwn yn ddatblygiad defnydd cymysg strategol sy'n cynnwys tai, cyflogaeth a chyfleusterau lleol o fewn rhwydwaith isadeiledd gwyrdd strwythuredig. Mae'r safle wedi'i leoli rhwng anheddiad Garden City a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Mae llwybr beicio a llwybr troed yn rhedeg gydag Afon Dyfrdwy ar hyd ochr ddeheuol y safle ac mae Llwybr Beicio Mileniwm Sustrans yn rhedeg ar hyd ochr ddwyreiniol a gogledd y safle. Mae'r rhain yn llunio fframwaith strategol o lwybrau a fydd yn cysylltu â llwybrau o fewn y safle. Bydd y rhwydwaith o lwybrau yn galluogi mynediad at gyflogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau lleol a chyfleoedd hamdden ar hyd yr Afon Dyfrdwy.

HN1.1 Well Street, Bwcle - Penderfyniad y pwyllgor i gymeradwyo cynllun amlinellol yn amodol ar a106. Mae'r cynllun sydd wedi'i gymeradwyo yn cysylltu â hawl tramwy cyhoeddus presennol ger y safle, ac mae'n agos at lwybrau Teithio Llesol presennol / arfaethedig rhwng yr Wyddgrug, Mynydd Isa a Bwcle.

HN1.3 Highmere Drive, Cei Connah - Mae'r cynllun sydd wedi'i gymeradwyo yn ymgorffori llwybr cerdded / beicio drwy fan gwyrdd presennol a llwybr yn cysylltu Pembry Rise a Courbet Drive. Gall hwn gysylltu â llwybrau Teithio Llesol eraill yng Nghei Connah.

HN1.6 Ffordd Dinbych / Gwernaffield Road, Yr Wyddgrug Mae'r cynllun yn ymgorffori llwybr cerdded / beicio ar hyd Factory Pool Road ac yn cysylltu â chynllun Teithio Llesol MO13.

HN1.8 Ash Lane, Penarlâg – Mae'r cynllun yn cysylltu â llwybrau Teithio Llesol arfaethedig  MA8, 6, 3, 7 a 2.

HN1.9 Ffordd Wrecsam, Abermor-ddu – Mae'r cynllun yn cynnwys llwybr cerdded sy'n cysylltu â'r ardal chwarae ac ysgol gerllaw, drwy fan gwyrdd.

HN1.10 Cae Isa, Pentre Cythrel – Mae'r cynllun yn cynnwys gwell cyfleusterau croesi er mwyn hwyluso llwybr cerdded mwy diogel drwodd i Mynydd Isa a'r ysgol newydd.

### Cynlluniau Ffordd

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI37 Gweithredu cynlluniau ffordd** | | | | | | | | |
| SO4<br>SO7 | STR5 | PC10 | Dim targed | Dim sbardun | Monitro a yw'r cynlluniau ffordd (a ddiogelir yn y Cynllun) yn cael eu cyflawni. | Priffyrdd Llywodraeth Cymru<br>Priffyrdd CSFf | Y Gofrestr Gynllunio<br>Adolygiad Cynllun Cludiant Lleol<br>Rhaglen drafnidiaeth Llywodraeth Cymru | Parhau i fonitro / archwiliad pellach |

Perfformiad y Polisi:

Mae polisi PC10 yn diogelu tir ar y Map cynigion ar gyfer y pum cynllun ffordd a nodir isod.

Mae cyhoeddiad Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dull diwygiedig o roi cynlluniau gwella ffyrdd neu ffyrdd newydd ar waith yng Nghymru. Mae'r pwyslais bellach ar gael cynlluniau i beidio tanseilio'r targedau rhannu dulliau teithio o ganlyniad i fwy o ddibyniaeth ar geir, ac i beidio amharu ar gyflawniad targedau lleihau carbon Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi

| | |
|---|---|
| arwain yn uniongyrchol at benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â symud ymlaen gyda'r Llwybr Coch ac at y Cyngor yn ailystyried nifer o'i gynlluniau ffordd. Cafodd y cynlluniau mwy lleol hyn eu diogelu yn y CDLl am yr unig reswm eu bod wedi cael eu dynodi mewn Cynlluniau Cludiant Lleol neu am eu bod yn ymrwymiadau presennol, yn hytrach nag am eu bod yn gydran allweddol o Strategaeth y Cynllun a'r dyraniadau datblygu. Ystyrir bod y cynlluniau'n annhebygol o symud ymlaen fel y rhagwelwyd ym mholisi PC10, ond ni ystyrir hyn yn niweidiol i gyflawniad strategaeth dwf y CDLl gan nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag unrhyw ddyraniad penodol. Mae'r Cyngor yn dal i ystyried ei safbwynt ar bob cynllun, a bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol. Mae strategaeth a pholisi trafnidiaeth hefyd yn cael eu datblygu ar sail ranbarthol gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ffurf y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft, ac mae sylwadau i'w gweld isod mewn perthynas â phob un o'r cynlluniau. | |
| i) | Gwelliannau A494(T) / A55(T) / A548 Llaneurgain i Gyfnewidfa Shotwick<br>Ni fydd Llywodraeth Cymru bellach yn symud ymlaen â'r cynllun hwn, a adnabyddir yn fwy cyffredin fel y Llwybr Coch, ac fe grynhoir y rhesymeg am hynny yn y datganiad hwn "Ni ddylid symud ymlaen â'r cynllun. Nid yw'r achos dros newid yn cydweddu'n dda â nod Llywodraeth Cymru i leihau milltiroedd ceir. Byddai'r cynllun yn cynyddu capasiti ceir preifat ac yn arwain at newid dull teithio o gludiant cyhoeddus i deithio â cheir, a byddai hyn yn tanseilio'r targed i gynyddu dulliau teithio cynaliadwy." Nid oedd y cynllun yn rhan allweddol o strategaeth ofodol / twf y Cynllun ac ni fydd peidio â symud ymlaen â'r cynllun yn amharu ar weithrediad y Cynllun. Fodd bynnag, cynigir adolygu hyn fel y nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yr ymgynghorwyd arno'n ddiweddar gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae Dyhead 3 y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn nodi y 'Dylid adolygu'r achos dros gyflawni rhai cynlluniau priffyrdd strategol sydd wedi'u hoedi, yn enwedig lle gall y cynlluniau hyn ddarparu manteision ehangach a gwella cyfleusterau ar gyfer teithio cynaliadwy. Coridor yr A494/A55/Sir y Fflint a'r A483 Wrecsam yw'r llwybrau blaenoriaeth'. |
| ii) | Ffordd Gyswllt Plough Lane<br>Mae'r cynllun hwn yn cysylltu'n agos â'r Llwybr Coch a nodir yn i) uchod. O ystyried penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â symud ymlaen gyda'r Llwybr Coch, mae'n annhebygol y bydd y gwelliannau ffordd lleol hyn yn cael eu datblygu gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n bosib i'r llwybr gael ei ddatblygu fel llwybr cerdded / beicio teithio llesol. Ni ystyrir y bydd y ffaith nad yw'r cynllun ffordd bellach yn mynd rhagddo yn arwain at oblygiadau ar gyfer Strategaeth y Cynllun nac ar gyfer darparu datblygiadau tai a chyflogaeth. Ni chyfeirir at y cynllun yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yr ymgynghorwyd arno'n ddiweddar gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. |
| iii) | A548 Maes-glas i Ffynnongroyw<br>O ystyried y rhesymeg dros gynlluniau ffordd yng Nghymru, fel y nodir yn yr Adolygiad Ffyrdd, mae'n annhebygol y bydd y cynllun hwn yn cael ei ddatblygu gan y Cyngor. Ni fydd hyn yn arwain at oblygiadau ar gyfer Strategaeth y Cynllun nac ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer darparu datblygiadau tai a chyflogaeth. Ni chyfeirir at y cynllun yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yr ymgynghorwyd arno'n ddiweddar gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. |
| iv) | A5104 Gorsaf Pen-y-ffordd i Gyffordd Padeswood<br>O ystyried y rhesymeg dros y cynllun ffordd yng Nghymru, fel y nodir yn yr Adolygiad Ffyrdd, mae'n annhebygol y bydd y cynllun hwn yn cael ei ddatblygu gan y Cyngor. Ni fydd hyn yn arwain at oblygiadau ar gyfer Strategaeth y Cynllun nac ar gyfer darparu datblygiadau tai a chyflogaeth. Ni chyfeirir at y cynllun yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yr ymgynghorwyd arno'n ddiweddar gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. |
| v) | A494(T) Gwelliant Ewloe i'r Afon Dyfrdwy - mae'r cynllun hwn yn cynnwys gwella croesfan yr A494(T) dros yr Afon Dyfrdwy ac mae'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn dyddiad sylfaenol yr AMB2 hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru pa lwybr yr oedd yn ei ffafrio ar 06/06/25, sef dewis 5. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn gweithio ar Orchmynion drafft a Datganiad Amgylcheddol, a bydd yn ymgynghori ar y rhain yn nhymor yr Hydref 2025. Mae disgwyl i'r gwaith adeiladu gychwyn tua diwedd 2026 i ddechrau 2027. Ni chyfeirir at y cynllun yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yr ymgynghorwyd arno'n ddiweddar gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae Dyhead 2 y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn nodi y 'Dylid amnewid Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 er mwyn sicrhau dibynadwyedd parhaus symudiadau traws-ffiniol hanfodol'. |

## Datblygiad a Thir Cyflogaeth

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI38 Colli tir cyflogaeth i ddefnyddiau eraill** | | | | | | | | |
| SO8<br>SO9 | STR7<br>STR8 | PE6 | Peidio â cholli tir cyflogaeth oni bai fod hynny'n unol â'r polisi | Rhoi caniatâd i golli tir cyflogaeth heb fod yn unol â'r polisi | Cadw ardaloedd allweddol o'r Sir ar gael fel tir cyflogaeth posib neu bresennol. | CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |
| Perfformiad y Polisi:<br><br>Mae polisi PE6 yn ceisio diogelu adeiladau a thir cyflogaeth presennol o fewn safleoedd dyranedig a'r Prif Ardaloedd Cyflogaeth yn ogystal â mannau eraill yn y Sir. | | | | | | | | |

Pwrpas dyraniadau cyflogaeth yw darparu tir wedi'i glustnodi'n benodol ar gyfer datblygiad cyflogaeth sy'n cynnwys defnyddiau B1 - defnydd busnes, B2 - diwydiant cyffredinol a B8 - storio a dosbarthu. Mae'r ddau ddyraniad cyflogaeth strategol a'r chwe safle heb fod yn strategol wedi cael eu hasesu o ran colli tir cyflogaeth i ddefnyddiau eraill dros y 12 mis diwethaf, ac nid yw'n syndod na chafodd unrhyw ganiatâd cynllunio o'r fath ei gymeradwyo.

Pwrpas Prif Ardaloedd Cyflogaeth yw canfod ardaloedd neu stadau diwydiannol presennol lle mae eu prif ddefnydd yn cael ei ddiffinio fel defnydd cyflogaeth o fewn B1, B2 a B8. Ar un llaw, mae polisi PE2 yn ceisio diogelu defnydd cyflogaeth presennol rhag defnydd neu ddatblygiad amhriodol, ac ar y llaw arall, mae'n sefydlu'r egwyddor ehangach bod datblygiad cyflogaeth pellach yn dderbyniol o'u mewn. Mae polisi PE6 yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn asesu unrhyw gynigion sy'n arwain at golli adeiladau a thir cyflogaeth. Mae'r 30 o Brif Ardaloedd Cyflogaeth wedi cael eu hasesu, ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw enghreifftiau o ganiatâd cynllunio yn arwain at golli adeiladau neu dir cyflogaeth, yn groes i bolisi PE6. Mae pob cynnig yn cael ei ystyried ar ei rinwedd eu hun, ac mae enghreifftiau'n bodoli lle mae defnyddiau fel campfeydd a chanolfannau ffitrwydd, siopau nwyddau cyfleus, caffis a siopau bwyd i fynd, canolfannau chwarae plant, meithrinfeydd dydd plant a safleoedd teithwyr / sipsiwn wedi cael caniatâd cynllunio, pan fo hynny'n unol â gofynion polisi, heb niweidio swyddogaeth, cymeriad nac ymddangosiad sylfaenol y Brif Ardal Gyflogaeth.

Derbynnir y bydd adeiladau a thir cyflogaeth annibynnol eraill yn y Sir, ond nid oes gan y Cyngor unrhyw ddata am hyn ar hyn o bryd na'r gallu i fonitro unrhyw golledion. Ni ystyrir y byddai hyn yn sylweddol o ran graddfa nac effeithiau. Byddai ceisiadau cynllunio o'r fath yn cynnwys ymgynghoriad mewnol gyda'r Tîm Polisi, gan alluogi iddo wneud sylwadau polisi i nodi a yw'r defnydd arfaethedig a cholled yr adeilad / tir cyflogaeth yn cydymffurfio â'r polisi.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI39 Datblygiad Cyflogaeth y tu allan i ddyraniadau / Prif Ardaloedd Cyflogaeth** | | | | | | | | |
| SO8<br>SO9 | STR7<br>STR8 | P3 | Dim targed | Dim sbardun | Monitro datblygiadau cyflogaeth yn erbyn y nod o sicrhau mai prif | CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ffocws y Cynllun ar gyfer datblygiad cyflogaeth yw dyraniadau / Prif Ardaloedd Cyflogaeth. | | | |

Perfformiad y Polisi:

Mae'r fframwaith polisi yn y Cynllun yn ceisio cyfeirio datblygiadau cyflogaeth newydd i ddyraniadau cyflogaeth (PE1) ac i Brif Ddyraniadau Cyflogaeth (PE2). Yna mae polisi PE3 yn caniatáu datblygiadau newydd mewn lleoliadau eraill fel a ganlyn:

- Ar dir o fewn y ffin anheddiad diffiniedig
- Drwy drawsnewid adeiladau presennol mewn cefn gwlad agored
- Drwy ddatblygu tir ar ymyl ffiniau anheddiad Haen 2, 3 a 4 (dull polisi o 'eithriadau')

Nid yw'r Tîm Polisi'n mynd ati i fonitro ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau cyflogaeth y tu allan i ddyraniadau cyflogaeth neu Brif Ardaloedd Cyflogaeth. Mae ceisiadau cynllunio o'r fath yn tueddu i fod ar raddfa eithaf bach ac fel arfer nid ydynt yn codi pryderon polisi. Os bydd datblygiad mwy neu ddatblygiad newydd gwahanol yn cael ei gynnig, yna byddai'r Tîm Polisi'n cynnal ymgynghoriad mewnol er mwyn sicrhau y gellid darparu sylwadau polisi am y cais cynllunio.

**Mannau Agored**

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI40 Colli mannau agored, chwaraeon a hamdden i ddatblygiadau newydd** | | | | | | | | |
| SO1<br>SO4<br>SO7<br>SO17<br>SO18 | STR13 | EN1 | Peidio â'u colli oni bai fod hynny'n unol â'r polisi | Rhoi caniatâd yn groes i bolisi | Sicrhau bod mannau agored, chwaraeon a hamdden presennol yn cael eu gwarchod. | CSFf<br>AURA | Y Gofrestr Gynllunio Arolwg Mannau Agored | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Nid yw dadansoddiad o geisiadau cynllunio wedi gallu canfod bod ceisiadau cynllunio a ganiatawyd wedi arwain at golli mannau agored, chwaraeon a hamdden. Nid oes unrhyw dystiolaeth o golled net o fannau agored, chwaraeon a hamdden ar hyn o bryd; mae angen ymchwiliad / adolygiad pellach ar gyfer AMB y dyfodol. Fodd bynnag, byddai swyddogion rheoli datblygu'n debygol o ymgynghori â swyddogion polisi pe bai caniatâd cynllunio'n cynnwys colli man agored neu fan gwyrdd a nodwyd, ac nid yw hyn wedi digwydd. O ystyried y pwyslais a roddir ar isadeiledd gwyrdd ar hyn o bryd ym Mhennod 6 PCC, mae'n hynod annhebygol y byddai ceisiadau sy'n cynnwys colli man agored wedi cael caniatâd cynllunio.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI41 Mannau agored a ddarparwyd fel rhan o ddatblygiad tai newydd** | | | | | | | | |
| SO1<br>SO4<br>SO7<br>SO17<br>SO18 | STR13 | EN1 | Darparu man agored yn unol â'r polisi / Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) | Rhoi caniatâd heb ddarparu digon o fannau agored. | Sicrhau bod datblygiadau preswyl newydd yn darparu digon o fannau agored. | Y Gwasanaeth Cynllunio Aura | Y Gofrestr Gynllunio Arolwg Mannau Agored | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae polisi EN1 yn ceisio sicrhau y darperir mannau agored fel rhan o ddatblygiadau preswyl newydd ar gyfradd o 2.4ha fesul 1000 o bobl. Mae manylion pellach wedi'u nodi yn y CCA presennol sydd wrthi'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar hyn o bryd. Y dewis a ffefrir yw darpariaeth ar y safle, ond mewn amgylchiadau eithriadol gellir ystyried darpariaeth oddi ar y safle neu symiau gohiriedig, er enghraifft mewn perthynas â datblygiadau ar raddfa fach. Mae archwiliad o'r gofrestr gynllunio a dadansoddiad o'r ceisiadau cynllunio ar safleoedd dyranedig yn dangos bod mannau agored yn cael eu darparu yn unol â'r polisi.

## Dynodiadau Bioamrywiaeth

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI42 Colli ACA / AGA / Ramsar** | | | | | | | | |
| SO16 SO17 | STR13 | EN6 | Dim, onid oes angen mesurau lliniaru priodol yn unol â'r polisi cenedlaethol | Unrhyw ganiatâd a roddir heb fesurau lliniaru priodol neu'n groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru | Sicrhau bod dynodiadau cadwraeth natur rhyngwladol yn cael eu gwarchod | Y Gwasanaeth Cynllunio | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae archwilio'r Gofrestr Gynllunio a thrafodaethau gydag Ecolegydd y Cyngor wedi canfod nad oes unrhyw ACA / AGA / Ramsar wedi'u colli. Rhaid edrych ar y dangosydd monitro hwn yng nghyd-destun Pennod 6 PCC a'r dull graddol, sy'n nodi mai'r flaenoriaeth gyntaf yw osgoi effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau. Mae paragraff 6.4.15 PCC yn nodi'n glir bod cynigion mewn safleoedd dynodedig statudol yn annerbyniol fel mater o egwyddor.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI43 Colli SoDdGA** | | | | | | | | |
| SO16 SO17 | STR13 | EN6 | Dim, onid oes angen mesurau lliniaru priodol yn unol â'r polisi cenedlaethol | Unrhyw ganiatâd a roddir heb fesurau lliniaru priodol neu'n groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru | Sicrhau bod dynodiadau cadwraeth natur cenedlaethol yn cael eu gwarchod | Y Gwasanaeth Cynllunio | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae archwilio'r Gofrestr Gynllunio a thrafodaethau gydag Ecolegydd y Cyngor wedi canfod nad oes unrhyw SoDdGA wedi'u colli. Rhaid edrych ar y dangosydd monitro hwn yng nghyd-destun Pennod 6 PCC a'r dull graddol, sy'n nodi mai'r flaenoriaeth gyntaf yw osgoi effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau. Mae paragraff 6.4.15 PCC yn nodi'n glir bod cynigion mewn safleoedd dynodedig statudol yn annerbyniol fel mater o egwyddor.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI44 Colli safleoedd bywyd gwyllt / RIGS** | | | | | | | | |
| SO16<br>SO17 | STR13 | EN6 | Dim, onid oes angen mesurau lliniaru priodol yn unol â'r polisi cenedlaethol | Unrhyw ganiatâd a roddir heb fesurau lliniaru priodol neu'n groes i gyngor Ecolegydd y Sir | Sicrhau bod dynodiadau cadwraeth natur cenedlaethol yn cael eu gwarchod | Y Gwasanaeth Cynllunio | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae archwilio'r Gofrestr Gynllunio a thrafodaethau gydag Ecolegydd y Cyngor wedi canfod nad oes unrhyw Safleoedd Bywyd Gwyllt / RIGS wedi'u colli. Rhaid edrych ar y dangosydd monitro hwn yng nghyd-destun Pennod 6 PCC a'r dull graddol, sy'n nodi mai'r flaenoriaeth gyntaf yw osgoi effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau. Mae paragraff 6.4.15 PCC yn nodi'n glir bod cynigion mewn safleoedd dynodedig statudol yn annerbyniol fel mater o egwyddor.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI45 Colli coetir hynafol / lled hynafol a choed a warchodir** | | | | | | | | |
| SO16<br>SO17 | STR13 | EN7 | Dim colled net o goetir na choed a warchodir | Unrhyw ganiatâd a roddir heb fesurau lliniaru priodol neu'n groes i gyngor y Swyddog Coedyddiaeth | Sicrhau bod coed a choetir yn cael eu gwarchod | Y Gwasanaeth Cynllunio | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro Archwiliad pellach |
| Perfformiad y Polisi:<br><br>Yn unol â PCC 12, mae'r Cyngor yn ceisio diogelu coetir hynafol a choed a warchodir. Mae polisi cynllunio'n cynnig y camau gwarchod mwyaf cadarn ar gyfer coetir hynafol. Gall Gorchmynion Diogelu Coed fod yn berthnasol i goetir, grwpiau neu ardaloedd o goed neu un goeden, ac fe'u hystyrir yn goetir a choed a warchodir. Mae polisïau'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth, isadeiledd gwyrdd a choed, coetir a gwrychoedd yn cael eu gwarchod a'u gwella. Nid oes unrhyw dystiolaeth o golled net o goetir na choed a warchodir ar hyn o bryd; mae angen ymchwiliad / adolygiad pellach ar gyfer AMB y dyfodol. | | | | | | | | |

## AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI46 Rhoi caniatâd mewn AHNE yn groes i argymhellion y Swyddogion** | | | | | | | | |
| SO16<br>SO17<br>SO18 | STR13 | EN5 | Dim, oni chytunwyd ar fesurau lliniaru priodol | Unrhyw ganiatâd a roddwyd yn groes i gyngor Cyd-bwyllgor Ymgynghorol yr AHNE / argymhellion y Swyddog | Sicrhau bod yr AHNE yn cael ei gwarchod | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i Fonitro |

| Perfformiad y Polisi: |
|---|
| Cafwyd 35 o geisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd sydd wedi'u lleoli o fewn yr AHNE, ac fe gymeradwywyd 34 o'r rhain a gwrthodwyd un cymeradwyaeth ymlaen llaw. Cafwyd amrywiaeth o geisiadau, gan gynnwys estyniad cefn unllawr, trawsnewid adeilad presennol yn ficrofragdy, gosod aráe a system fatri ffotofoltaidd, trawsnewid tŷ allan yn swyddfa gartref ac ystafell wely i westeion.<br><br>Ni roddwyd unrhyw ganiatâd o fewn yr AHNE yn groes i argymhellion y Swyddogion. Ymgynghorir â swyddog cynllunio'r AHNE a CNC ar geisiadau o'r fath er mwyn sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiadau yn cael effaith niweidiol ar nodweddion a chymeriad arbennig yr AHNE. |

**Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI47 Nifer a chapasiti (MW) y datblygiadau ynni adnewyddadwy, carbon isel neu ddi-garbon a gymeradwywyd / weithredwyd** | | | | | | | | |
| SO15 | STR14 | EN13 | REA? | Dim caniatâd wedi'i roi na'i weithredu o fewn cyfnod o 5 mlynedd | Canfod a yw polisïau'r Cynllun yn cyfrannu at gynhyrchu ynni adnewyddadwy | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i Fonitro |

| Perfformiad y Polisi: |
|---|
| **Fferm solar Bretton** - Cymeradwyodd y Gweinidog Newid Hinsawdd fferm solar yn Fferm Bretton Hall, i'r dwyrain o Bretton / Brychdyn ar 19/12/23. Mae'r fferm solar ar y ffin rhwng Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer. Cafodd y rhan o'r fferm solar sydd dros y ffin ei chymeradwyo gan Gyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer. Byddai'r fferm solar yn cynnwys ardal o 50ha, gyda thua 25ha ohoni yn Sir y Fflint, gan gynnwys y cysylltiad grid. Ar y cyfan, byddai'r cynnig yn cynhyrchu 30Mw, gyda 16Mw yn dod o Sir y Fflint.<br><br>**Hynet** - Er nad yw'n ddatblygiad cynhyrchu ynni, mae gorchymyn datblygu wedi cael ei ganiatáu gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer piblinell arfaethedig Hynet sy'n rhedeg drwy Sir y Fflint. Ar 23/05/24, rhoddodd CSFf ganiatâd cynllunio i gynllun sy'n ei |

gwneud yn bosib addasu Terfynell Nwy y Parlwr Du i'w defnyddio mewn cysylltiad â phiblinell Hynet. Bydd carbon yn cael ei gludo drwy'r biblinell i'r Parlwr Du a'i storio o dan y môr mewn unedau gwag yn dilyn echdynnu nwy.

Cafodd cais (599/23) ar gyfer Electroleiddiwr Hydrogen Gwyrdd 7.5Mw yn Ffatri Kimberley Clark, Ystâd Ddiwydiannol Aber, Y Fflint ei gymeradwyo ar 20/06/24.

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI48 Gosod capasiti ffotofoltaidd solar / gwynt o fewn 'Ardaloedd Chwilio Lleol'** | | | | | | | | |
| SO15 | STR14 | EN13 | REA | | Canfod a yw dull polisi'r Cynllun i ganfod 'Ardaloedd Chwilio Lleol' yn darparu capasiti ychwanegol. | Cynllunio CSFf | Y Gofrestr Gynllunio / Gweithredwyr | Parhau i fonitro / archwiliad pellach |

Perfformiad y Polisi:

O fewn MI48, dylid nodi fod 'gwynt' wedi cael ei gynnwys mewn camgymeriad. Mae'r Ardaloedd Chwilio Lleol Dangosol y cyfeirir atynt ym mholisi EN13 yn ymwneud â solar yn unig, nid gwynt. Nid yw'r rhain yn ddyraniadau cadarn, ond yn hytrach yn ardaloedd chwilio lle mae datblygiad ynni solar yn dderbyniol mewn egwyddor, yn amodol ar gydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi EN13. Fel y dangosir yn y tabl isod, nid oes unrhyw gais cynllunio na chynigion datblygu wedi dod i law mewn perthynas â'r ardaloedd chwilio. Gallai hyn fod o ganlyniad i faterion sy'n ymwneud â pha mor agos yw'r grid trydan a chost cysylltu â'r grid.

| Cyf | Enw | Maint ha | Capasiti Posib (MW) | Ceisiadau Cynllunio |
|---|---|---|---|---|
| EN13.1 | Gorllewin Bwcle | 39 | 5 | Dim - Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer ysgol newydd sydd wedi'i lleoli'n rhannol mewn ardal chwilio solar. Fodd bynnag, mae yna nifer o dechnolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ysgol, ac mae'n garbon niwtral. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| EN13.2 | De Bwcle | 117 | 10 | Dim |
| EN13.3 | De-ddwyrain Bwcle, Lane End | 28 | 5 | Dim |
| EN13.4 | Coed-talon a Phontybodkin | 65 | 10 | Dim |
| EN13.5 | Cei Connah | 83 | 5 | Dim |
| EN13.6 | Treffynnon | 35 | 5 | Dim |
| EN13.7 | Coed-llai | 27 | 5 | Dim - ond caniatâd cynllunio blaenorol ar gyfer aráe paneli solar (054041) 01/08/16 |
| EN13.8 | Gogledd-orllewin Llanfynydd | 52 | 5 | Dim |
| EN13.9 | Mynydd Isa | 120 | 5 | Dim |
| EN13.10 | Pentre Cythrel | 217 | 5 | Dim |
| EN13.11 | Pen-y-ffordd / Penymynydd | 89 | 10 | Dim |

Ar 21/10/25, cymeradwyodd y Cabinet Gynllun Ynni Ardal Leol y Cyngor, a baratowyd ar y cyd ag ymgynghorwyr Arup. Bydd hyn yn helpu gweithio tuag at 'Cymru Sero Net' Llywodraeth Cymru erbyn 2050. Mae'r CYAL yn cydnabod y cyfleoedd am ynni solar yn y Sir a dylai arwain at gamau gweithredu a mentrau mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Datblygu adeiladau di-garbon
- Datgarboneiddio cludiant
- Aeddfedu hydrogen mewn diwydiant
- Cefnogi busnesau gwyrdd
- Uwchraddio'r grid
- Cynyddu cynhyrchiant adnewyddadwy lleol.

## Datblygiad mewn Ardaloedd Perygl Llifogydd

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI49 Datblygiadau o fewn Parth Perygl Llifogydd C ar y Map Cyngor Datblygu** | | | | | | | | |
| SO15 | STR14 | EN14 | Dim, oni bai eu bod yn unol â pholisi lleol a chenedlaethol | Unrhyw ganiatâd a roddir nad yw'n cyd-fynd â pholisi lleol / cenedlaethol | Sicrhau na chaniateir datblygiad newydd mewn lleoliadau os na fyddai'n bodloni profion TAN15 | Cynllunio CSFf Cyfoeth Naturiol Cymru | Y Gofrestr Gynllunio | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae Polisi EN14 wedi cael ei gymhwyso'n gadarn ac yn gyson ar y cyd â TAN15, gan roi ystyriaeth i ymatebion ymgynghoriad CNC. Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw benderfyniadau mewn ardaloedd perygl llifogydd sy'n groes i ganllawiau / polisi lleol na chenedlaethol. Wrth symud ymlaen, bydd ceisiadau a ddilysir ar ôl 31/03/25 yn cael eu pennu yn erbyn Map Llifogydd Cymru a'r TAN15 newydd.

Fferm solar Bretton - Cymeradwyodd y Gweinidog Newid Hinsawdd fferm solar yn Fferm Bretton Hall ar 19/12/23. Mae'r fferm solar ar y ffin rhwng Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer. Cafodd y rhan o'r fferm solar sydd dros y ffin ei chymeradwyo gan Gyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer. Byddai'r fferm solar yn cynnwys ardal o 50ha, gyda thua 25ha ohoni yn Sir y Fflint, gan gynnwys y cysylltiad grid. Ar y cyfan, byddai'r cynnig yn cynhyrchu 30Mw, gyda 16Mw yn dod o Sir y Fflint, ac mae hynny o fewn Ardal Perygl Llifogydd Parth C1 yn Sir y Fflint. Nododd yr Arolygydd a'r Gweinidog fod CNC wedi cytuno â chanfyddiadau'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, a bod canlyniadau unrhyw lifogydd yn dderbyniol ac na fyddent yn gwaethygu amodau mewn mannau eraill. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y cynllun yn bodloni rhai o'r profion cyfiawnhad yn TAN 15, sy'n golygu ei fod yn mynd yn groes i ganllawiau TAN 15, ond mae TAN 15 hefyd yn eithrio mathau penodol o ddatblygiad rhag rhan gyntaf y profion cyfiawnhad. Ni chaniatawyd dosbarth awyr agored a oedd yn cynrychioli datblygiad bregus iawn.

## Dangosyddion Cyd-destunol - Y Gymraeg

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI50 % y siaradwyr Cymraeg yn y Sir** | | | | | | | | |
| SO6 | STR4 | STR4 | Cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg | Unrhyw ostyngiad dros ddwy flynedd yn olynol? | Monitro lefelau'r siaradwyr Cymraeg dros gyfnod y Cynllun | Gwasanaeth Cynllunio CSFf | Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Data'r cyfrifiad - Mae data cyfrifiad Cymru'n dangos bod yna 582,400 o siaradwyr Cymraeg yn 2001, 562,000 o siaradwyr Cymraeg yn 2011 a 538,300 o siaradwyr Cymraeg yn 2021, sy'n dangos gostyngiad graddol. Fodd bynnag, mae Arolwg Poblogaeth Blynyddol Cymru 2024 yn dangos yr amcangyfrifir bod yna 862,700 o siaradwyr Cymraeg. Er gwaethaf ambell i ostyngiad bychan yn nifer y siaradwyr Cymraeg, y duedd hirdymor yw cynnydd yn nifer y siaradwyr. Mae data Cyfrifiad Cymru yn 2021 wedi'i ddadansoddi yn ôl ardal awdurdod lleol, ac mae Sir y Fflint yn dangos gostyngiad o -1.6% ar gyfer pob grŵp oedran o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sy'n dangos gostyngiad o -1.2%.

Mae data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol hefyd yn cael ei ddadansoddi fesul ardal awdurdod lleol. Ac eithrio yn 2020 ac 2024, mae hwn yn dangos twf araf yn nifer y siaradwyr Cymraeg a amcangyfrifir yn Sir y Fflint dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae ffigurau Cymru gyfan a Sir y Fflint wedi dangos gostyngiad graddol ers 2023, ond nid yw'r rhesymau am hyn yn amlwg ar hyn o bryd.

| Blwyddyn | Gallu siarad Cymraeg | | Amlder Siarad Cymraeg - dyddiol | |
|---|---|---|---|---|
| | Sir y Fflint | Cymru | Sir y Fflint | Cymru |
| 2019 | 22.3% | 29.0% | 9.4% | 16.7% |
| 2020 | 20.7% | 28.4% | 7.0% | 16.1% |
| 2021 | 24.1% | 29.2% | 9.6% | 15.8% |
| 2022 | 23.5% | 29.9% | 6.9% | 14.9% |
| 2023 | 23.9% | 29.7% | 8.5% | 15.9% |
| 2024 | 19.5% | 29.7% | 7.4% | 14.4% |
| 2025 | 15.5% | 26.9% | 6% | 13.8% |

## Dangosyddion Cyd-destunol - Cyflogaeth / Diweithdra

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI51 Cyflogaeth / diweithdra** | | | | | | | | |
| SO8 | STR1 | STR1 | Llai o ddiweithdra | Cynnydd mewn diweithdra dros ddwy flynedd yn olynol | Monitro cryfder yr economi lleol a pherfformiad polisïau'r CDLl | Gwasanaeth Cynllunio CSFf | Ystadegau'r Farchnad Lafur | Parhau i fonitro |

Perfformiad y Polisi:

Mae Crynodeb Marchnad Lafur Blynyddol Llywodraeth Cymru'n dangos y canlynol:

| Blwyddyn | Cyfradd Gyflogaeth | | Cyfradd Gweithgarwch Economaidd | |
|---|---|---|---|---|
| | Sir y Fflint | Cymru | Sir y Fflint | Cymru |
| Blwyddyn hyd at 31/03/19 | 77.0% | 73.1% | 20.3% | 23.3% |
| Blwyddyn hyd at 31/03/20 | 79.9% | 73.6% | 17.8% | 23.5% |
| Blwyddyn hyd at 31/03/21 | 77.8% | 72.2% | 19.7% | 24.7% |
| Blwyddyn hyd at 31/03/22 | 81.1% | 73.6% | 17.9% | 23.5% |
| Blwyddyn hyd at 31/03/23 | 76.4% | 73.0% | 21.4% | 24.5% |
| Blwyddyn hyd at 31/03/24 | 78.7% | 73.5% | 18.7% | 23.8% |
| Blwyddyn hyd at 31/03/25 | 80.3% | 73.4% | 18% | 23.9% |

Mae'r data'n dangos yn gyson fod gan Sir y Fflint lefel uwch o gyflogaeth na Chymru a lefel is o weithgarwch economaidd na Chymru. Nid yw mân amrywiadau'n achos i bryderu.

**Dangosyddion Cyd-destunol - Canllawiau Cynllunio Atodol**

| Amcan y CDLl | Polisi Strategol | Polisïau i'w Monitro | Targed | Sbardun | Cyfiawnhad dros y Targed a'r Sbardun | Gweithredu | Ffynhonnell y Data | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI52 Darparu canllawiau newydd / wedi'u diweddaru ar Wasanaethau, Cyfleusterau ac Isadeiledd** | | | | | | | | |
| SO1<br>SO12<br>SO15 | STR4<br>STR6 | PC5<br>PC12<br>EN1<br>EN2 | Paratoi NCCA newydd (i gynnwys adolygiad o'r NCCA Rhif 23 presennol: Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg) | Heb baratoi NCCA o fewn blwyddyn i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod canllawiau newydd / wedi'u diweddaru yn cael eu paratoi ar ddarpariaeth gwasanaethau, cyfleusterau ac isadeiledd a'r gofynion o ran cyfraniadau'r datblygwr | Cynllunio CSFf<br>Priffyrdd CSFf<br>Addysg CSFf | | Parhau i fonitro |
| Perfformiad - Paratoi drafft i'w gyflwyno i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio. | | | | | | | | |
| **MI53 Darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar Estyniadau ac Addasiadau i Anheddau** | | | | | | | | |
| SO16<br>SO18 | STR4 | PC2<br>PC3<br>HN5<br>HN6 | Adolygu a diweddaru NCCA Rhif 1 o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | NCCA Rhif 1 heb ei ddiweddaru o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu mewn perthynas ag estyn ac addasu anheddau | Cynllunio CSFf | | Parhau i fonitro |
| Perfformiad - Cyflwynwyd y CCA i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio ar 15/09/23 a buont yn destun ymgynghoriad 6 wythnos a ddechreuodd ar 01/12/23 ac a ddaeth i ben ar 26/01/24. Adroddwyd yn ôl i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio ar 14/03/24 a mabwysiadwyd y CCA yn ffurfiol gan y Cabinet ar 15/10/25. | | | | | | | | |

| MI54 Darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar Ofod o amgylch Anheddau | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO16<br>SO18 | STR4 | HN2<br>PC3 | Adolygu a diweddaru NCCA Rhif 2 o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | NCCA Rhif 2 heb ei ddiweddaru o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu mewn perthynas â gofod o amgylch anheddau | Cynllunio CSFf | | Parhau i fonitro |
| Perfformiad - Cyflwynwyd y CCA i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio, a'u cymeradwyodd ar 25/01/24 i fod yn destun ymgynghoriad 6 wythnos. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrthi'n cael eu dadansoddi cyn adrodd yn ôl i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio a'r Cabinet. | | | | | | | | |
| **MI55 Darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar Goed a Datblygu** | | | | | | | | |
| SO17<br>SO18 | STR13 | EN7 | Adolygu a diweddaru NCCA Rhif 4 o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | NCCA Rhif 2 heb ei ddiweddaru o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu mewn perthynas â choed a datblygu | Cynllunio CSFf | | Parhau i fonitro |
| Perfformiad - Mae datblygiad y CCA hwn wedi cael ei oedi yn dilyn diwygiadau i Bennod 6 PCC12. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau i PCC12 yn cefnogi ac yn cryfhau'r dull a nodir ym mholisi EN7 yn hytrach na mynd yn groes iddo, neu wanhau ei effeithiolrwydd. Mae CCA drafft wrthi'n cael ei baratoi a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio ddiwedd 2025. | | | | | | | | |
| **MI56 Darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar Drawsnewid Adeiladau Gwledig** | | | | | | | | |
| SO16<br>SO18 | STR4 | PC2<br>PC3<br>HN4-B | Adolygu a diweddaru NCCA Rhif 5 o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | NCCA Rhif 5 heb ei ddiweddaru o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu mewn perthynas â thrawsnewid adeiladau gwledig | Cynllunio CSFf | | Parhau i fonitro |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Perfformiad - Cyflwynwyd y CCA i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio ar 22/06/23 a buont yn destun ymgynghoriad 6 wythnos a ddechreuodd ar 01/12/23 ac a ddaeth i ben ar 26/01/24. Adroddwyd yn ôl i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio ar 14/03/24 a mabwysiadwyd y CCA yn ffurfiol gan y Cabinet ar 15/10/25. | | | | | | | | |
| **MI57 Darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar Warchod Natur a Datblygu** | | | | | | | | |
| SO17<br>SO19 | STR13 | EN2<br>EN6 | Adolygu a diweddaru NCCA Rhif 4 o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | NCCA Rhif 4 heb ei ddiweddaru o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu mewn perthynas â Gwarchod Natur a Datblygu | Cynllunio CSFf | | Parhau i fonitro |
| Monitro Perfformiad - Mae datblygiad y CCA hwn wedi cael ei oedi yn dilyn diwygiadau i Bennod 6 PCC12. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau i PCC12 yn cefnogi ac yn cryfhau'r dull a nodir ym mholisi EN7 yn hytrach na mynd yn groes iddo, neu wanhau ei effeithiolrwydd. Fel mesur dros dro, mae'r Cyngor wrthi'n paratoi Nodyn Cyngor a fydd ar gael ar wefan y Cyngor. | | | | | | | | |
| **MI58 Darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar Dai Fforddiadwy** | | | | | | | | |
| SO11<br>SO12 | STR2<br>STR11 | HN1<br>HN2<br>HN3 | Adolygu a diweddaru NCCA Rhif 9 o fewn blwyddyn i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | NCCA Rhif 9 heb ei ddiweddaru o fewn blwyddyn i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu mewn perthynas â Thai Fforddiadwy | Cynllunio CSFf Strategaeth Dai CSFf | | Parhau i fonitro |
| Perfformiad - Cymeradwywyd y CCA gan y Grŵp Strategaeth Cynllunio ar 14/03/24, ac yn dilyn ymgynghoriad, adroddwyd yn ôl arno i'r Grŵp hwnnw ar 20/06/25, ac fe'i cymeradwywyd i gael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w fabwysiadu'n ffurfiol. | | | | | | | | |
| **MI59 Darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar Dai Newydd yng Nghefn Gwlad Agored** | | | | | | | | |
| SO11<br>SO12<br>SO13 | STR2 | HN1<br>HN3<br>HN4<br>HN4-C | Adolygu a diweddaru adrannau perthnasol NCCA Rhif 10 o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Adrannau perthnasol NCCA Rhif 10 heb eu hadolygu na'u diweddaru o fewn | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu ar Dai Newydd | Cynllunio CSFf | | Parhau i fonitro |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | yng Nghefn Gwlad Agored mewn perthynas â Datblygiad Mewnlenwi mewn Grwpiau o Dai | | | |
| Perfformiad - Cyflwynwyd y CCA i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio ar 22/06/23 a buont yn destun ymgynghoriad 6 wythnos a ddechreuodd ar 01/12/23 ac a ddaeth i ben ar 26/01/24. Adroddwyd yn ôl i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio ar 14/03/24 a mabwysiadwyd y CCA yn ffurfiol gan y Cabinet ar 15/10/25. | | | | | | | | |
| **MI60 Darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar Safonau Parcio** | | | | | | | | |
| SO4<br>SO7 | STR4<br>STR5 | PC2<br>PC4<br>PC5 | Adolygu a diweddaru NCCA Rhif 11 | NCCA Rhif 11 heb ei ddiweddaru o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu mewn perthynas â Safonau Parcio | Cynllunio CSFf<br>Priffyrdd CSFf | | Parhau i fonitro |
| Perfformiad - Roedd y CCA hyn yn cael eu hystyried ar sail trefniant cydweithio posib gyda CBS Wrecsam, ond mae hyn wedi cael ei oedi tra byddwn yn aros i gael gweld y sefyllfa gyda CDLl Wrecsam. | | | | | | | | |
| **MI61 Darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar Gadw Cyfleusterau Lleol** | | | | | | | | |
| SO1<br>SO4 | STR5<br>STR6 | PC5<br>PC12 | Adolygu a diweddaru NCCA Rhif 24 o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | NCCA Rhif 24 heb ei ddiweddaru o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu mewn perthynas â chadw Cyfleusterau Lleol | Cynllunio CSFf | | Parhau i fonitro |
| Perfformiad - Cafodd y CCA eu cyflwyno i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio, a'u cymeradwyo ganddo, ar 10/11/23, ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, adroddwyd yn ôl arnynt i'r Grŵp hwnnw ar 20/06/25, ac fe'u cymeradwywyd i gael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w mabwysiadu'n ganllawiau ffurfiol. | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MI62 Darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar Systemau Draenio Cynaliadwy a Rheoli Dŵr Wyneb mewn Datblygiadau Newydd** | | | | | | | | |
| SO1<br>SO14 | STR14 | PC2<br>EN14<br>EN15 | Adolygu a diweddaru NCCA Rhif 29 o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | NCCA Rhif 29 heb ei ddiweddaru o fewn 2 flynedd i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu ar Reoli Dŵr Wyneb mewn Datblygiadau Newydd | Cynllunio CSFf<br>Gwasanaethau Technegol CSFf | | Parhau i fonitro |
| Perfformiad - Mae canllawiau'r Cyngor mewn perthynas â Systemau Draenio Cynaliadwy i'w gweld ar eu tudalen we yma. Nid yw datblygiad y CCA hwn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel. | | | | | | | | |
| **MI63 Darparu canllawiau wedi'i diweddaru ar Fannau Chwarae Awyr Agored mewn perthynas â Datblygiadau Newydd** | | | | | | | | |
| SO17<br>SO18 | STR4<br>STR13 | EN1<br>PC2 | Adolygu a diweddaru NCCA Drafft Rhif 13 'Mannau Chwarae Awyr Agored a Datblygiadau Newydd' o fewn blwyddyn i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | NCCA Rhif 13 heb ei ddiweddaru o fewn blwyddyn i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu ar ddarpariaeth mannau chwarae mewn perthynas â datblygiadau newydd. | Cynllunio CSFf<br>Hamdden a Thwristiaeth CSFf | | Parhau i fonitro |
| Perfformiad - Mae CCA drafft wedi cael eu paratoi yn barod i'w cyflwyno i'r Grŵp Strategaeth Cynllunio. | | | | | | | | |
| **MI64 Darparu canllawiau wedi'i diweddaru ar Dai Amlfeddiannaeth** | | | | | | | | |
| SO1<br>SO11<br>SO12 | STR6<br>STR11 | PC5<br>PC12<br>HN7 | Adolygu a diweddaru Nodyn Cyngor drafft ar ffurf NCCA newydd o fewn blwyddyn i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Nodyn Cyngor heb ei ddiweddaru a NCCA newydd heb ei gynhyrchu o fewn 2 flynedd i ddyddiad | Sicrhau bod y canllawiau diweddaraf yn cael eu darparu mewn perthynas â thai amlfeddiannaeth | Cynllunio CSFf<br>Strategaeth Dai CSFf | | Parhau i fonitro |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mabwysiadu'r CDLl | | | | |
| Perfformiad - Paratoi nodyn cyngor cynllunio dros dro, yn hytrach na CCA, o ystyried diffyg sail dystiolaeth o leoliad y Tai Amlfeddiannaeth ar hyn o bryd i'w ddefnyddio i glustnodi crynodiadau o Dai Amlfeddiannaeth a throthwyon y gallai niwed ddigwydd o'u croesi. Cafodd nodyn canllawiau cynllunio dros dro drafft ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Grŵp Strategaeth Cynllunio ar 20/06/25. | | | | | | | | |
| **MI65 Darparu canllawiau mewn perthynas â datblygiad Safle Strategol Warren Hall** | | | | | | | | |
| SO8<br>SO9<br>SO10 | STR3B<br>STR4 | PE1<br>HN2 | Paratoi NCCA newydd o fewn blwyddyn i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | NCCA heb ei baratoi o fewn blwyddyn i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod canllawiau newydd yn cael eu darparu mewn perthynas â datblygiad Safle Strategol Warren Hall | Cynllunio CSFf<br>Llywodraeth Cymru | | Angen ymchwiliad pellach |
| Perfformiad - Mae cynnydd ar baratoi CCA ar gyfer Warren Hall wedi cael ei oedi oherwydd bod Llywodraeth Cymru'n gwneud gwaith technegol pellach drwy ei ymgynghorwyr arbenigol mewn perthynas â diogelu'r llwybr hedfan. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cyswllt agos ag Airbus a bydd yn pennu uchder y datblygiad ar y safle a graddau'r tir a dorrir ar y safle a graddau'r ardaloedd y gellir eu datblygu. O ystyried yr oedi o ganlyniad i'r gwaith technegol pellach a'r pwysau ychwanegol a gysylltir â dynodi'r Parth Buddsoddi ar gyfer Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, ystyrir mai dim ond oedi datblygiad y safle fyddai paratoi CCA. Ymhellach, o ystyried bod hwn yn ddatblygiad a arweinir gan gyflogaeth (yn dilyn dileu'r elfen dai yn yr Archwiliad), ni ystyrir y byddai paratoi CCA yn datblygu llawer mwy ar bethau na'r CDLl sydd eisoes yn cynnwys meini prawf polisi manwl yn ogystal ag uwch gynllun. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ar baratoi cais cynllunio amlinellol ar gyfer y safle. | | | | | | | | |
| **MI66 Darparu canllawiau newydd ar Gyfraniadau Datblygwyr sy'n ymwneud â Ffosffadau** | | | | | | | | |
| SO1<br>SO14 | STR14 | EN15 | Paratoi CCA newydd ar y cyd â Strategaeth Lleihau Ffosfforws yn Nalgylch Afon Dyfrdwy | NCCA newydd heb gael ei baratoi o fewn blwyddyn i ddyddiad mabwysiadu'r CDLl | Sicrhau bod canllawiau newydd yn cael eu darparu i helpu datblygwyr ac eraill i ddeall goblygiadau Strategaeth | Cynllunio CSFf<br>Gwasanaethau Technegol CSFf<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | | Parhau i fonitro |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Lleihau Ffosfforws yn Nalgylch Afon Dyfrdwy. | | | |
| Perfformiad - Ym mis Awst / Medi 2023, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru drwyddedau diwygiedig ar gyfer gwaith trin dŵr gwastraff yr Wyddgrug, Bwcle a'r Hôb, a oedd yn nodi cyfyngiadau ar ryddhau ffosffadau i Afon Alyn ac ymlaen i Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod perfformiad presennol y tri safle gwaith trin dŵr gwastraff yn golygu eu bod yn gweithredu ymhell o fewn y cyfyngiadau a osodir gan y trwyddedau. Felly mae lle ar gyfer datblygiad tai newydd ar y pedwar dyraniad tai CDLl a effeithir (HN1.1 Well Street, Bwcle, Tir rhwng Ffordd Dinbych a Gwernaffield Road, Yr Wyddgrug, HN1.9 Ffordd Wrecsam, HCAC a HN1.10 Cae Isa, Pentre Cythrel) heb niweidio'r Ardal Gadwraeth Arbennig. Felly nid yw'n hanfodol paratoi CCA Ffosffadau er mwyn darparu twf yn y CDLl. Er hynny, bydd gwaith mewn perthynas â ffosffadau yn parhau drwy Fwrdd Rheoli Maethynnau Dyfrdwy ac efallai y byddwn yn ailedrych ar y CCA ryw bryd yn y dyfodol, o bosib mewn perthynas ag Adolygiad o'r Cynllun. | | | | | | | | |

## 5. Canlyniadau Dangosyddion Gwerthuso Cynaliadwyedd.

5.1 Roedd y CDLl yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol fel proses ailadroddol trwy gydol proses paratoi'r cynllun. Roedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cynnwys gofynion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn unol â Chyfarwyddiadau UE 2001/42/EC. Mae paragraff 4.32 o'r Llyfryn Cynlluniau Datblygu yn nodi 'Mae Cyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i'r fframwaith monitro ganolbwyntio ar 'effeithiau amgylcheddol sylweddol' o weithredu'r cynllun' ac yn cadarnhau bod 'Rheoliadau CDLl yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol lunio Adroddiadau Monitro Blynyddol sy'n galluogi i fframwaith monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gael ei ymgorffori wrth fonitro'r cynllun'. Lluniodd y Cyngor Asesiad o Effaith Integredig (AEI) sy'n ymgorffori gofynion Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) cyfunol ac Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG), yn ogystal ag Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o Effaith ar Iechyd (AEaI) ac Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEaG).

5.2 Pwrpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd oedd gwerthuso effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebygol y Cynllun, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLl wedi nodi 17 amcan a 43 o ddangosyddion gyda'r bwriad o fesur effaith cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Cynllun.

5.3 Mae'r data a gesglir yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol gyda sylwadau o dan bob amcan AoG er mwyn disgrifio cynnydd. Asesir pob Amcan AoG yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, gyda'r canfyddiadau wedi'u nodi yn yr adrannau isod. Mae'r cod canlynol wedi cael ei ddefnyddio i roi crynodeb cyffredinol o'r canfyddiadau ar gyfer pob dangosydd:

| Symbol | Effaith a ragwelir |
|---|---|
| ++ | Effeithiau cadarnhaol iawn o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol - Mae'r Cynllun yn cael effaith cadarnhaol iawn ar yr amcan monitro |
| + | Effeithiau cadarnhaol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol - Mae'r Cynllun yn cael effaith cadarnhaol ar yr amcan monitro |
| 0 | Effaith niwtral o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol - Nid yw'r Cynllun yn cael effaith, neu mae'n cael effaith gymysg ar yr amcan monitro |
| - | Effaith negyddol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol - Mae'r Cynllun yn cael effaith negyddol ar yr amcan monitro |

| | |
|---|---|
| -- | Effaith negyddol iawn o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol - Mae'r Cynllun yn cael effaith negyddol iawn ar yr amcan monitro |
| ? | Effaith yn ansicr |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| **1. Lleihau trosedd, anrhefn a'r ofn o droseddau** | Effeithiau cadarnhaol ar leihau troseddau. Effeithiau ansicr ar yr ofn o droseddau. | 1. Nifer a dosbarthiad y wardiau gydag Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is o fewn 10% o'r rhai mwyaf difreintiedig o ran trosedd, gan dargedu gostyngiad yn y rhai sy'n byw yn y 10% isaf; *Mae Heddlu Gogledd Cymru (2020) wedi nodi bod gan ardaloedd lle mae trosedd ac anrhefn yn gyffredin nodweddion a lefelau uchel o amddifadedd, tlodi plant a diweithdra a lefelau isel o incwm y cartref. Gan ddefnyddio Mynegai Ardaloedd dan Fygythiad, sy'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio chwe ffactor a rhinweddau cymdeithasol-ddemograffeg, sy'n defnyddio dull sy'n cyfuno data trosedd ac amrywiadau eraill am gymdogaethau i greu sgôr, mae pum ardal wedi cael eu henwi yn Sir y Fflint sy'n cael eu hystyried yn rhai dan fygythiad. Y rhain yw: Canol Treffynnon, Gorllewin Treffynnon, Sealand 2, Shotton Uchaf 1 a Shotton Uchaf 2.* | Stats Cymru Nomis | Bob tair blynedd | + |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2. Cyfraddau trosedd fesul 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer troseddau allweddol, gan dargedu gostyngiad; *Y cyfraddau trosedd blynyddol yn Sir y Fflint yw 81.880.2 o droseddau fesul 1000 o'r boblogaeth sydd yn is na chyfartaledd Cymru o 83. Yr isaf yw Higher Kinnerton gyda 1516.2 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth a'r uchaf yw Canol Treffynnon gyda 364337 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth.* | | | |
| | | 3. % y preswylwyr sy'n canfod fod eu hansawdd bywyd wedi gwaethygu oherwydd troseddau, gan dargedu gostyngiad. | Nid yw data ar gyfer y dangosydd hwn ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro y dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol. | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Nid oes gan y CDLI unrhyw reolaeth uniongyrchol dros drosedd, anrhefn ac ofn o droseddau gan fod hyn yn fater o fewn cylch gwaith Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r CDLI yn gynllun defnydd tir a gall ond geisio effeithio ar drosedd yn anuniongyrchol pan fydd datblygiad newydd yn digwydd. Mae polisi STR4 yn cyfeirio at ystyriaethau pwysig megis creu lleoedd, dyluniad o safon uchel, diogel a hygyrch, amwynder diogelu ac wedi'i gefnogi gan bolisïau mwy manwl. Polisi PC 2: Gofynion Cyffredinol ar gyfer Datblygiad a nodir ym meini prawf c. dylai datblygiad ystyried diogelwch personol a chymunedol a diogelwch o ran dyluniad a chynllun. Polisi PC3: Dylunio | | | | |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | hefyd yn cynnwys meini prawf f. creu mannau deniadol, hygyrch a diogel ac iach gyda mesurau gwyliadwriaeth naturiol, gweledwdd a goleuadau sensitif. Dylai gweithredu fframwaith y polisi hwn ddod â datblygiad newydd sydd wedi'i ddylunio mewn modd y gall leihau trosedd a'r ofn o droseddau, gan gael effaith cadarnhaol. | | | | |
| | | | | | |
| **2. Gwella lefelau cyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oed a phob sector yn y gymdeithas** | Polisi STR6 | 1. Canran y boblogaeth heb unrhyw gymwysterau; *Rhwng Ionawr 2024 a Rhagfyr 2024 nid oedd gan 8.812% o bobl oedran gwaith (16 i 64 oed) unrhyw Gymwysterau yn Sir y Fflint (Nomis) o'i gymharu â 8.67.9% yng Nghymru* | Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y farchnad lafur | Blynyddol | 0 |
| | | 2. Canran y boblogaeth sydd â chymhwyster NVQ2 ac uwch. *Rhwng Ionawr 2024 a Rhagfyr 2024 roedd gan 8183.5% o bobl oedran gwaith (16 i 64 oed) gymwysterau RQF2 ac uwch yn Sir y Fflint (Nomis) o'i gymharu â 84.987.6% yng Nghymru* | | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Polisi STR6: Mae Gwasanaethau, Cyfleusterau ac Isadeiledd yn amlinellu sut fydd datblygiad newydd yn cyfrannu tuag at ddarpariaeth yr ystod o isadeiledd allweddol, lle bod angen er mwyn lliniaru effeithiau'r datblygiad trwy Rwymedigaethau Cynllunio. Addysg yw un o'r gwasanaethau a all sicrhau cyllid o'r fath er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion capasiti sy'n codi mewn ysgol yn sgil disgyblion ychwanegol o ddatblygiad yn dymuno mynychu'r ysgol. Mae Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol 23 Cyfraniadau Datblygwr i Addysg yn nodi yn fwy manwl yr amgylchiadau lle mae'n ofynnol i ddatblygiadau wneud cyfraniad ariannol a hefyd y cyfrifiad sy'n penderfynu faint fydd angen i'r datblygwyr dalu.<br><br>Yn yr archwiliad CDLI, lluniodd Awdurdod Addysg Lleol Sir y Fflint Ddatganiad Sefyllfa dyddiedig Mawrth 2021. Mae'n nodi niferoedd disgyblion hanesyddol o 2015, a rhagolygon o lefydd disgyblion yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol, hyd at 2025. Mae'r amcanestyniadau hyn yn dangos y bydd nifer y disgyblion o fewn ystod oedran cynradd yn debygol o ostwng hyd at 971 dros y pum mlynedd nesaf o 2021. Rhagwelir y bydd y duedd ar lefel uwchradd yn lleihau hyd at 184 o ddisgyblion. | | | | |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r datganiad yn mynd ymlaen i ddweud '*cynhyrchir amcanestyniadau bob dwy flynedd ac maent yn defnyddio derbyniadau ysgolion blaenorol i ragweld niferoedd ar y gofrestr yn y dyfodol. Ni chynhwysir niferoedd y disgyblion sy'n debygol o gael eu cynhyrchu o ddatblygiadau tai, a fyddai'n cael eu cyfrif gan ddefnyddio fformiwla SPGN23. Mae hyn oherwydd y nifer fawr o newidynnau dan sylw, er enghraifft, pryd fydd yr unedau'n cael eu hadeiladu; beth fydd y nifer terfynol o unedau a gaiff eu hadeiladu; faint o'r unedau hyn fydd yn gymwys i'w cynnwys yn fformiwla SPGN23; a dewis rhieni.'* Hefyd crybwyllir yn y datganiad *'gall poblogaethau disgyblion mewn ysgolion, o fewn ardaloedd a ledled y Sir gyfan amrywio dros amser, sy'n golygu efallai na fydd ysgolion sydd dan bwysau am leoedd heddiw yn yr un sefyllfa ymhen ychydig flynyddoedd, ac i'r gwrthwyneb hefyd.'* Daw'r datganiad i glo trwy ddweud '*er bod digon o le ar hyn o bryd ar lefel cynradd ac uwchradd ar draws y Sir, efallai na fydd y llefydd hyn ar gael pan fydd y galw ar ei uchaf.*' Mae'r system gynllunio yn ystyried yr amrywiadau hyn wrth gyfrifo rhwymedigaethau cynllunio ac yn ôl gofyniad polisi STR6, mae'r rhain yn cael eu ceisio'n rheolaidd pan all ddatblygiad newydd arwain at or-lenwi yn yr ysgol addas agosaf. Fodd bynnag, nid oes gan y CDLI unrhyw reolaeth uniongyrchol na dylanwad dros addysg na'r cymwysterau a gyflawnir gan ddisgyblion, ac yn y cyd-destun hwn ni all y dangosydd monitro o wella cyrhaeddiad addysgol gael ei gyflawni trwy'r CDLI. Yn hytrach, bydd y CDLI yn cael effaith niwtral. | | | | |
| | | | | | |
| **3. Gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lles i bawb a lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd** | Mynediad da at wasanaethau iechyd.<br>Rhai gwasanaethau iechyd o bosibl yn mynd dros y capasiti | *1.* Nifer y wardiau yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran iechyd, gan geisio lleihad. *Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019), mae tair Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir y Fflint ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru – Shotton Uchaf 2, Canol Treffynnon a Sealand 2.*<br>*Mae Asesiad Lles Sir y Fflint yn 2022 yn nodi ar dudalen 6 'Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MaLIC) 2019 yn egluro bod lefelau uchel o amddifadedd yng nghymunedau arfordirol Sir y Fflint (4% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig; 14%* | Proffiliau Ardal Asesiad Lles Mynegai Amddifadedd Lluosog Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd | + |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *ymysg y 20% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru), yn benodol o ran agweddau'n ymwneud â chyflogaeth, incwm, addysg a diogelwch cymunedol.'* | | | |
| | | 2. Canran y bobl sy'n cael eu hystyried i fod mewn iechyd da neu dda iawn, gan dargedu cynnydd; *Mae Asesiad Lles Sir y Fflint 2022 yn nodi ar dudalen 6 'Archwilio data mewn perthynas ag iechyd, gan gynnwys amddifadedd iechyd (15% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Sir y Fflint yn yr 20% o'r rhai mwyaf difreintiedig; yn bennaf ar hyd yr arfordir), ffigyrau disgwyliad oes cymharol (bwlch o 11.6 mlynedd ar gyfer dynion a 13.7 mlynedd ar gyfer merched rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig) a chamddefnyddio sylweddau, eto yn nodi'r un cymunedau arfordirol difreintiedig yn Sir y Fflint'.* | | | |
| | | 3. Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu ymarfer corff rheolaidd, gan dargedu cynnydd; ac *Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 yn nodi bod nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon tair gwaith yr wythnos neu fwy yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yng Nghymru mae hyn wedi cynyddu o 29% yn 2016-17 i 39%* | | | |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *yn ystod 2022-23. Yn 2019-20, adroddodd 59% o oedolion (16+ oed) eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch chwaraeon yn y pedair wythnos ddiwethaf o'i gymharu â 60% yn 2022/23.*<br>*Mae Asesiad Lles Sir y Fflint 2022 yn nodi ar dudalen 25 "Yn Sir y Fflint, mae'r ganran o bobl (16 oed a hŷn) sy'n gwneud chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos wedi cynyddu o 28% yn 2017/18 i 35% yn 2019/20 ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru (32%) (Llywodraeth Cymru, 2020).''* | | | |
| | | 4. Nifer y meddygfeydd yn y Sir sydd â chapasiti dros ben, gan geisio sicrhau bod digon o gapasiti i fodloni anghenion lleol. *Nid yw'r Cyngor yn cadw'r data hwn gan ei fod yn disgyn i gylch gwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.* | | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Gweithiodd y Cyngor yn agos gyda Betsi Cadwaladr yn ystod paratoi'r CDLI ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r Cynllun ar y cam archwilio gan y cyhoedd. Daeth y gwaith hwn i benllanw gyda chyhoeddiad Datganiad Sefyllfa gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym Mawrth 2021 i gynorthwyo gydag Archwiliad y Cynllun, o ran darpariaeth gofal iechyd yn y Sir a'r gallu i letya lefel twf y Cynllun.<br><br>Roedd Adroddiad yr Arolygydd ym mharagraff 8.21 yn nodi 'bod y fframwaith deddfwriaethol presennol â'r gallu i Awdurdodau Cynllunio Lleol sicrhau cyfraniadau ariannol ar gyfer cynyddu neu wella cyfleusterau gofal iechyd. Rydym wedi cael gwybod bod gan Sir y Fflint nifer o Ganolfannau Gofal Iechyd Sylfaenol cymharol newydd a'r broblem yw diffyg staff, gan gynnwys meddygon teulu, yn hytrach na diffyg eiddo neu gyfleusterau'. | | | | |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori â Betsi Cadwaladr ar holl geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl mawr ac mae Betsi Cadwaladr hefyd yn archwilio'r rhestr wythnosol o geisiadau cynllunio i ganfod ceisiadau y maent yn dymuno gneud sylwadau arnynt.<br><br>Dylid hefyd pwysleisio y gall y Cynllun geisio gwella iechyd a lles drwy hwyluso'r datblygiad iawn yn y lle iawn i annog cerdded a beicio a sicrhau dyluniad o ansawdd uchel sy'n croesawu buddion net bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd. | | | | |
| | | | | | |
| **4. Darparu mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd da sy'n bodloni anghenion a gofynion y gymuned** | Bydd y CDLl yn bodloni anghenion tai y gymuned gyfan | 1. Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref. *Nid yw'r CDLl yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y mater hwn. Mae gan Gyngor Sir y Fflint Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai sy'n amlinellu dull strategol Sir y Fflint tuag at gymorth tai ac atal digartrefedd.*<br>2. Cyflenwad tai mewn perthynas â'r angen o ran tai. *Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y prif Adroddiad Monitro Blynyddol o ran cyfanswm darpariaeth tai i fodloni angen y Cynllun o 6,950.*<br>3. Nifer y tai fforddiadwy. *Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y prif Adroddiad Monitro Blynyddol yn MI9, 10 a 13.* | Rheoli Datblygu, CSFf | Blynyddol | ++ |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Mae'r CDLl yn ceisio sicrhau bod anghenion tai amrywiol cymuned amrywiol Sir y Fflint yn cael eu darparu dros gyfnod y Cynllun trwy ddyrannu nifer o safleoedd tai yn ogystal â fframwaith o bolisïau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys darparu'r farchnad dai ac amrywiaeth o ddeiliadaeth o dai fforddiadwy. | | | | |
| | | | | | |
| **5. Gwella mynediad cynaliadwy at** | Bydd rhai preswylwyr newydd yn | 1. Siwrnai i'r gwaith yn ôl y dull h.y. % y rhai sy'n dewis cerdded, beicio, cymryd y bws neu'r trên i'r gwaith, gan dargedu | Data'r Swyddfa Ystadegau | Bob tair blynedd | ++ |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| **nwyddau, gwasanaethau ac amwynderau sylfaenol i bob grŵp** | debygol o gael dibyniaeth gymharol uchel ar ddefnydd o gar personol | cynnydd cyson mewn dulliau cludiant cynaliadwy;<br>2. Pellter cyfartalog a deithiwyd i'r gwaith; a<br>3. Pellter a deithiwyd i'r gwaith, gan geisio sicrhau bod preswylwyr fel arfer o fewn ychydig o gilometrau o'u man gwaith.<br><br>*Mae'r tabl isod yn dangos gwybodaeth y Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir y Fflint mewn perthynas â theithio i'r gwaith yn ôl pellter a math o gludiant. Mae'r data yn dangos fod cyfran sylweddol o bobl yn gweithio o adref ac mae mwyafrif y bobl yn teithio pellteroedd llai i'r gwaith gyda llawer llai yn teithio pellteroedd mwy. Er gwaethaf uchafiaeth siwrneiau byrrach, y prif ffordd o deithio i'r gwaith yw car neu fan breifat, gyda chyfran fach iawn yn teithio ar droed, ar feic neu ar fws. Mewn termau ehangach, ymddangosir bod cwmpas i gyfran uwch o siwrneiau i'r gwaith gael eu gwneud gyda chludiant mwy cynaliadwy na char.* | Gwladol ar y farchnad lafur | | |

**Pellter a Deithiwyd i'r Gwaith**

| | Preswylwyr Yn y gwaith | <2km | 2km – 5km | 5km – 10km | 10km–20km | 20km-30km | 30km-40km | 40km-60km | 60km+ | Gweithio o gartref | Ar y môr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | 73823 | 6520 | 8775 | 11970 | 12964 | 4291 | 1639 | 1004 | 1310 | 16269 | 9081 |
| % | | 9% | 12% | 16% | 18% | 6% | 2% | 1% | 2% | 22% | 12% |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|

| Dull Cludiant Teithio i'r Gwaith | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Preswylwyr Yn y gwaith | Gweithio gartref | Trên Metro Tanddaearol | Trên | Bws Bws mini Coets | Tacsi | Beic modur Sgwter Moped | Car / Fan | Teithiwr | Beic | Ar droed | Dull Arall |
| 2021 Cyfrifiad | 73823 | 16269 | 27 | 258 | 1675 | 356 | 365 | 45411 | 3769 | 1126 | 3996 | 571 |
| % | | 22% | 0.03% | 0.3% | 2.3% | 0.5% | 0.5% | 61% | 5% | 1.5% | 5% | 1% |

| | |
|---|---|
| Eglurhad/Dadansoddiad | Mae dyraniadau tai yn y Cynllun wedi cael eu gwneud mewn aneddiadau cynaliadwy yn agos at wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth, lle mae'r amodau yn bodoli i siwrneiau gael eu gwneud gyda dulliau cludiant mwy cynaliadwy. Mae mwyafrif y dyraniadau tai yn gallu cysylltu â llwybrau Teithio Llesol presennol neu arfaethedig. Mae caniatâd cynllunio ar safleoedd neu ddyraniadau preswyl allweddol yn dod dan yr amod o Gynllun Teithio llawn a Strategaeth Gweithredu Cludiant. |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| **6. Creu cymunedau cryf a chydlynol** | Bydd y CDLI yn sicrhau bod preswylwyr newydd yn cael eu lleoli o fewn cymunedau sydd eisoes yn bodoli. Gall y CDLI leoli preswylwyr newydd yn agos at lygryddion aer, sŵn a | 1. Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn lle y gall pobl o wahanol gefndiroedd gyd-fyw; *Nid yw'r data ar gyfer y dangosydd hwn ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.*<br>2. Cymorth a ddarperir i'r rhai sy'n teimlo'n unig ac ynysig; *Nid yw'r data ar gyfer y dangosydd hwn ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i* | Rheoli Datblygu, CSFf Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Blynyddol Awdurdodau Cyfun Gogledd Cymru | Bob tair blynedd | ++ |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | golau, y dylid ei osgoi a'i fonitro. | *fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.*<br>3. % y preswylwyr sy'n byw mewn ardaloedd sydd ag ansawdd aer sy'n beryglus o isel. *Yn seiliedig ar Adroddiadau Ansawdd Aer Cyfun Gogledd Cymru 2018, 2022 a 2023 sy'n nodi nad oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer wedi'u datgan yng Ngogledd Cymru, y ffigwr yw 0%.* | | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Mae safle strategol Porth y Gogledd yn ddatblygiad defnydd cymysg mawr yn cynnwys tai, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol, wedi'i leoli o fewn fframwaith mannau gwyrdd. Mae wedi ei leoli yng nghalon rhan Glannau Dyfrdwy o Ardal Dwf Gogledd Cymru fel y diffinnir yn Cymru'r Dyfodol. Mae'n cynrychioli cyfle cadarnhaol ar gyfer creu lleoedd a chreu cymuned gydlynol newydd, ond derbynnir yn sgil graddfa'r safle ac amserlen adeiladu, bydd hyn yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w sefydlu. Fodd bynnag, mae'r dyraniadau tai gweddillol oll yn estyniadau trefol cynaliadwy a rhesymegol i aneddiadau presennol lle mae amodau'n bodoli i ddatblygiad newydd gael ei integreiddio i fywyd cymunedol.<br><br>Mae'r holl ddyraniadau wedi bod yn destun ymgynghoriadau helaeth gydag ymgynghorai mewnol ac allanol allweddol, ac hefyd wedi cael eu hasesu gan Arolygwyr fel rhan o'r Archwiliad. | | | | |
| | | | | | |
| **7. Hyrwyddo economi gynaliadwy, datblygu busnes a buddsoddi** | Bydd y CDLI yn galluogi twf economaidd cynaliadwy | 1. Gwerth Ychwanegol Gros y pen, ceisio cynnydd; *Mae Stats Cymru yn dangos y ffigurau Gwerth Ychwanegol Gros y pen ar gyfer 2023 o £25742 ar gyfer Cymru, £36230 ar gyfer Sir y Fflint a £35661 ar gyfer y DU.*<br>2. Treth Ar Werth, ceisio cynnydd; Nid oes modd nodi unrhyw ddata ar gyfer Treth Ar Werth.<br>3. Cyfradd gweithgarwch economaidd, ceisio cynnydd. Mae StatsCymru yn | Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd | ++ |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | | dangos cyfradd gweithgarwch economaidd o 82.0% ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 o'i gymharu â 81.3% yn 2024 a 78.6% yn 2023. Ar gyfer 2025 mae hwn yn uwch na chyfradd Cymru sy'n 76.1% a chyfradd y DU sy'n 75.5%. | | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | *Mae Strategaeth y Cynllun yn seiliedig ar ddarparu lefel o dwf sy'n adlewyrchu dynodiad Glannau Dyfrdwy a Wrecsam fel Ardal Twf Cenedlaethol yn Cymru'r Dyfodol. Mae'r Cynllun wedi dynodi dau safle cyflogaeth strategol ac ystod o ddyraniadau cyflogaeth llai a fydd yn helpu i ddarparu twf economaidd. Yn benodol, mae Porth y Gogledd ac Ystâd Ddiwydiannol Penarlâg wedi gweld datblygiad a buddsoddiad yn digwydd. Mae Porth Buddsoddi hefyd wedi'i gyhoeddi ar gyfer Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a fydd yn creu swyddi pellach.* | | | | |
| | | | | | |
| **8. Darparu cyfleoedd cyflogaeth ar draws y Sir a hybu cynhwysiant economaidd** | Byddai'r CDLI yn helpu i hwyluso twf mewn cyfleoedd cyflogaeth lleol | 1. Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd yn y 10% isaf o ran amddifadedd cyflogaeth; Mae 92 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir y Fflint, o'r 0-10% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru o fewn y parth Cyflogaeth mae 1 o fewn Sir y Fflint sy'n cyfrif at 1.1% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol. Mae Canol Treffynnon yn rhif 1 o 92 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y Sir, ac yn 118 o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig o fewn y parth Cyflogaeth.<br>2. Canran y bobl 16-64 oed sy'n ddi-waith; *Cyfraddau diweithdra Ebrill 2024* | Mynegai Amddifadedd Lluosog Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y farchnad lafur | Bob tair blynedd | ++ |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *i fis Mawrth 2025 Sir y Fflint = 2.1%, Cymru = 3.6% a'r DU = 3.9%*<br>3. Cyfran o fusnesau yn Sir y Fflint sy'n cyflogi'n lleol; *Nid yw'r Cyngor bellach yn derbyn data mewn perthynas â hyn. Fodd bynnag, mae'r Tîm Datblygu Busnes yn buddsoddi amser ac adnoddau i weithio gyda chyflogwyr i gyflawni'r nod hwn.*<br>4. Cyflogaeth mewn gwahanol sectorau, gan geisio sicrhau cymysgedd amrywiol; *gweler y tabl isod*<br>5. Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 10% isaf o ran amddifadedd incwm; *Yn 2019 o'r 92 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir y Fflint roedd 2 yn disgyn o fewn y 10% mwyaf difreintiedig (ar gyfer amddifadedd cyffredinol) yng Nghymru. Roedd Shotton Uchaf 2 yn rhif 1 (133 yng Nghymru) ac roedd Canol Treffynnon yn rhif 2 (142 yng Nghymru) o fewn y parth incwm.* | | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Mae'r tabl isod yn dangos data NOMIS ar gyfer cyflogaeth yn ôl galwedigaeth rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024. | | | | |

| | Sir y Fflint | Sir y Fflint | Cymru | Prydain |
|---|---|---|---|---|
| Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion | 9,800 | 12.6% | 10.3% | 11.1% |
| Galwedigaethau Proffesiynol | 17,300 | 22.1% | 23.3% | 26.6% |
| Galwedigaethau Proffesiynol Cysylltiedig | 12,900 | 16.5% | 15.1% | 15.1% |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Galwedigaethau Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | 6,500 | 8.3% | 10.2% | 9.2% |
| Galwedigaethau â Chrefftau Medrus | 7,600 | 9.7% | 9.4% | 8.5% |
| Galwedigaethau Gofal, Hamdden a Gwasanaethau Eraill | 4,900 | 6.3% | 9.0% | 8.6% |
| Galwedigaethau Gwerthiant a Gwasanaeth Cwsmer | 7,300 | 9.3% | 6.9% | 5.8% |
| Gweithredwyr Prosesau, Offer a Pheiriannau | 3,000 | 3.9% | 5.8% | 5.6% |
| Galwedigaethau Elfennol | 8,500 | 10.8% | 9.8% | 9.1% |

Yn draddodiadol mae Sir y Fflint wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau diwydiannol traddodiadol ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y tabl uchod. Yn fwy diweddar, mae'r Sir wedi gweld tuedd tuag at weithgynhyrchu uwch o ansawdd uwch, cysylltiadau â'r diwydiant awyrofod yn ogystal â storio a dosbarthu. Fe'i welir fel lleoliad allweddol yng Nghymru ar gyfer gweithgynhyrchu uwch, fel yr adlewyrchir yn y sefydliad diweddar o Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch ym Mrychdyn. Wrth gydnabod yr angen am economi amrywiol a chadarn, dylid parhau i ganolbwyntio ar y rôl gweithgynhyrchu uwch.

Mae'r Cynllun yn ceisio darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth drwy ddyrannu tir ar gyfer datblygu cyflogaeth, diogelu ardaloedd diwydiannol presennol fel Prif Ardaloedd Cyflogaeth a thrwy fframwaith o bolisïau i sicrhau datblygiad cyflogaeth priodol mewn mannau eraill yn y Sir. Mae Swyddogion Cynllunio yn gweithio'n agos gyda Thîm Datblygu Busnes y Cyngor i ddod â chymaint o fuddion i'r boblogaeth leol â phosibl. Bydd darparu dyraniadau a pholisïau'r Cynllun felly'n cael buddion cadarnhaol o ran y dangosydd hwn.

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| **9. Gwarchod a hybu bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | Gall y CDLI gael effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth mewn rhai lleoliadau. | 1. Nifer y cynlluniau datblygu sy'n mabwysiadu mesurau gwella bioamrywiaeth; *Mae PCC12 wedi cadarnhau gofyniad cenedlaethol newydd ar gyfer Buddion Net Bioamrywiaeth i gael ei sicrhau ymhob datblygiad mewn modd cymesur.*<br>2. Cyfanswm y canopi coed yn y Sir, gan dargedu cynnydd net; *Yn Adroddiad* | Rheoli Datblygu, CSFf. Canlyniadau arolwg SoDdGA CNC | Bob tair blynedd | ++ |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *CNC ar Orchudd Coed Trefol yng Nghymru yn 2013, roedd gan Sir y Fflint gyfartaledd is o Orchudd Canopi Coed o 14.5% gyda chyfartaledd cenedlaethol o 16.3%. Cafodd yr arolwg hwn ei ddiweddaru yn 2019 lle gostyngodd y ffigwr i 14.3% (Cyfartaledd Cenedlaethol 16.4%). Mae PCC12 Pennod 6 yn rhoi canllawiau diwygiedig o ran coed a chanopi coed.*<br>3. Cyflwr y SoDdGA yn y Sir. *Mae dynodiad, monitro a gorfodi SoDdGA a'u cyflwr yn fater ar gyfer CNC. Mae Ecolegwyr y Cyngor yn gweithio'n agos gyda CNC a bydd y Cyngor yn ymgynghori gyda CNC ar yr holl geisiadau cynllunio, yn enwedig pan fyddant yn gallu effeithio ar SoDdGA.* | | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Mae dyraniadau'r Cynllun wedi bod yn destun ymgynghoriad gydag ymgynghorai statudol allweddol a budd-ddeiliaid eraill yn ogystal â chyfranogiad Ecolegwr y Cyngor. Roedd y dyraniadau hefyd yn destun craffu agos fel rhan o'r broses Archwilio, ac fe'u hystyriwyd yn gadarn. Felly ni fydd dyraniadau'r Cynllun yn arwain at niwed andwyol i fioamrywiaeth.<br><br>Mae polisïau STR13, EN6 ac EN7 yn darparu'r sail er mwyn diogelu bioamrywiaeth ond hefyd yn sicrhau gwelliannau fel rhan o ddatblygiad newydd. Mae'r polisïau, wedi cael eu goresgyn gan y canllawiau diwygiedig ym Mhennod 6 PCC12 a'r gofyniad i holl ddatblygiadau newydd sicrhau buddion net bioamrywiaeth sy'n gymesur. Bydd y polisïau a PCC12 yn cael effaith gadarnhaol o ran y dangosydd hwn. | | | | |
| | | | | | |
| **10. Cadw a gwella cymeriad ac ansawdd tirlun a thirwedd y Sir** | Gall y CDLI gael effeithiau andwyol ar y | 1. Swm y datblygiad yng nghefn gwlad; *Nid yw'r Cyngor yn monitro datblygiadau newydd yng nghefn gwlad agored yn benodol, dim ond trwy'r* | Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd | 0 |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | tirlun mewn rhai lleoliadau. | *gofrestr cynllunio. Mae holl gynigion datblygu yng nghefn gwlad agored yn cael eu hasesu ar eu rhinweddau yn erbyn polisïau'r Cynllun a PCC12. Ystyrir bod y 'swm' o ddatblygiad sy'n digwydd yn llai pwysig na lleoliad, math a chynaliadwyedd pob cynnig a'r effaith ar dirlun a niwed i gymeriad ac ymddangosiad.*<br>2. Datblygiad o fewn, wrth ymyl neu a gaiff ei weld o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. *Cyfeirir at hyn yn MI46 yn y prif Adroddiad Monitro Blynyddol.* | | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Mae polisïau STR2 a PC1 yn y Cynllun yn adlewyrchu PCC12 sy'n ceisio rheoli datblygiad newydd yng nghefn gwlad agored yn llym. Mae polisi EN4 yn ceisio diogelu cymeriad y tirlun yn gyffredinol ac mae polisi EN5 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn rheoli datblygiad newydd yn ac o fewn lleoliad yr AHNE. Mesurir hyn yn MI46 yn y prif Adroddiad Monitro Blynyddol. Ni ystyrir swm y datblygiad yn ffactor drechol gan mai'r mater pwysicaf yw math, lleoliad, dyluniad a thirlun y datblygiad. Cynhelir ymgynghoriad ar bob datblygiad yn yr AHNE gyda CNC a'r Cyd-bwyllgor AHNE. Mae'r polisïau yn y cynllun ond yn caniatáu datblygiad penodol sydd yn hollol gyfiawn ac yn asesu o ran diogelu cymeriad ac ymddangosiad yr AHNE.<br><br>Mae polisïau STR13, PC2 a PC3 yn ceisio diogelu'r amgylchedd adeiledig neu dreflun. Fodd bynnag, gall y Cynllun ond ceisio cyflawni hyn pan gyflwynir datblygiad newydd trwy weithredu egwyddorion dylunio da a chreu lleoedd.<br><br>Mae dyraniadau'r Cynllun wedi bod yn destun ymgynghoriad gydag ymgynghorai statudol allweddol a budd-ddeiliaid eraill yn ogystal â chyfranogiad Swyddog Cadwraeth Adeiledig y Cyngor. Roedd y dyraniadau hefyd yn destun craffu agos fel rhan o'r broses Archwilio, ac fe'u hystyriwyd yn gadarn. Felly ni fydd dyraniadau'r Cynllun yn arwain at niwed andwyol i'r treflun na'r tirlun. Ystyrir ar y cyfan y bydd y Cynllun yn cael effaith niwtral o ran y dangosydd hwn. | | | | |
| | | | | | |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| **11. Gwarchod a hybu'r asedau treftadaeth ddiwylliannol** | Gall y CDLI gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol mewn rhai lleoliadau. | 1. Cyfran y datblygiad newydd sy'n mabwysiadu mesurau osgoi neu liniaru mewn perthynas ag asedau treftadaeth. *Nid yw hyn yn cael ei fonitro'n benodol gan ystyrir pob datblygiad ar eu rhinweddau unigol.*<br>2. Nifer yr Adeiladau Rhestredig sydd ar y gofrestr 'mewn perygl', gan geisio lleihad. *Mae 1035 o Adeiladau Rhestredig yn Sir y Fflint ac mae 115 o'r rheiny ar y Gofrestr Risg a ddiweddarwyd ym mis Tachwedd 2023. Mae'r Gofrestr yn cael ei chynnal a chadw gan Cadw ac ond yn cael ei diweddaru unwaith bob 5 mlynedd.* | Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd | 0 |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Mae Polisi STR13 yn mynd i'r afael â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol yn gyffredinol, tra mae polisi EN8 yn ceisio gwarchod Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig a'u lleoliadau, mae EN9 yn delio ag ardaloedd cadwraeth ac EN10 yn delio ag Adeiladau o Ddiddordeb Lleol. Mae adain cadwraeth y Cyngor, Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys a Cadw yn cael eu hymgynghori ar holl geisiadau perthnasol a bydd unrhyw fesurau lliniaru yn cael eu cynnwys fel bo'n briodol. Mae dyraniadau'r Cynllun wedi bod yn destun ymgynghoriad gydag ymgynghorai statudol allweddol a budd-ddeiliaid eraill yn ogystal â chyfranogiad Swyddog Cadwraeth Adeiledig y Cyngor. Roedd y dyraniadau hefyd yn destun craffu agos fel rhan o'r broses Archwilio, ac fe'u hystyriwyd yn gadarn. Felly ni fydd dyraniadau'r Cynlluniau yn arwain at niwed andwyol i'r amgylchedd adeiledig hanesyddol. Yn gyffredinol, mae polisïau'r Cynllun yn debygol o gael effaith niwtral o ran y dangosydd hwn. | | | | |
| | | | | | |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| **12. Gwarchod a gwella ansawdd nodweddion ac adnoddau dŵr** | Gall y CDLI beri risg i ansawdd y dŵr mewn cyrff dŵr naturiol mewn rhai lleoliadau. Byddai'r CDLI yn arwain at gynnydd net mewn defnydd dŵr. | 1. Faint o ddatblygiadau newydd bob blwyddyn y mae angen caniatâd i'w hadeiladu wrth ymyl yr Afon Dyfrdwy. *Nid yw'r Cyngor yn cadw gwybodaeth mewn perthynas â chaniatâd neu drwyddedau o ran yr amgylchedd ddŵr gan fod hyn o fewn cylch gwaith CNC.*<br>2. Argaeledd adnoddau dŵr yn unol â'r Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (bob 5 mlynedd). *Mae prif ganlyniad Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft Diwygiedig Dŵr Cymru 2024, yn dangos nad oes unrhyw broblemau cadernid cyflenwad ar gyfer parth Alwen Dyfrdwy y mae Sir y Fflint yn rhan ohono.* | Rheoli Datblygu, CSFf | Blynyddol | 0 |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Mae polisi EN5 Adnoddau Dŵr yn darparu canllawiau manwl o ran datblygiad a all effeithio ar adnoddau dŵr. Mewn cydweithrediad â CNC sy'n cael eu hymgynghori ar geisiadau o'r fath, ni ddylai'r CDLI arwain at unrhyw niwed i'r amgylchedd dŵr. Mae dyraniadau'r Cynllun wedi bod yn destun ymgynghoriad gydag ymgynghorai statudol allweddol a budd-ddeiliaid eraill. Roedd y dyraniadau hefyd yn destun craffu agos fel rhan o'r broses Archwilio, ac fe'u hystyriwyd yn gadarn. Felly ni fydd dyraniadau'r Cynlluniau yn arwain at niwed andwyol i'r amgylchedd dŵr. Byddai'r niwed sy'n codi o gynigion datblygu ar hap i'r adnoddau dŵr yn cael ei atal gan Bolisi EN15. Mae'r Cynllun yn debygol o arwain at gael effaith niwtral mewn perthynas â'r dangosydd hwn. | | | | |
| | | | | | |
| **13. Lleihau'r perygl o lifogydd** | Byddai'r CDLI yn amlygu nifer cyfyngedig o breswylwyr a busnesau i ddŵr wyneb a pherygl llifogydd afonol. | 1. Canran o ddatblygiadau gyda Systemau Draenio Cynaliadwy; O 7 Ionawr 2019, bydd angen i bob gwaith adeiladu yng Nghymru gyda goblygiadau draenio, o 100m² neu fwy, gael Systemau Draenio Cynaliadwy i reoli dŵr wyneb ar y safle (os ydynt angen caniatâd cynllunio ai peidio). *Nid oes gan y Cyngor y wybodaeth ar % y* | Rheoli Datblygu, CSFf | Blynyddol | + |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *ceisiadau cynllunio sy'n cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy ar gael gan eu bod yn ddau arfer caniatâd gwahanol. Y ffaith bwysig yw bod Systemau Draenio Cynaliadwy yn ofyniad cenedlaethol ar gyfer mathau / meintiau penodol o ddatblygiadau.*<br>2. Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ar lifogydd. *Ni chedwir data penodol gan y Cyngor mewn perthynas â'r mesur hwn. Ddim yn ymwybodol o unrhyw geisiadau cynllunio sydd wedi cael eu cymeradwyo yn groes i gyngor CNC.* | | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Mae Polisi EN14: Perygl Llifogydd yn mabwysiadu dull cynaliadwy a rhagofalus tuag at reoli perygl llifogydd trwy osgoi datblygu mewn ardaloedd sydd mewn risg o lifogydd neu sicrhau bod risgiau a chanlyniadau llifogydd yn cael eu rheoli a'u lliniaru yn foddhaol. Bydd angen i geisiadau cynllunio fodloni'r profion o fewn TAN15 ac ystyried cyngor CNC yn eu hymateb ymgynghori.<br><br>Mae rheoli dŵr wyneb ar gyfer datblygiad newydd yn ystyriaeth faterol fel y pwysleisir yng Nghymru yn dilyn gweithrediad Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 o 7 Ionawr 2019. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â'r Safonau Cenedlaethol gofynnol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Dylai holl ddatblygiadau newydd gydag ardal waith adeiladu sy'n fwy na 100m2, gydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol. Fodd bynnag, rheolir y gofyniad am Systemau Draenio Cynaliadwy gan Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy, ac mae'n broses ganiatâd wahanol i gynllunio. Fodd bynnag, dylai datblygiadau newydd arwain at gael cyfradd dŵr wyneb ffo llai, gan gael effaith cadarnhaol mewn perthynas â'r mesur hwn. | | | | |
| | | | | | |
| **14. Gwarchod a gwella ansawdd yr aer a** | Byddai disgwyl i'r CDLI arwain at gynnydd net | 1. Cyfanswm a chyfran yr allyriadau CO2 o'r sector cludiant. *Mae'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn nodi* | Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth | Blynyddol | 0 / + |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| **chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr** | mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd aer | *allyriadau $CO_2$ cludiant o 343.9Kt ar gyfer Sir y Fflint. Mae'r ffigurau isod yn dangos gostyngiad graddol mewn allyriadau $CO_2$ o gludiant gyda gostyngiad amlwg yn 2020 oherwydd y cyfyngiadau covid:*<br>2022 348.5<br>2021 343.9<br>2020 311.2<br>2019 389.6 | Ddiwydiannol. Ystadegau cenedlaethol ar allyriadau carbon deuocsid fesul Awdurdod Lleol yn y DU 2005 -2019 | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Fel y cyfeirir ym Mesur 6 ar hyn o bryd nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Sir y Fflint. Dylid pwysleisio fod dyraniadau tai wedi cael eu gwneud mewn lleoliadau sy'n cynrychioli estyniadau rhesymegol a chynaliadwy i aneddiadau lle mae amodau'n bodoli ar gyfer defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio yn hytrach na cheir. Mae safle strategol Porth y Gogledd yn cynrychioli datblygiad defnydd cymysg yng nghanol ardal trefol a Pharth Twf Gogledd Cymru a ddiffinnir yn Cymru'r Dyfodol. Mewn cyfuniad â cherbydau allyriadau isel, dylai hyn arwain at wella, neu o leiaf dim gwaethygu, ansawdd aer. Nododd erthygl yn The Leader yn 2021 bod cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ yn Sir y Fflint wedi gostwng o 12.7% rhwng 2009-2019. O ran y mesur hwn, dylai'r Cynllun arwain at effaith niwtral neu gadarnhaol. | | | | |
| | | | | | |
| 15. Gwella effeithlonrwydd o ran ynni, mae angen defnyddio ynni adnewyddadwy a dyluniad adeiladu cynaliadwy | Byddai disgwyl i'r CDLI arwain at gynnydd net yn y defnydd o ynni | 1. Cyfartaledd bil tanwydd blynyddol preswylwyr; *Mae data Ystadegol Llywodraeth y DU ar filiau ynni domestig blynyddol (tabl 2.6.2) yn dangos fod gwariant cyfartalog bob wythnos ar danwydd fesul aelwyd yn y DU yn y flwyddyn 2021/22 yn £58.90 neu £3,062.80 y flwyddyn (gan gynnwys trydan, nwy, tanwydd solid, olew gwresogi a thanwydd eraill a thanwydd modur). Fodd bynnag, nid yw mesur sy'n ymwneud â chost ynni yn* | Rheoli Datblygu, CSFf | Blynyddol | 0 |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *angenrheidiol yn adlewyrchiad cywir o'r swm o ynni a ddefnyddir.*<br>2. Nifer y prosiectau ynni adnewyddadwy a ganiateir yn y Sir; *Gweler Adroddiad Monitro Blynyddol MI47 a 48* | | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Mae'r Cynllun yn ceisio dod â datblygiad ynni effeithlon ond mae'n gyfyngedig o ran beth all gyflawni'n uniongyrchol gan fod materion o'r fath o fewn cylch gwaith Rheoliadau Adeiladu. Mae'r Cynllun wedi nodi ardaloedd chwilio ar gyfer datblygu solar ac mae fferm solar graddfa fawr wedi cael caniatâd cynllunio yn ddiweddar ym Mrychdyn. | | | | |
| **16. Sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol** | Byddai disgwyl i'r CDLI arwain at golled net o bridd sy'n bwysig yn ecolegol ac yn amaethyddol | 1. % y datblygiad sy'n digwydd ar y tir gorau a mwyaf amlbwrpas; *gweler y sylwadau isod.*<br>2. Canran y tir adferwyd, fel cyfran o'r cyfanswm o dir halogedig yn y Sir; *nid oes gan y CDLI y data ar gael mewn perthynas â'r mesur hwn. Fodd bynnag, mae'r holl geisiadau cynllunio sy'n ymwneud â thir halogedig yn destun ymgynghoriad gyda swyddog tir halogedig y Cyngor ac mae mesurau osgoi neu liniaru addas yn cael eu hymgorffori i gynlluniau ac yn cael eu rheoli gan ganiatâd cynllunio.*<br>3. % y datblygiadau newydd sy'n cynnwys cyfleusterau rheoli gwastraff; *Nid oes gan y CDLI y data ar gael mewn perthynas â'r mesur hwn. Fodd bynnag, bydd gwastraff ailgylchu'r holl dai newydd yn cael ei gasglu gan y Cyngor. Hefyd, mae gofyn bod yr holl weithleoedd ac adeiladau cyhoeddus* | Rheoli Datblygu, CSFf | Blynyddol | 0 / - |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *bellach yn darparu cyfleusterau ailgylchu i reoli gwastraff yn well.* | | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Mae polisïau'r Cynllun eisoes yn rheoli datblygiadau newydd yng nghefn gwlad agored yn llym. Unrhyw gais ble byddai map dosbarthiad tir amaethyddol yn dangos y posibilrwydd o Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yna bydd arolwg safle yn ofynnol a bydd ymgynghoriad yn cael ei gyflawni gyda Llywodraeth Cymru. Hyd yn oed pe brofir bod Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn cael ei effeithio, mae'n rhaid cyflawni cydbwysedd cynllunio rhwng colli Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ac ystyriaethau cynllunio materol eraill e.e. y Fferm Solar yn Bretton, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Fe wnaeth y Cyngor baratoi Papur Cefndir ar dir amaethyddol ar gyfer Archwilio, ac roedd hyn yn egluro sut oedd paratoi'r Cynllun wedi ceisio lleihau colli Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. Roedd y papur yn amlygu mai dim ond un o ddyraniadau cyflogaeth y Cynllun fyddai'n cynnwys colli Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ac roedd hwn yn safle a oedd eisoes wedi'i ddyrannu yn y CDU blaenorol. O ran tai, roedd 6 o'r 11 o ddyraniadau tai yn cynnwys colli Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. Aseswyd y mater fel rhan o'r broses Archwilio, yng ngoleuni cefnogaeth Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i'r dull a gymerwyd, a bu i'r Arolygydd ystyried y dull i fod yn un cadarn. | | | | |
| | | | | | |
| **17. Annog gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg** | Gall y CDLI beri risg o wanhau'r nifer sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd sensitif | 1. % y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir; *Gweler MI50 yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol*<br>2. Cyfraniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol neu Gytundeb Adran 106 o ddatblygiadau mawr mewn ardaloedd lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn y Ward – ar gyfer gwersi neu weithgareddau cymunedol Cymraeg neu'n gysylltiedig ag Addysg. *Mae Papur Cefndir 12 y Gymraeg yn nodi'r ymchwil a'r dystiolaeth o'r arfarniad (neu AEI) ac yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw niwed i'r iaith* | Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd | 0 |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder | Effaith a ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *wedi'i nodi gan unrhyw un o'r dyraniadau tai yn y CDLl.* | | | |
| Eglurhad/Dadansoddiad | Yr unig ddatblygiad tai mawr yn y sir yw'r dyraniadau tai nad ydynt yn strategol a safle strategol defnydd cymysg Porth y Gogledd. Cafodd yr holl ddyraniadau eu hasesu fel rhan o'r prif AEI ac hefyd yn yr archwiliad ac ni chanfuwyd unrhyw effaith ar y Gymraeg. Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar safleoedd dyranedig, nid oedd hyn yn fater cyffredin a godwyd gan y gwrthwynebwyr. Yn ystod cyfnod y cynllun gall hap-safleoedd datblygu tai a safleoedd tai fforddiadwy godi a bydd y rhain yn cael eu hasesu ar eu rhinweddau unigol yn erbyn canllawiau yn TAN 20 Cynllunio a'r Gymraeg a PCC 12. | | | | |

**Casgliadau**

5.4 Mae'r Cynllun wedi bod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol ynghyd â nifer o asesiadau eraill sydd wedi cyfuno i un Asesiad o Effaith Integredig. Mae hyn wedi bod yn broses ailadroddol gyda'r arfarniad yn cael ei gynnal o'r camau cynharaf o baratoi'r Cynllun a thrwy bob cam allweddol o'r gwaith paratoi. Daeth yr Asesiad o Effaith Integredig i ben mewn adroddiad terfynol yn cyd-fynd a'r CDLl mabwysiedig. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol o ran cyflawni datblygiad cynaliadwy, gweithio tuag at gyflawni nodau lles heb unrhyw niwed amgylcheddol.

5.5 Yn dilyn mabwysiadu, mae'n rhaid monitro gweithrediad y Cynllun yn erbyn 17 amcan yr AEI. Mae'r tabl uchod yn dangos nifer o ddangosyddion monitro neu gwestiynau ar gyfer pob amcan. Mewn rhai achosion, mae wedi bod yn anodd cael gwybodaeth gyfredol neu berthnasol, ond bydd gwaith pellach yn cael ei gyflawni ar y rhain yn barod ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol. Mewn achosion eraill, mae polisïau'r Cynllun wedi cael eu trechu gan newidiadau i ganllawiau cynllunio cenedlaethol megis y gofyniad am fuddion net mannau gwyrdd a bioamrywiaeth yn PCC12. Ond ar gyfer y mwyafrif o amcanion, mae wedi bod yn bosib darparu data neu dystiolaeth neu eglurhad o ran sut mae polisïau'r Cynllun yn cael eu gweithredu fel rhan o benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd y Cynllun yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol ar yr amcanion. Rhaid pwysleisio na all y Cynllun ddylanwadu ar rai materion neu ystyriaethau mewn modd cyffredinol, gan ei fod wedi cyfyngu i'w gylch gwaith cynllunio, h.y. trwy ddatblygiad newydd.

5.6 Mae nifer o ddangosyddion AoG lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi yn flynyddol, er enghraifft y rhai sy'n seiliedig ar y cyfrifiad. Mae goblygiadau pandemig Covid hefyd wedi golygu nad yw rhai gwybodaeth wedi bod ar gael. Pwrpas y

fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol, o ganlyniad nid yw'r rhain o reidrwydd yn mynd i fod yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen o ran monitro yn y dyfodol. Fodd bynnag maent wedi cael eu cadw er mwyn darparu gwaelodlin, bydd gwaith pellach yn cael ei gyflawni mewn pryd ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf er mwyn penderfynu os yw ffynonellau amgen o wybodaeth ar gael.

## 6. Casgliadau ac Argymhellion

### Casgliadau

6.1 Dyma'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar gyfer CDLI Sir y Fflint ers ei fabwysiadu ar 23/01/23 ac mae'n monitro'r cyfnod 12 o 01/04/23 i 31/03/24. Cafodd yr AMB hwn ei baratoi yn unol â chyngor Llyfryn Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru Rhifyn 3.

6.2 Mae adolygiad wedi'i gynnwys ym Mhennod 2 i amlygu unrhyw newid yn y cyd-destun y mae'r cynllun yn gweithredu ynddo. Nid oes unrhyw newid mewn deddfwriaeth na chanllawiau cynllunio cenedlaethol sydd wedi effeithio ar weithrediad Strategaeth y Cynllun. Y newid cyd-destunol allweddol sydd wedi effeithio ar y cynllun yw'r dirywiad economaidd a'r argyfwng costau byw parhaus yn dilyn yn agos o'r heriau yn sgil COVID. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa ariannol anodd i adeiladwyr tai yn benodol. Mae'r bennod hon hefyd yn nodi agweddau cadarnhaol fel Llywodraeth y DU yn nodi Glannau Dyfrdwy a Wrecsam yn Barth Buddsoddi – a ddylai ddod ag amrywiaeth o fuddion i fuddsoddwyr a gweithredwyr.

6.3 Mae Pennod 3 yn nodi'r dangosyddion monitro allweddol neu graidd ar gyfer y cynllun. Mae'r dangosyddion yn dangos bod nifer y tai sydd wedi'u cwblhau ychydig yn uwch na'r ffigwr cyfradd unffurf gofynnol o 463 uned y flwyddyn, a bod y gyfradd gyflawni gyfartalog yn 472 uned y flwyddyn. Fodd bynnag, o'i gymharu â'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir yn y taflwybr mabwysiedig, mae'r cynllun ar ei hôl hi. Mae sawl rheswm wedi'i nodi ym Mhennod 3 i egluro hyn ond mae yna gamau cadarnhaol i leddfu hyn fel cynnydd ar safle strategol Porth y Gogledd a'r rhan fwyaf o'r safleoedd tai dyranedig eraill yn cael caniatâd cynllunio, neu geisiadau cynllunio, a gallu symud ymlaen at gyflawni. Mae'r taflwybr diwygiedig yn dangos y bydd ffigwr gofyniad tai'r cynllun o 6,950 uned yn cael ei gyflawni gyda 47 dros ben. Yn hytrach na'r patrwm cyflawni mwy graddol yn y taflwybr mabwysiedig, mae'r taflwybr diwygiedig yn dangos darpariaeth fwy crynodedig, gyda mwyafrif y ddarpariaeth yn rhedeg 3 blynedd tu ôl i'r hyn a ragwelwyd.

6.4 Dylid pwysleisio bod y cynllun wedi datblygu i fabwysiad gyda pherthynas waith agos gyda pherchnogion safleoedd a datblygwyr posibl er mwyn dangos argaeledd, hyfywedd a'r ddarpariaeth angenrheidiol, ac ystyrir fod hyn yn gadarn yn dilyn Archwiliad. Mae hyn yn dal i fod yn berthnasol rŵan, gyda chynnydd da wedi'i wneud i gyflwyno'r holl safleoedd tai dyranedig. Mae tai wedi bod yn destun monitro blynyddol yn ystod y cyfnod cyn yr ail AMB hwn, sy'n cynnwys ymgynghori gyda chynrychiolwyr bob hap-safle dyranedig ac ymrwymedig (mawr). Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda datblygwyr i sicrhau bod y caniatâd sy'n weddill yn cael eu cyflwyno'n amserol, ond yn y pendraw mae darpariaeth yn fater ar gyfer y datblygwyr, gan nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth na mewnbwn uniongyrchol.

6.5 Mae sefyllfa debyg yn cael ei gyflwyno o ran tai fforddiadwy, lle mae darpariaeth wedi bod yn is na'r hyn a ragwelir, yn bennaf yn sgil safleoedd tai

dyranedig ddim yn darparu tai eto. Fodd bynnag, bydd y safleoedd dyranedig hyn yn darparu nifer sylweddol o dai fforddiadwy a rhagwelir y gellir cyrraedd y targed o 2,265 o unedau.

6.6 O ran tir cyflogaeth, mae cynnydd da wedi digwydd yn Safle Strategol Porth y Gogledd gyda chaniatâd cynllunio wedi'i roi, adeiladu ac agor depo Amazon a dechrau adeiladu'r felin bapur a'r unedau storio. Mae cynnydd da hefyd wedi'i wneud ym Mharc Penarlâg gyda chamau 1 a 2 Parc Busnes Vista wedi'u gorffen. Mae gwaith technegol pellach wedi'i wneud gan ymgynghorwyr arbenigol Llywodraeth Cymru o ran y cyfyngiad llwybr hedfan awyrenegol ar Safle Strategol Warren Hall. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cysylltu'n agos ag Airbus a bydd yn hysbysu graddfa ffisegol yr ardal y gellir ei datblygu ac uchder y datblygiad adeiledig ymhellach. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gais cynllunio amlinellol ar gyfer y safle. Mae oedi wedi bod o ran darparu'r safle, ond mae cyllid y Cynllun Twf wedi'i ddyrannu er mwyn darparu'r isadeiledd angenrheidiol.

6.7 Mae Pennod 4 yn nodi'r dangosyddion monitro lleol ac yn cynnwys amcanion a pholisïau'r cynllun, megis lletemau glas, datblygiad manwerthu a chanol trefi, cyfleusterau cymunedol, mwynau a gwastraff, isadeiledd gwyrdd, cludiant cynaliadwy, datblygu cyflogaeth, yr amgylchedd adeiledig hanesyddol a naturiol, perygl llifogydd ac ati. Ar y cyfan, mae'r dangosyddion hyn yn cael eu cyflawni gan bolisïau'r CDLl.

6.8 Mae Pennod 5 yn mynd i'r afael â'r dangosyddion monitro sydd wedi'u cynnwys yn Arfarniad Cynaliadwyedd y cynllun. Yn achos y CDLl, mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi cael eu cynnwys gydag ystod o asesiadau eraill i ffurfio Asesiad o Effaith Integredig. Mae perfformiad y cynllun yn erbyn y dangosyddion hyn yn dangos fod ei bolisïau yn gweithio tuag at gyflawni datblygiad cynaliadwy a nodau lles heb arwain at niwed amgylcheddol sylweddol.

6.9 Ar y cyfan, gellir dod i'r casgliad fod strategaeth, polisïau a chynigion y cynllun yn parhau i fod yn berthnasol, priodol a chyfredol a bod cynnydd da yn cael ei wneud yn narpariaeth y cynllun. Er gwaethaf yr oedi o ran darpariaeth tai, ni ystyrir bod achos i bryderu, ac ni ystyrir bod achos i adolygu'r cynllun.

6.10 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r gofyniad i adolygu'r cynllun bedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu h.y. 24/01/27. Ystyrir bod, yn dilyn cyflwyno'r ail AMB ac ochr yn ochr â pharatoi'r trydydd AMB, gwaith yn cael ei wneud o ran paratoi Adroddid Adolygu drafft a Chytundeb Cyflawni drafft. Rhagwelir y bydd yr Adroddiad Adolygu drafft yn destun ymgynghoriad ddiwedd 2026, ac yna ymgynghoriad ynghylch y Cytundeb Cyflawni drafft ddechrau 2027. Byddai hynny wedyn yn galluogi'r Cyngor i ddechau adolygu'r cynllun cyn y dyddiad sbardun i adolygu'r cynllun bob pedair blynedd. Byddai'n galluogi'r Cyngor i sicrhau cynnydd da wrth adolygu'r cynllun cyn y dyddiad terfyn o 31/03/30 ar gyfer mabwysiadu'r CDLl.

**Argymhelliad**

6.11 Argymhellir bod y Cyngor yn parhau i fonitro gweithrediad y cynllun, gyda sylw penodol at weithio gyda datblygwyr i sicrhau bod y safleoedd tai dyranedig yn dod ymlaen yn amserol. Argymhellir hefyd, ar ôl cyflwyno'r ail AMB ac ochr yn ochr â'r gwaith ar y trydydd, bod gwaith yn cael ei wneud yn barod ar gyfer dechrau adolygu'r cynllun.

## Atodiad A - Safleoedd Mawr yn Ebrill 2025

| Safleoedd ymrwymedig | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle a chyfeirnod** | **Haen** | **Capasiti'r safle** | **Cyfanswm wedi'u cwblhau 2024-25** | **Cyfanswm y safleoedd wedi'u cwblhau** | **Unedau heb ddechrau arnynt 01/04/25** | **Unedau yn cael eu hadeiladu** | **Unedau sy'n weddill 01/04/25** | **Sylwadau** |
| Wilcox Coach Works, Afonwen (AFN006) | 5 | 19 | 0 | 0 | 0 | 19 | 19 | Yn cael ei adeiladu – cais cynllunio 268/24 ar gyfer cynllun diwygiedig yn cael ei ystyried |
| Mount Pool, Bwcle (BUC079) | 1 | 18 | 2 | 15 | 0 | 3 | 3 | Yn cael ei adeiladu. Freed Homes (20 uned ond wedi colli 2 annedd felly wedi cofnodi 18 uned). |
| Depo F G Whitley, Bwcle (BUC080) | 1 | 41 | 5 | 38 | 0 | 3 | 3 | Yn cael ei adeiladu. |
| Yn ymyl Mill Lodge, Bwcle (BUC220) | 1 | 19 | 0 | 0 | 10 | 9 | 19 | 13 tŷ a 6 fflat Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn 29/01/2020. Blueoak Estates Ltd. Yn cael ei adeiladu. |
| The Hayfield, Cheshire Lane, Bwcle (BUC 231) | 1 | 14 | 0 | 0 | 0 | 14 | 14 | Yn cael ei adeiladu. Quatrefoil Homes.Bydd yr unedau wedi'u cwblhau yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. |
| Summerhill Farm, Caerwys (CAE007) | 3 | 60 | 0 | 16 | 44 | 0 | 44 | Cam 2 wedi'i gwblhau Perchennog y tir yn symud ymlaen â'r safle. Cais cynllunio cyfredol 220/25 i gymeradwyo manylion yn ymwneud â 397/22 ar gyfer y cam nesaf, 9 uned. |
| I'r De o'r Larches, Ewlo (EWL043) | 2 | 10 | 0 | 8 | 1 | 1 | 2 | Dwy uned ar ôl. |
| Croes Atti, y Fflint (FLI002) | 1 | 615 | 15 | 615 | 0 | 0 | 0 | Anwyl – Wedi'i gwblhau 2024/25. |
| Clwb Gweithwyr y Fflint (FLI048) | 1 | 15 | 0 | 4 | 11 | 0 | 11 | Wedi'i ddatblygu'n rhannol a dim gweithgaredd ar y safle ar hyn o bryd. Caniatâd cynllunio wedi'i ddiogelu oherwydd bod y safle wedi'i ddatblygu'n rhannol. |
| Sefydliad Gronant, LL19 9TN | 3 | 14 | 0 | 0 | 0 | 14 | 14 | Trawsnewid adeilad sefydliad / codi adeiladau newydd i ddarparu 12 uned ar gyfer y farchnad a 2 uned fforddiadwy Hap-safle newydd yn cael ei adeiladu. |
| Rainbow Inn, Ffordd Rhuthun, Gwernymynydd (GYM013) | 4 | 17 | 2 | 17 | 0 | 0 | 0 | Wedi'i gwblhau 2024/25. |

| Safleoedd ymrwymedig | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle a chyfeirnod** | **Haen** | **Capasiti'r safle** | **Cyfanswm wedi'u cwblhau 2024-25** | **Cyfanswm y safleoedd wedi'u cwblhau** | **Unedau heb ddechrau arnynt 01/04/25** | **Unedau yn cael eu hadeiladu** | **Unedau sy'n weddill 01/04/25** | **Sylwadau** |
| Ysbyty Lluesty, Treffynnon (HOL028) | 1 | 89 | 0 | 28 | 55 | 6 | 61 | Yn cael ei adeiladu – McCrory Holdings. Dim newid ers 2024 ond mae'r datblygwr yn gobeithio cwblhau'r 6 uned sy'n cael eu hadeiladu erbyn y flwyddyn nesaf. |
| I'r Dwyrain o Ffordd Helygain, Treffynnon (HOL015) | 1 | 44 | 0 | 0 | 44 | 0 | 44 | Caniatâd cynllunio llawn wedi'i roi ar 27/11/2018 a manylion dilynol wedi'u cymeradwyo – WWHA – mae cyfnod dechrau'r cais Adran 73 749/22 a gymeradwywyd wedi'i estyn. |
| Tŷ Carreg, Stryt Isa, yr Hôb (HCA071) | 2 | 14 | 3 | 14 | 0 | 0 | 0 | Quatrefoil Homes –safle wedi'i gwblhau 2024/25. |
| Ffatri 2, Allt Pontybodkin, Coed-llai (LEE033) | 3 | 26 | 0 | 0 | 26 | 0 | 26 | Cael caniatâd cynllunio llawn ar 22/9/21 – Foxbury Developments HAP-SAFLE |
| Iard Goed Bromfield, yr Wyddgrug (MOL020) | 1 | 122 | 0 | 0 | 122 | 0 | 122 | Dechreuad technegol wedi cadw'r caniatâd cynllunio'n gyfredol. Annhebygol o'i ddatblygu yn y 5 mlynedd nesaf. |
| 94 Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug (MOL100) | 1 | 11 | 2 | 11 | 0 | 0 | 0 | Cwblhawyd 2024/25. |
| Park House, Parc Busnes Broncoed, yr Wyddgrug (MOL 122) | 1 | 20 | 0 | 12 | 0 | 8 | 8 | 20 rhandy (FG Whitley). HAP-SAFLE y bloc o 8 sy'n weddill yn dal yn cael eu hadeiladu. |
| Adeilad Dewi Sant, Sgwâr Daniel Owen, Heol yr Iarll, Yr Wyddgrug (MOL126) | 1 | 14 | 0 | 0 | 14 | 0 | 14 | Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar 17/1/22. Newid defnydd – o swyddfa i fflatiau. HAP-SAFLE |
| Rose Lane/ Sunnyside, Mynydd Isa (MYN028) | 2 | 56 | 36 | 36 | 0 | 20 | 20 | Caniatâd cynllunio llawn wedi'i roi ar 22/7/21 - Clwyd Alyn – yn cael eu hadeiladu. |
| Ffordd Gorllewin Pennant, Mostyn (MOS006) | 3 | 64 | 0 | 0 | 64 | 0 | 64 | Cais amlinellol 496/22 wedi'i gymeradwyo ar 13/02/24. Drivestandard Ltd HAP-SAFLE |
| I'r gogledd o Goed Môr, Ffordd Rhewl Fawr, Penyffordd PFD022 | 4 | 21 | 0 | 0 | 21 | 0 | 21 | Caniatâd cynllunio manwl wedi'i roi ar 06/02/25 ar gyfer cynllun sy'n gwbl fforddiadwy. Adran 106 wedi'i lofnodi fis Ionawr 2025. Arwydd datblygu ar y safle a rhywfaint o waith wedi'i wneud. |

| **Safleoedd ymrwymedig** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle a chyfeirnod** | **Haen** | **Capasiti'r safle** | **Cyfanswm wedi'u cwblhau 2024-25** | **Cyfanswm y safleoedd wedi'u cwblhau** | **Unedau heb ddechrau arnynt 01/04/25** | **Unedau yn cael eu hadeiladu** | **Unedau sy'n weddill 01/04/25** | **Sylwadau** |
